
LLEISIAU LLANDYSUL



"Nid disodli'r hyn sy'n bodoli yw ystyr adfywio Llandysul a Phont-tyweli, ond ailgysylltu pobl, lleoedd a phosibiliadau."

Sut gall adfywio dan arweiniad y gymuned gryfhau cynaliadwyedd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y dref ac adlewyrchu angen ac uchelgais y bobl leol yr un pryd?

Gan Gemma Jones (Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen)

1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r ymchwil gymunedol yma yn edrych ar sut y gall Llandysul a Phont-tyweli ddod yn lleoedd mwy cysylltiedig, bywiog a gwydn i fyw, gweithio ac ymweld â nhw. Daeth yr ymgynghoriad â thystiolaeth ynghyd o arolygon, grwpiau ffocws, digwyddiadau cymunedol a sgyrsiau anffurfiol, gyda'r cyfranogwyr yn cyfrannu yn Gymraeg a Saesneg. Mae neges glir yn dod i'r amlwg o'r canfyddiadau: mae'r bobl leol yn gofidio'n fawr am ddyfodol yr ardal ac yn awyddus i'r adfywio adeiladu ar y cryfderau presennol yn hytrach na'u disodli.

Ar draws yr ymchwil, byddai'r cyfranogwyr yn disgrifio Llandysul a Phont-tyweli yn gyson fel lle cyfeillgar a chroesawgar, gydag ysbryd cymunedol cryf ac asedau cyfoethog Cymraeg, diwylliannol, hanesyddol a naturiol. Nodwyd Calon Tysul, Afon Teifi, Paddlers, Ffab, busnesau annibynnol lleol, sefydliadau cymunedol, cyfleusterau chwaraeon, gweithgareddau celfyddydol, mannau ffydd a mannau gwyrdd i gyd fel asedau cymunedol gwerthfawr. Mae'r cryfderau yma yn sylfaen gadarn ar gyfer adfywio yn y dyfodol.

Er hynny, mae'r canfyddiadau hefyd yn nodi pryderon clir sy'n codi dro ar ôl tro. Cyfathrebu oedd un o'r materion mwyaf cyson a godwyd: mae llawer o weithgareddau, gwasanaethau a chyfleoedd eisoes yn bodoli, ond nid yw pobl bob amser yn ymwybodol ohonyn nhw. Galwodd y cyfranogwyr am ddull mwy cydgysylltiedig o rannu gwybodaeth, gan gynnwys gwell hyrwyddo ar ddigwyddiadau, clybiau, cyfleoedd gwirfoddoli, gwasanaethau a busnesau lleol.

Roedd bywiogrwydd canol y dref yn thema bwysig arall. Cododd y cyfranogwyr bryderon am golli siopau, banciau, gwasanaethau a niferoedd ymwelwyr, gan gysylltu'r materion yma yn aml â thaliadau parcio, cyfyngiadau trafnidiaeth a'r angen i gefnogi busnesau lleol. Cafodd parcio ei ddisgrifio dro ar ôl tro fel rhwystr sy'n atal pobl rhag stopio, siopa, dod i weithgareddau neu ddefnyddio gwasanaethau lleol.

Roedd ymatebion y bobl ifanc yn dangos awydd cryf am fannau mwy anffurfiol i gyfarfod, mwy o weithgareddau, gwell opsiynau hamdden a mwy o gyfraniad at lunio dyfodol y dref. Yn bwysig ddigon, roedd y bobl ifanc nid yn unig yn gofyn am fwy o glybiau wedi'u trefnu: roedd ar lawer eisiau mannau diogel, croesawgar a hyblyg lle gallen nhw dreulio amser gyda ffrindiau heb orfod ymrwymo i sesiynau strwythuredig.

Cafodd trafnidiaeth a hygyrchedd eu codi ar draws sawl grŵp, yn enwedig o ran trigolion hŷn, pobl ifanc, busnesau, digwyddiadau a phobl heb gar. Bernid bod gwell trafnidiaeth gyhoeddus, mynediad haws i weithgareddau cymunedol a pharcio mwy fforddiadwy yn hanfodol ar gyfer cynhwysiant a chyfranogiad.

Roedd y Gymraeg, hanes lleol, traddodiadau, cerddoriaeth, celfyddydau a threftadaeth hefyd yn ganolog i'r canfyddiadau. Roedd y cyfranogwyr am i'r asedau yma gael eu diogelu a'u dathlu, a sicrhau hefyd fod newydd-ddyfodiaid sy'n dysgu'r iaith, pobl ddi-Gymraeg a phobl o wahanol genedlaethau yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys.

Mae'r canfyddiadau'n nodi sawl blaenoriaeth ymarferol: datblygu system gyfathrebu gymunedol ar y cyd, cefnogi busnesau lleol a niferoedd yr ymwelwyr yng nghanol y dref, adolygu rhwystrau parcio a thrafnidiaeth, darparu mwy o gyfleoedd anffurfiol i bobl ifanc, gwarchod y Gymraeg a'r dreftadaeth, gwneud gwell defnydd o adeiladau cymunedol, a sicrhau bod adfywio yn y dyfodol yn cael ei ddatblygu ar y cyd yn hytrach na thrwy wneud penderfyniadau o'r brig i lawr.

Ar y cyfan, mae'r ymgynghoriad yn dangos bod gan Landysul a Phont-tyweli sylfeini cymunedol cryf yn barod. Yr her yw nid creu ysbryd cymunedol o ddim byd, ond cryfhau cysylltiadau rhwng pobl, sefydliadau, busnesau a mannau. Gan hynny, dylai adfywio yn y dyfodol ganolbwyntio ar wneud yr asedau presennol yn fwy gweladwy, hygyrch a chynaliadwy, a sicrhau mai'r bobl leol sy'n dal i arwain y sgwrs am ddyfodol eu tref.

Mae Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen yn bwriadu rhannu'r adroddiad yma gyda'r Cynghorau Tref a Sir fel y gall y canfyddiadau helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol, gan gynnwys ceisiadau am gyllid a chyfleoedd adfywio i'r ardal. Y bwriad yw sicrhau bod y lleisiau, y profiadau a'r blaenoriaethau a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu lle gallan nhw ategu camau cadarnhaol ar gyfer Llandysul a Phont-tyweli.

Y neges gryfaf o'r canfyddiadau yw bod y bobl leol yn gofidio'n fawr am ddyfodol yr ardal ac yn awyddus i'r adfywio adeiladu ar y cryfderau presennol yn hytrach na'u disodli.

Mae'n amhosibl i unrhyw un o'r syniadau yma gael ei gyflawni gan un sefydliad yn unig. Er hynny, drwy weithio ar y cyd ac adeiladu ar y brwdfrydedd sydd eisoes i'w gael yn Llandysul a Phont-tyweli, mae'r argymhellion yma yn realistig ac yn gyraeddadwy. Mae'r ymgynghoriad wedi dangos bod yna ewyllys da sylweddol yn y gymuned yn barod. Yr her nawr yw harneisio'r egni yma a'i droi'n newid parhaol, cadarnhaol. Mae Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen yn edrych ymlaen at gefnogi'r gwaith.

"Nid disodli'r hyn sy'n bodoli yw ystyr adfywio Llandysul a Phont-tyweli, ond ailgysylltu pobl, lleoedd a phosibiliadau."



Adroddiad Llawn Cymraeg/Saesneg



Tabl Cynnwys


1. Crynodeb Gweithredol T.1-2
2. Lleisiau Llandysul a Phont-tyweli..... T.5
2.1 Cyflwyniad T.5
2.1.1 Tabl 2.1: Ymgyngoriadau blaenorol ers 2009 ..... T.6
3. Ffocws yr ymchwil T.7
4. Dulliau T.8
4.1 Grwpiau ffocws – dulliau T.8
4.2 Dull grŵp ffocws Gwytnwch Bwyd – yr Ardd a'r Pwerdy T.8
4.3 Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni – dull grŵp ffocws T.9
4.4 Ynni Sir Gâr yn y Pwerdy – dull grŵp ffocws T.10
4.5 Sesiwn seiliedig ar ffydd a lle rhan 1 – Neuadd Tysul – dull grŵp ffocws ... T.11
4.6 Y Ffynnon: Sesiwn seiliedig ar ffydd a lle rhan 2 – dull grŵp ffocws T.12-13
4.7 Mannau adloniant gyda Ceri Mathews a Julie Murphy – dull grŵp ffocws ... T.14
4.8 Brecwast Busnes Mawr – dull grŵp ffocws T.15
4.9 Sesiwn Clwb Ieuenctid yn gwrando ar leisiau pobl ifanc – dull grŵp ffocws ... T.16
4.10 Hanes a chenedlaethau Glascoed – dull grŵp ffocws T.17
4.11 Ieuenctid – Ysgol Bro Teifi – dull grŵp ffocws ..... T. 18
4.12 Dulliau'r arolygon ..... T. 19
4.12.1 Arolwg Ymgysylltu Ar-lein ..... T. 19
4.12.2 Arolwg Ymgysylltu Personol ..... T. 20
4.13 Cofnodi a Dadansoddi Data ..... T. 20
4.13.1 Ystyriaethau Moesegol ..... T. 21
4.14 Cyfyngiadau ..... T. 21
5. Canfyddiadau – y canlyniadau ..... T. 22
5.1 Grwpiau Cyfranogwyr ac Ystodau Oedran (bras) ..... T. 23
5.2 Dadansoddiad Thematig o bob grŵp ffocws unigol ..... T. 23
5.2.1 Yr Ardd – Dadansoddiad thematig Gwytnwch Bwyd ..... T. 23-25
5.2.2 Gwytnwch bwyd – diagram corryn ..... T. 26
5.2.3 Clwb ffermwyr ifanc – themâu allweddol ..... T. 27-28
5.2.4 Diagram corryn CFfI. T.29
5.2.5 Digwyddiad Ynni Sir Gâr yn Y Pwerdy – dadansoddiad thematig T.30-31
5.2.6 Ynni Sir Gâr – diagram corryn T.32
5.2.7 Ymatebion Tysul (Ffydd rhan 1)- dadansoddiad thematig T.33-35
5.2.8 Grŵp Ffydd Tysul – diagram corryn T.36
5.2.9 Y Ffynnon – rhan 2 Mannau ffydd – themâu allweddol T.37-38
5.2.10 Y Ffynnon – diagram corryn T.39
5.2.11 Mannau adloniant a pherfformio – dadansoddiad thematig T.40-42
5.2.12 Mannau cerddoriaeth ac adloniant diagram corryn T.43
5.2.13 Ymgynghoriad busnes – dadansoddiad thematig T.44-45
5.2.14 Ymgynghoriad busnes – diagram corryn T.46
5.2.15 Ysgol Bro Teifi – dadansoddiad thematig sesiwn podlediad T.47- 48
5.2.16 Ysgol Bro Teifi – diagram corryn sesiwn podlediad..... T.49
5.2.17 Dadansoddiad thematig o'r Arolwg T.50-51
5.2.18 Diagram corryn yr Arolwg T.52
5.2.19 Ieuenctid – Ysgol Bro Teifi – Dadansoddiad Thematig o'r holiaduron a lenwyd gyda'r myfyrwyr T.53-54
6. Canfyddiadau a mewnwelediadau allweddol T.55
6.1 Dadansoddiad Thematig o'r ymatebion i gwestiynau 1-5 ar draws pob grŵp a'r arolwg T.55-57

6.2 Crynodeb o'r Themâu Allweddol o gwestiynau 1-5 ar draws pob grŵp a'r arolwg T.61
……..
6.3 Dadansoddiad o'r Cwestiwn Terfynol T.61-64
6.4 Crynodeb o'r Themâu Allweddol o'r cwestiynau terfynol T.64
7. Canfyddiadau allweddol ar draws pob grŵp T.62
8. Argymhellion Allweddol T.62
9. Y Camau Nesaf T.63
10. Gwerthuso a myfyrdodau T.64-66
11. Cydnabyddiaeth T.67
12. Cyfeiriadau T.68
13. Atodiadau T.69
13.1 Y setiau o gwestiynau T.69-72
13.2 Detholiad o'r posteri a ddefnyddiwyd i hysbysebu'r digwyddiadau T.73
13.3 Sampl o'r ffurflen gydsynio a'r holiadur a ddefnyddiwyd T.74-77
13.4 Sampl o ffurflen ar-lein y cysylltid â hi drwy God QR ……..
T.79
Atodiad - Digwyddiad Diolch - Lleisiau Llandysul T.80-81
Dulliau Mapio Gwres T.82
Ymatebion Mapio Gwres T.82-83
Dadansoddiad o adborth y mapio gwres o gardiau post T.84-85
Materion coch / negyddol a grybwyllir amlaf T.84
Nodweddion gwyrdd / cadarnhaol a grybwyllir amlaf T.84
Canfyddiad cyffredinol T.84-85
Diagram pry cop sy'n dangos prif themâu'r ymgynghoriad hwn T.85

2. Lleisiau Llandysul a Phont-tyweli

2.1 Cyflwyniad

Mae gan Landysul, yn y Gorllewin, boblogaeth fach mewn ardal adeiledig o ryw 1,300, gyda rhyw 2,500 o bobl yn byw yn y gymuned ehangach (Cyfrifiad SYG 2021). Mae gan yr ardal ddwysedd poblogaeth isel o ryw 40–50 o bobl fesul cilomedr sgwâr, sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 150 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Mae gan Landysul gymeriad gwledig yn bennaf. Mae ei phroffil poblogaeth yn gymharol hen, gyda chyfran nodedig o drigolion 65 oed a throsodd; yn nhref Llandysul ei hun, mae 26.6% o'r trigolion yn y grŵp oedran yma, yn ôl Cyfrifiad 2021. Mae'r gymuned yn Wyn i raddau helaeth, dros 95%, ac yn bennaf wedi'i geni yn y Deyrnas Unedig, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth ethnig cyfyngedig sy'n nodweddiadol o gefn gwlad Ceredigion. Mae rhyw hanner trigolion yr ardal ehangach yn siarad Cymraeg, sy'n adlewyrchu lleoliad Llandysul yn un o ranbarthau Cymraeg cryfaf Cymru.



Mae Ffigur 2 yn dangos map o Landysul ger arfordir y Gorllewin, OpenStreetMap 2026

Mae ailddychmygu Llandysul fel tref fach gysylltiedig, fywiog yn brosiect dan arweiniad y gymuned sy'n canolbwyntio ar ddod â diwylliant, economi a lles at ei gilydd i helpu i lunio dyfodol Llandysul a Phont-tyweli. Mae'r prosiect yn edrych ar sut y gall pobl, busnesau a sefydliadau lleol weithio gyda'i gilydd i gefnogi dyfodol mwy gwydn, cynhwysol a chynaliadwy i'r ardal.
Dewiswyd y pwnc yma am mai cyfyngedig yw'r ymchwil ddiweddar sydd wedi'i chyflawni ar ddyfodol y dref, yn enwedig ymchwil sy'n rhoi lleisiau lleol a phrofiad byw yn y canol. Roedd angen

pendant i ddeall gobeithion, pryderon a syniadau pobl ar gyfer y dyfodol, fel bod y gwaith adfywio'n adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig yn lleol.
Fe gododd ein cymhelliant ni o awydd cyffredin i gryfhau cysylltiadau cymunedol, gwella llesiant, ategu twf economaidd lleol a chreu cyfleoedd sy'n annog pobl i fyw, gweithio ac ymgysylltu yn y dref. Gobeithio y bydd yr ymchwil yn gweithredu fel catalydd ar gyfer newid cadarnhaol ac yn ysbrydoli prosiectau a phartneriaethau yn y dyfodol.
Roedd yr ymgynghoriad yma yn wahanol i ymarferion ymgysylltu blaenorol. Cynlluniwyd yr ymchwil i wrando'n ofalus ar farn a phrofiadau pobl, gyda'r nod o greu ymgynghoriad gwirioneddol fanwl a fyddai'n gyfle i'r cyfranogwyr rannu eu syniadau'n agored. Roedd rhai ymgyngoriadau blaenorol wedi cael eu hystyried fel ymarferion o'r brig i lawr a arweiniodd at gamau gweladwy cyfyngedig, ac atgyfnerthwyd hyn gan ba mor anodd oedd hi i ddod o hyd i adroddiadau clir o'r ymgyngoriadau cynharach, fel y gwelir yn y cyfeiriadau yn nes ymlaen yn y ddogfen yma.

2.1.1 Tabl 2.1: Ymgyngoriadau blaenorol ers 2009

Blwyddyn	Ymgynghoriad / Ymgysylltiad	Sefydliad Arweiniol	Prif Ffocws
2019	Ymgysylltiad argyfwng hinsawdd	Cyngor Sir Ceredigion	Blaenoriaethau gwytnwch hinsawdd a chynaliadwyedd.
2020–2021	Ymgynghoriad Adferiad COVID	Busnesau a grwpiau cymunedol	Adferiad busnes, gwytnwch a gwasanaethau cymorth.
2021–2022	Ymgysylltiad y Cynllun Trafnidiaeth Lleol	Cyngor Sir Ceredigion	Blaenoriaethau trafnidiaeth gynaliadwy.
2022	Ymgynghoriad Teithio Llesol	Cyngor Sir Ceredigion	Gwelliannau cerdded a beicio.
2022	Ymgysylltiad Perygl Llifogydd Lleol	Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor	Gwytnwch yn erbyn llifogydd a rheoli afonydd.
2023	Ymgynghoriad ar Fap Rhwydwaith Teithio Llesol	Cyngor Sir Ceredigion	Llwybrau cerdded a beicio arfaethedig.
2023–2024	Ymgynghoriad ar Gynllun Lle Llandysul	Cyngor Cymuned Llandysul	Tai, trafnidiaeth, economi, treftadaeth, ieuenctid, amgylchedd a llesiant.
2024	Ymgysylltiad Adfer Natur	Cyngor Sir Ceredigion	Bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd.
2024–2026	Ymgynghoriad Adfywio'r Dref	Prifysgol Aberystwyth a Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen	Ymgysylltu helaeth â phreswylwyr, busnesau, ysgolion, grwpiau ieuenctid, grwpiau ffydd a sefydliadau cymunedol i lywio'r adfywio yn y dyfodol.

Mewn cyferbyniad, cafodd y gwaith yma ei ddatblygu o'r llawr i fyny, gyda'r bwriad y gellid defnyddio'r canfyddiadau yn ystyrlon ac yn ofalus i lywio prosiectau yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod yr ymgynghoriad yma wedi'i gyflwyno yn Gymraeg ac yn ddwyieithog, yn wahanol i lawer o'r prosesau ymgynghori blaenorol oedd ar gael yn Saesneg yn unig. Mae'n ymddangos bod rhai ymgyngoriadau blaenorol hefyd wedi digwydd heb fod adroddiad neu broses adborth wedi'u cyhoeddi'n glir, sy'n golygu nad oedd fawr ddim i'r gymuned ei weld wedyn. Mae hyn wedi cyfrannu at ymdeimlad ymhlith llawer o'r cyfranogwyr fod yna ymgynghori â Llandysul yn aml, ond nad yw Llandysul bob amser yn cael ei diweddaru'n ystyrlon ar yr hyn sy'n digwydd nesaf. Fel sefydliad, mae'n bwysig i ni fod y gwaith yma yn cael ei fwydo'n ôl i'r gymuned.
Mae'r ymchwil yma yn adlewyrchu blaenoriaethau'r gymuned a hynny drwy edrych ar ansawdd bywyd, cyfranogiad, busnes lleol, a'r mannau a'r cysylltiadau sy'n helpu tref i ffynnu. Mae hefyd yn cysylltu'n agos â gwaith ehangach ein sefydliad ynglŷn â datblygu cymunedol, cydweithredu, cynaliadwyedd a newid cadarnhaol hirdymor i bobl leol.
Cafodd yr ymchwil yma ei harwain gan Gemma Jones ar ran Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen, gyda chefnogaeth ei chydweithiwr Alex Norval. Trwy'r adroddiad i gyd, mae "fi" yn cyfeirio at Gemma Jones, tra bo "ni" yn cyfeirio at Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen a thîm y prosiect fu'n ymwneud â chyflawni'r ymchwil.
Mae'r tabl uchod yn darparu enghreifftiau o ymgyngoriadau blaenorol sydd wedi digwydd.

3. Ffocws yr ymchwil

Nod yr ymchwil oedd deall sut y gellid ail-ddychmygu Llandysul a Phont-tyweli fel cymunedau mwy cysylltiedig, bywiog a gwydn drwy edrych ar flaenoriaethau, heriau, cyfleoedd a dyheadau lleol ar gyfer y dyfodol. Un cwestiwn ymchwil canolog oedd yn llywio'r prosiect oedd: **Sut gall adfywio dan arweiniad y gymuned gryfhau cynaliadwyedd cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y dref ac adlewyrchu angen ac uchelgais y bobl leol yr un pryd?**
Dewiswyd ein grwpiau ffocws fel y gellid cynnwys ystod eang o leisiau a phrofiadau. Nodwyd wyth maes allweddol: gwytnwch bwyd, ynni, pobl ifanc, crefydd a ffydd, busnes, mannau adloniant a pherfformio, a hanes a threftadaeth leol. Gyda'i gilydd, roedd y themâu yma yn adlewyrchu'r rhannau ymarferol a diwylliannol o fywyd sy'n ffurfio tref fach ffyniannus.
Roedd ein hymagwedd ni hefyd yn anelu at gefnogi'r Gymraeg a chynnwys pobl ar draws y cenedlaethau. Roedden ni'n awyddus i glywed gan drigolion hŷn, pobl sy'n aelodau o'r gymuned ers tro byd, teuluoedd, pobl ifanc ac eraill nad yw eu barn bob amser yn cael ei chlywed, fel bod y weledigaeth ar gyfer Llandysul yn y dyfodol yn adlewyrchu cymysgedd eang o brofiadau.

Roedden ni am i'r ymchwil adael gwaddol parhaol, nid yn unig trwy gofnodi lleisiau a phrofiadau lleol, ond trwy sicrhau bod y canfyddiadau'n cael eu dychwelyd i'r gymuned, gan gydnabod bod prosesau ymgynghori yn rhy aml yn gadael pobl yn teimlo nad ydyn nhw byth yn clywed beth ddigwyddodd wedyn. Ochr yn ochr â hyn, roedden ni am greu rhywbeth a allai barhau y tu hwnt i'r prosiect ei hun, boed trwy berthnasoedd newydd, rhwydweithiau cryfach neu grwpiau a gâi eu ffurfio ar hyd y ffordd.

Mae'r ymchwil yma wedi'i seilio ar y gred bod adfywio yn gweithio orau pan gaiff ei siapio gan y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gymuned. Yn rhy aml, mae penderfyniadau'n cael eu harwain gan ddadansoddiad allanol, er mai'r bobl leol sy'n deall eu cryfderau, eu heriau a'u cyfleoedd eu hunain orau. Nod y prosiect oedd helpu i wneud penderfyniadau gwell yn y dyfodol, denu buddsoddiadau a helpu i ddatblygu prosiectau sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau lleol.

Ariannwyd yr ymchwil yma gan **Cymru Wledig LPIP Rural Wales**, y Bartneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol ar gyfer Cymru Wledig. Mae'n cysylltu ymchwilwyr academaidd, cyrff cyhoeddus, sefydliadau

a chymunedau'r trydydd sector a'r sector preifat, gyda'r nod o wella'r defnydd o ymchwil ac arloesi i helpu i lunio polisïau effeithiol, datblygu rhanbarthol cynaliadwy, a llesiant pobl a lleoedd ledled y Gymru wledig. Yn ogystal â chyllid, darparodd Cymru Wledig LPIP Rural Wales hefyd fentor academaidd o Brifysgol Aberystwyth a hwylusydd ymchwil o CBC Gyda'n Gilydd Dros Newid i'r prosiect.

Dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth, mae'r LPIP yn gydweithrediad rhwng pedwar sefydliad academaidd blaenllaw – prifysgolion Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd, a'r Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymuned ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw – gan weithio gyda phartneriaid sy'n cynnwys y Ganolfan Technoleg Amgen, Gyda'n Gilydd Dros Newid, Antur Cymru Enterprise, Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, Represent us Rural, a Sgema.

4. Dulliau

Mae'r ymchwil wedi mabwysiadu dull cymysg yn y sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb, gan gyfuno cwestiynau strwythuredig â digon o hyblygrwydd i bob grŵp a thrafodaeth ddatblygu yn ei ffordd ei hun. Roedd hyn yn helpu sesiynau grwpiau ffocws i deimlo'n fwy naturiol a hamddenol, fel y gallai pobl ofyn cwestiynau, rhannu barn a chyfrannu mewn ffyrdd oedd yn teimlo'n gyfforddus iddyn nhw. Rhoddodd gyfle hefyd i bobl ddysgu mwy am yr ymchwil ac amdanon ni fel elusen, a helpu i adeiladu ymddiriedaeth a chysylltiadau cryfach trwy'r broses i gyd. Ar ddechrau pob sesiwn, rhoddwyd cyflwyniad byr i'r prosiect, gan esbonio bod yr ymchwil yn anelu at gofnodi ystod eang o leisiau yn Llandysul a Phont-tyweli ac amlinellu sut y gallai data gael ei ddefnyddio yn nes ymlaen.

Ar y dechrau, y bwriad oedd cynnal wyth grŵp ffocws wedi'u hwyluso, ond wrth i'r gwaith cynllunio fynd ymlaen bu'n rhaid i'r amserlen newid i gyd-fynd ag argaeledd pobl a'r gyllideb gyffredinol. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran werthuso a'r adran ar gyfyngiadau.

Dangoswyd posteri ar gyfer pob digwyddiad unigol, yn ogystal â phosteri ar gyfer yr arolwg ar-lein cyffredinol, ar y sgrin ddigidol awyr agored yn Calon Tysul ac ar hysbysfyrddau cymunedol ledled yr ardal i helpu i roi'r gair ar led.

4.1 Grwpiau ffocws – dulliau

Cyn y grŵp ffocws, cafodd y cyfranogwyr i gyd daflen wybodaeth a ffurflen gydsynio yn amlinellu pwrpas y prosiect a beth fyddai cymryd rhan yn ei olygu. Esboniodd y ffurflen gydsynio mai mater cwbl wirfoddol oedd cyfranogi a bod gan unigolion yr hawl i dynnu'n ôl o'r astudiaeth unrhyw bryd heb roi rheswm. Rhoddwyd gwybod i'r cyfranogwyr hefyd y gallen nhw ddewis peidio ag ateb unrhyw gwestiynau neu beidio â chymryd rhan yn y drafodaeth os oedden nhw'n teimlo'n anghyfforddus. Cafodd holiaduron eu rhoi i bob cyfranogwr a'u llenwi'n ddienw i sicrhau cyfrinachedd ac annog ymatebion gonest. Dim ond y rhai a roddodd gydsyniad gwybodus a wahoddwyd i gymryd rhan yn y grŵp ffocws a llenwi'r holiadur.

4.2 Dull grŵp ffocws Gwytnwch Bwyd – yr Ardd a'r Pwerdy

Gwytnwch bwyd oedd thema'r sesiwn grŵp ffocws cyntaf. Gwahoddwyd y cyfranogwyr i gymryd rhan mewn taith dywys o amgylch yr Ardd, ac yna cafwyd trafodaeth hwyluso a chyfle i rannu potaid cynnes o gawl gyda'n gilydd. Arweiniwyd y sesiwn gan Louise Cartwright, hwylusydd sy'n arbenigo mewn hyfforddiant garddio a dylunio permaddiwylliant. Cynhaliwyd y digwyddiad ar 26 Chwefror 2026, rhwng 9.15 a.m. a 2.30 p.m. Rhoddwyd gwybod i'r cyfranogwyr fod y sesiwn yn

hyblyg ac y gallen nhw fod yn bresennol am gymaint neu gyn lleied o amser ag oedd yn addas iddyn nhw.

Dosbarthwyd gwahoddiadau'n uniongyrchol gan dîm y prosiect a Louise, tra cafodd posteri yn hysbysebu'r digwyddiad eu harddangos ledled yr ardal leol ac ar y sgrin ddigidol awyr agored yn Calon Tysul i hybu cyfranogiad ehangach. Gan fod y digwyddiad wedi'i drefnu o fewn amserlen gymharol fyr, roedd y lefelau presenoldeb yn ansicr. I helpu i godi ymwybyddiaeth a denu cyfranogwyr, rhannais fanylion y digwyddiad gyda thrigolion lleol oedd â diddordeb mewn gwytnwch bwyd a chysylltu â bwytai lleol, caffis, siopau groser, a busnesau eraill sy'n gysylltiedig â bwyd, gan eu gwahodd i ddod i'r sesiwn neu lenwi'r holiadur.

Arweiniodd Louise y drafodaeth gan ddefnyddio cwestiynau allweddol a nodi'r ymatebion ar siart troi. Llenwodd y rhai oedd yn bresennol holiaduron hefyd, a chymerodd rhai gopïau i'w rhannu gyda ffrindiau. Trefnwyd hefyd fod yr holiadur ar gael trwy god QR, oedd yn cysylltu â Microsoft Forms, fel y gallai pobl oedd yn methu bod yn bresennol ond yn dal eisiau rhannu eu barn, gymryd rhan.
Roedd y sesiwn yma yn Saesneg yn bennaf, gyda rhywfaint o Gymraeg. Roedd ystod oedran y bobl o'r 30au ac yn uwch.







Ffigur 3: Mae llun 1 yn dangos grŵp o bobl yn sefyll y tu allan yn yr Ardd mewn tywydd diflas, gwlyb, yn dangos lleoliad awyr agored ymweliad y grŵp ffocws gwytnwch bwyd.
Ffigur 4: Mae llun 2 yn dangos un o'r tudalennau siart troi a grëwyd yn ystod trafodaeth y grŵp ffocws yn y Pwerdy, gyda nodiadau a syniadau wedi'u hysgrifennu fel rhan o sgwrs y grŵp.
Ffigur 5: Mae llun 3 yn dangos sesiwn y grŵp ffocws yn cael ei chynnal dan do, gyda'r cyfranogwyr yn eistedd o amgylch bwrdd ac yn gwylio Louise Cartwright yn siarad yn ystod y drafodaeth.

4.3 Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni – dull grŵp ffocws

Roedd y sesiwn yma yn anffurfiol. Roedd y CFfI eisoes yn cynnal rhaglen lawn o weithgareddau, felly buon nhw'n ddigon caredig i adael inni ymuno ag un o'u nosweithiau. Aethon ni atyn nhw ar 10 Mawrth am 8pm. Yn ystod egwyl, cafodd y bobl ifanc fyrbrydau a llenwi'r holiaduron.

Cyflwynodd fy nghydweithiwr Alex a minnau y prosiect, gan esbonio manteision cymryd rhan, a phwysleisio mai peth cwbl wirfoddol oedd hynny. Esboniwyd ein bod ni ar gael i gynnig help neu eglurhad os oedd eu hangen; ond cwblhaodd y cyfranogwyr yr holiaduron yn annibynnol heb gymorth. Fel gyda sesiynau blaenorol, gadawyd holiaduron ychwanegol i'r rhai oedd yn methu bod yn bresennol, ac roedd fersiwn ar-lein hefyd ar gael ar gyfer cyfranogiad ehangach.

Cynhaliwyd y grŵp yma yn Gymraeg yn bennaf, gyda rhywfaint o Saesneg hefyd yn cael ei ddefnyddio. Roedd yr oedran yn amrywio o bobl ifanc yn eu harddegau i bobl yn eu 30au.

4.4 Ynni Sir Gâr yn y Pwerdy – dull grŵp ffocws

Sesiwn a gyflwynwyd mewn partneriaeth ag Ynni Sir Gâr oedd hon, yn canolbwyntio ar ynni lleol, ei ddibenion, ei gyfleoedd a'i gyfyngiadau, ac fe'i cynhaliwyd yn adeilad amlwg y Pwerdy ei hun. Cynhaliwyd y digwyddiad rhwng 6pm ac 8pm ar 25 Mawrth 2026. Wedi'i leoli uwchben yr afon ac o fewn man sy'n gysylltiedig yn hanesyddol â chynhyrchu pŵer, roedd y lleoliad yn gefndir addas ar gyfer trafod ynni a chynaliadwyedd lleol.

Ar gyfer y digwyddiad yma, roedden ni'n teimlo mai fformat anffurfiol gyda chyflwyniad byr fyddai'n gweithio orau. Roedd hynny'n fodd i bobl glywed rhywfaint o gefndir materion ynni lleol a mentrau ynni cymunedol cyn symud i drafodaeth agored. Hwyluswyd y sesiwn gan Lleucu Meinir, sy'n gweithio i Ynni Sir Gâr ac sydd hefyd yn ymwneud â'r grŵp eglwysig lleol y Ffynnon. Mae Lleucu yn adnabyddus yn y gymuned trwy gymryd rhan mewn ystod eang o brosiectau a mentrau lleol, oedd yn ei gwneud hi'n berson delfrydol i arwain y drafodaeth yn Gymraeg gyda rhywfaint o Saesneg hefyd.

Fe wnaethon ni hefyd gyflogi'r cyfieithydd, Llinos Jones, oedd eisoes yn adnabyddus i Lleucu trwy Ynni Sir Gâr ac oedd yn lleol i'r ardal, yn gyfarwydd i lawer o aelodau o'r gymuned. Gan mai Cymraeg oedd iaith Lleucu a llawer o'r cyfranogwyr, roedden ni'n awyddus i ddefnyddio'r Gymraeg gymaint â phosibl drwy gydol y sesiwn. Rhoddodd Llinos gyfieithiad Cymraeg-i-Saesneg, a ddigwyddodd yn esmwyth yn y cefndir gan helpu'r sgwrs i lifo'n naturiol heb dorri ar draws y trafod. Roedd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer pwnc fel ynni lleol, lle roedd yn bwysig bod y cyfranogwyr yn cael cyfrannu'n gyfforddus yn eu dewis iaith.

Clywodd y cyfranogwyr gan Dr Sioned Haf, sy'n gweithio'n rhan-amser i Ynni Sir Gâr ac sydd wedi'i lleoli yn Llangadog yn Nyffryn Tywi. Mae gan Sioned ddoethuriaeth o Brifysgol Bangor, lle canolbwyntiodd ei hymchwil ar ynni cymunedol yng Nghymru a'r Alban, ac mae'n dal i gyfrannu at ymchwil yn y maes yma. Yn ystod y sesiwn, siaradodd am brosiectau a gyflwynwyd gan Ynni Sir Gâr ac amlinellodd ystod o gynlluniau a chyfleoedd ynni cymunedol, a arweiniodd at drafodaeth eang.

Un mater a gododd dro ar ôl tro oedd pam nad oedd yr ynni a gynhyrchid ar un adeg yn yr adeilad ei hun yn cael ei ddefnyddio mwyach, gan agor sgwrs ehangach am seilwaith, perchnogaeth, a phosibiliadau yn y dyfodol. Darparwyd lluniaeth cyn i'r cyfranogwyr gael eu gwahodd i lenwi'r holiaduron yn Gymraeg neu Saesneg. Roedd Alex a minnau wrth law i helpu gyda chwestiynau cyffredinol, tra bo Lleucu a Dr Sioned Haf yn cefnogi'r cyfranogwyr gyda'r pwyntiau mwyaf technegol ynglŷn ag ynni.







Ffigur 6: Mae llun 1 yn dangos Gemma Jones yn dosbarthu holiaduron tra bo Dr Sioned Haf yn siarad â'r cyfranogwyr o amgylch y bwrdd.
Ffigur 7: Mae llun 2 yn dangos golygfa allanol o'r Pwerdy ym Mhont-tyweli, lleoliad y digwyddiad ymgynghori.
Ffigur 8: Mae llun 3 yn dangos cyfranogwyr yn gwrando wrth i Dr Sioned Haf roi ei chyflwyniad yn ystod ymgynghoriad Ynni Sir Gâr.

4.5 Sesiwn seiliedig ar ffydd a lle rhan 1 – Neuadd Tysul – dull grŵp ffocws

Cynhaliwyd y digwyddiad yma ddydd Mercher 15 Ebrill rhwng 1pm a 3pm. Wrth gynllunio strwythur a fformat y diwrnod, penderfynodd Lleucu Meinir a minnau y byddai'n fuddiol rhannu'r digwyddiad ar draws dau leoliad: Eglwys Tysul a'r Ffynnon. Mae Lleucu, sy'n gweithio i Ynni Sir Gâr ac yn ymwneud yn weithredol â grŵp eglwysig lleol y Ffynnon, yn adnabyddus yn y gymuned trwy gymryd rhan mewn ystod eang o brosiectau a mentrau lleol. Gan dynnu ar ei phrofiad o hwyluso grwpiau a digwyddiadau cymunedol, teimlai y byddai defnyddio dau leoliad cyfarwydd a chroesawgar yn helpu'r cyfranogwyr i deimlo'n fwy cyfforddus i rannu eu barn. Rhoddodd y dull yma gyfle i bobl ddod i'r fan lle roedden nhw'n teimlo'n fwyaf cyfforddus, gan gydnabod bod lleoedd ffydd yn aml yn gwasanaethu fel mannau cymunedol pwysig a ffynonellau cymorth yn Llandysul.


Hwylusodd Lleucu y sesiwn yn Gymraeg a chyflwynodd bwrpas y digwyddiad, nodau'r holiaduron, a'r themâu roedden ni am eu harchwilio. Anogwyd y cyfranogwyr i gymryd rhan mewn trafodaeth agored fel y gellid rhannu gwahanol safbwyntiau a phrofiadau. Parhaodd y sesiwn am ryw ddwy awr, gan ganiatáu amser i gyflwyno'r prosiect, gweini cawl, te a lluniaeth, llenwi'r holiaduron, a chael trafodaeth hamddenol o amgylch y bwrdd am y materion a godwyd.

Roedd holiaduron ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac roedd Alex a minnau wrth law i roi cymorth yn ôl yr angen. Gan fod y ficer, Gareth Reid, yn bresennol yn y sesiwn ac yn ddwyieithog, penderfynwyd peidio â chyflogi cyfieithydd ar yr achlysur yma. Yn hytrach, darparodd Gareth a minnau gyfieithiad Cymraeg-Saesneg yn ôl yr angen, tra bo Lleucu'n canolbwyntio ar hwyluso'r trafod. I wneud y sesiwn mor gynhwysol a hygyrch â phosibl, darparwyd amryw o bennau a chwyddwydrau i unrhyw un a allai elwa ohonyn nhw, yn enwedig cyfranogwyr hŷn neu bobl â nam ar eu golwg neu anawsterau eraill. Caniatawyd hefyd i'r sesiwn ddatblygu ar gyflymder cyfforddus, gan sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gyfrannu. Roedd y cyfranogwyr yn ymddangos yn wirioneddol falch bod ffydd a mannau addoli wedi'u cynnwys fel rhan o'r ymchwil.





Ffigur 9 a Ffigur 10: Mae'r ddwy ddelwedd yn dangos pobl wedi ymgynnull o amgylch bwrdd yn Neuadd Tysul, gyda Lleucu Meinir yn dal darn o bapur ac yn siarad â'r grŵp.



Ffigur 11 a Ffigur 12: Mae delweddau 1 a 2 yn dangos y sgript a ysgrifennodd Lleucu Meinir i'w darllen i bobl yn y sesiynau ffydd.

4.6 Y Ffynnon: Sesiwn seiliedig ar ffydd a lle rhan 2 – dull grŵp ffocws

Cynlluniwyd sesiwn y Ffynnon i edrych ar fannau ffydd, sut maen nhw'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, a sut y gellid eu defnyddio yn y dyfodol i ateb anghenion cymunedol. Y cysyniad gwreiddiol oedd cynnwys cyflwyniad gan Lleucu Meinir yn y Ffynnon, eglwys sydd wedi'i lleoli mewn hen adeilad ysgol, gan ganolbwyntio ar y gwahanol grefyddau a gynrychiolir yn yr ardal, y mannau sydd ar gael at addoli, ac unrhyw heriau neu rwystrau y gall pobl eu profi wrth gael mynediad neu ddefnyddio'r mannau yma. Cynhaliwyd y digwyddiad yma ar Ebrill 15 rhwng 7pm a 9pm.

Mae Lleucu, sy'n gweithio i Ynni Sir Gâr ac yn ymwneud yn weithredol â'r Ffynnon, yn adnabyddus yn y gymuned trwy gymryd rhan mewn ystod eang o brosiectau a mentrau lleol. Roedd ei phrofiad o hwyluso grwpiau cymunedol ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol yn amhrisiadwy wrth lunio fformat y sesiwn a chreu amgylchedd lle roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gyfforddus yn rhannu eu barn a'u profiadau.
Fel y soniwyd o'r blaen, rhannwyd y sesiynau ffydd ar draws dau leoliad i'n galluogi i ymgysylltu â chynifer o gynulleidfaoedd ac aelodau o'r gymuned â phosibl. Er ein bod yn cydnabod na allwn ymgysylltu â phob man ffydd unigol, roedden ni'n teimlo bod y ddau leoliad yma yn fannau pwysig a chynrychioliadol a fyddai'n groesawgar ac yn hygyrch i ystod eang o gyfranogwyr. Mae defnyddio dau leoliad hefyd wedi ein helpu i ymgysylltu ag ystod ehangach a mwy amrywiol o gyfranogwyr, gan ein galluogi i gasglu safbwyntiau gan bobl na fydden nhw fel arall wedi bod yn bresennol pe bai'r sesiwn wedi'i chynnal mewn un lleoliad.
Cynhaliwyd y digwyddiad yn y Ffynnon. Gwahoddodd Lleucu gyfranogwyr yn bersonol trwy'r ebost a negeseuon, gan dynnu ar ei rhwydweithiau cymunedol helaeth, tra buon ninnau hefyd yn hybu'r digwyddiad trwy bosteri a arddangoswyd o amgylch yr ardal, postiadau yn y cyfryngau

cymdeithasol, a'r bwrdd arddangos digidol yn Calon Tysul. Darparodd Lleucu a gwirfoddolwyr o'r Ffynnon bwffe croesawgar ac, wrth i bobl gyrraedd, roeddwn i'n siarad â nhw am y prosiect a'r cwestiynau y bydden nhw'n eu trafod. Roedd copïau Cymraeg a Saesneg o'r holiadur ar gael, yn dibynnu ar ddewis unigol, ac fe wnaethon ni hefyd gyflogi cyfieithydd i sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan yn gyfforddus a chyfrannu yn eu dewis iaith.

Agorodd Lleucu'r sesiwn drwy gyflwyno'r prosiect a minnau yn Gymraeg. Yna rhoddais i drosolwg byr o nodau'r prosiect, siarad am bwysigrwydd barn a phrofiadau pobl, a diolch i bawb am gymryd rhan o'u gwirfodd.

Darllenodd Lleucu bob cwestiwn ar goedd, a datblygodd y trafod yn naturiol o amgylch y rhain. Helpodd ei gwaith hwyluso i greu awyrgylch agored a hamddenol lle gallai pobl o wahanol fannau ffydd rannu eu syniadau, eu profiadau a'u safbwyntiau, a hefyd ddysgu oddi wrth ei gilydd trwy sgwrsio. Yn Gymraeg y cynhaliwyd y sesiwn yma, ac eto roedd gennyn ni'r cyfieithydd, Llinos Jones, i gyfieithu i'r Saesneg, er na fu angen hyn mewn gwirionedd yn y sesiwn yma.



Ffigur 13: Lleucu Meinir yn siarad â cyfranogwyr yn y Ffynnon.



Ffigur 14: Bwffe yn y Ffynnon.



Ffigur 15: Lleucu Meinir yn siarad â'r grŵp o gyfranogwyr sy'n eistedd i lawr.

4.7 Mannau adloniant gyda Ceri Mathews a Julie Murphy – dull grŵp ffocws

Nod y digwyddiad yma oedd dod â phobl sydd â diddordeb mewn perfformio'n gyhoeddus, yn ogystal â'r rhai sy'n mynd i ddigwyddiadau diwylliannol yn rheolaidd, at ei gilydd, i edrych ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â chynnal a chymryd rhan yn y mathau yma o weithgareddau yn Llandysul a Phont-tyweli.

Cynhaliwyd y sesiwn yn y Porth a'i chyflwyno'n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, gan adlewyrchu cymeriad ieithyddol a diwylliannol yr ardal leol. Cynhaliwyd y digwyddiad ar 17 Ebrill am 7pm. Anogwyd y cyfranogwyr i gyfrannu yn eu dewis iaith, ac roedd yr holl holiaduron ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Cefnogwyd y digwyddiad gan Ceri Mathews a Julie Murphy, a wahoddwyd i gymryd rhan am eu bod ill dau yn adnabyddus ac yn uchel eu parch yn y gymuned leol. Mae eu cerddoriaeth yn adlewyrchu traddodiadau diwylliannol cyfoethog yr ardal ac felly roedd yn arbennig o berthnasol i'r drafodaeth ar ddiwylliant a pherfformio'n lleol. Helpodd eu perfformiadau i greu awyrgylch cynnes a chroesawgar, gan hybu trafodaeth a galluogi pobl i rannu eu profiadau, eu syniadau a'u pryderon wrth lenwi'r holiaduron.

Cynlluniwyd y digwyddiad i fod yn anffurfiol a hamddenol fel bod pobl yn teimlo'n gyfforddus yn siarad yn agored am ddiwylliant, mannau perfformio, a digwyddiadau cymunedol.





Ffigur 16 a Ffigur 17: Mae Llun 1 yn dangos grwpiau o bobl yn eistedd o amgylch bwrdd yn gwrando ar Ceri Mathews a Julie Murphy, gan gynnwys plant ifanc.

4.8 Brecwast Busnes Mawr – dull grŵp ffocws

Trefnwyd y Brecwast Busnes Mawr mewn partneriaeth ag Antur Cymru, a fu'n gydweithwyr rhagorol drwy gydol y broses. Rhoeson nhw gefnogaeth i'r digwyddiad trwy ddylunio deunyddiau hyrwyddo, rhannu gwybodaeth ar draws eu sianeli yn y cyfryngau cymdeithasol, a rheoli'r digwyddiad trwy system archebu tocynnau i helpu i fonitro'r presenoldeb a'r ymgysylltu. Cynhaliwyd y digwyddiad ar 22 Ebrill a dechreuodd am 8.30 am.

Cafodd y digwyddiad ei hybu trwy gyfrwng ein rhwydweithiau ein hunain, ac fe wnes i hefyd gysylltu â busnesau unigol trwy'r ebost i'w hannog i gymryd rhan a sicrhau nad oedd unrhyw fusnesau neu sefydliadau yn cael eu hanwybyddu'n anfwriadol. Daeth ystod eang o fusnesau lleol, gan gynnwys Caffi a Siop Ffab, Paddlers, Brodwaith Teifi, a Highway Garage, ochr yn ochr â nifer o fasnachwyr lleol a pherchnogion busnes eraill o bob rhan o'r ardal. Helpodd hyn i sicrhau bod y trafod yn adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau'r gymuned fusnes leol.

Nod y digwyddiad oedd creu man anffurfiol a chroesawgar lle gallai pobl gymryd rhan dros frecwast am ddim a hefyd glywed cymorth a chyngor ymarferol i fusnesau lleol. Dewisodd Antur Cymru y siaradwyr gwadd, Barry Morgan a Meirion Jones, gan eu bod yn teimlo y byddai eu profiad a'u harbenigedd nhw yn rhoi mewnwelediadau gwerthfawr i'r ystod amrywiol o fusnesau oedd yn bresennol.

Siaradodd Barry Morgan am ddatblygu busnes a phwysigrwydd rheoli llif arian yn effeithiol, gan annog y rhai oedd yn bresennol i fyfyrio ar y cwestiwn, "Beth yw'r darn gorau o gyngor busnes rydych chi wedi'i gael erioed?" Sbardunodd ei gyflwyniad drafodaeth ymhlith y cyfranogwyr a'u hysgogi i rannu eu profiadau a'r gwersi roedden nhw eu hunain wedi'u dysgu. Canolbwyntiodd Meirion Jones ar faterion ariannol, gan gynnig cyngor ac arweiniad ymarferol sy'n berthnasol i berchnogion busnesau ac entrepreneuriaid lleol.

Cafodd y brecwast ei baratoi a'i weini gan staff y Porth, gan helpu i greu awyrgylch croesawgar a hamddenol. Cyflwynwyd y sesiwn yn Saesneg yn bennaf, gyda'r Gymraeg yn cael ei defnyddio lle roedd yn briodol, gan adlewyrchu natur ddwyieithog y gymuned leol. Wrth i'r brecwast gael ei weini, dosbarthodd aelodau o'n tîm holiaduron, gan ofyn yn unigol a oedd yn well gan y cyfranogwyr gael fersiwn Cymraeg ynteu Saesneg a chymryd amser i esbonio nodau'r prosiect. Roedd yr holl holiaduron a'r deunyddiau ategol ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Helpodd y dull yma i hybu cyfranogiad, sicrhau bod y rhai oedd yn bresennol yn gallu cymryd rhan yn eu dewis iaith, a'u helpu i ddeall sut y byddai eu barn a'u profiadau yn cyfrannu at y prosiect adfywio ehangach.





Ffigur 18 a Ffigur 19: Llun yn dangos grwpiau o bobl yn eistedd yn y Porth yn bwyta brecwast, tra bo llun arall yn dangos pobl yn gwrando ar Meirion Jones yn siarad.

4.9 Sesiwn Clwb Ieuenctid yn gwrando ar leisiau pobl ifanc – dull grŵp ffocws

Cynlluniwyd y digwyddiad yma yn wreiddiol ar gyfer Euros Lewis i hwyluso sesiwn gemau theatr gyda phobl ifanc leol, gan ddefnyddio gweithgareddau creadigol i archwilio pwysigrwydd cwestiynau ac atebion wrth lunio trafodaethau ynghylch y cwestiynau ymchwil roedden ni wedi'u datblygu'n unswydd i'r grŵp oedran yma. Yn anffodus, oherwydd amgylchiadau annisgwyl, methodd Euros â bod yn bresennol ar fyr rybudd a threfnodd yn garedig fod Lowri Sion yn hwyluso'r sesiwn yn ei le. Cynhaliwyd y digwyddiad ar 30 Ebrill am 6pm.
Cynhaliwyd y sesiwn yn Saesneg ac addasodd Lowri y dull a gynlluniwyd yn weithgaredd creadigol mwy agored, gan ddefnyddio tair dalen fawr o bapur ar y llawr i gynrychioli gorffennol, presennol a dyfodol Llandysul. Gwahoddwyd y bobl ifanc i ysgrifennu, darlunio a rhannu syniadau ym mha ffordd bynnag oedd yn teimlo'n gyfforddus. Daeth yn amlwg yn gyflym fod angen i'r sesiwn ddatblygu'n naturiol o amgylch lleoliad y clwb ieuenctid yn hytrach na dilyn strwythur anhyblyg. Darparwyd bwyd a lluniaeth i helpu i greu awyrgylch croesawgar. Roedd natur anffurfiol y clwb ieuenctid yn golygu nad oedd dull strwythuredig yn addas. Roedd yn bwysig cadw'r gofod yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfarwydd, felly fe addaswyd ein hymagwedd at sut roedd pobl ifanc eisoes yn defnyddio'r amgylchedd yn hytrach na disgwyl iddyn nhw ffitio o gwmpas y prosiect.
Roedd Lleucu hefyd yn bresennol i gefnogi gweithgareddau ffilmio a, gyda'n gilydd fel hwyluswyr, gwnaethom benderfyniad ymwybodol i ganiatáu i'r bobl ifanc fynd ati ar eu telerau eu hunain. Yn hytrach na gofyn i'r cyfranogwyr ddod aton ni mewn ffordd strwythuredig, fe aethoni ni at unigolion a grwpiau bach yn raddol, gan ddangos bod cyfranogiad yn ddewisol ac yn hyblyg. Gallai'r bobl ifanc ddewis a oedden nhw am gael eu ffilmio, tynnu lluniau, sgwrsio'n anffurfiol, neu arsylwi cyn ymuno.
Un wers bwysig o'r sesiwn yma oedd nad oedd yr holiaduron roeddwn i wedi'u paratoi yn addas ar gyfer y lleoliad yma. Yn ymarferol, roedden nhw'n teimlo'n rhy ffurfiol i amgylchedd y clwb ieuenctid. Roedd hyn yn tynnu sylw at yr angen i barhau i fod yn hyblyg ac addasu dulliau ymgysylltu ar gyfer gwahanol grwpiau, yn enwedig wrth weithio gyda phobl ifanc mewn lleoliadau anffurfiol.





Ffigur 20 a Ffigur 21: Mae Llun 1 yn dangos Lowri Sion yn eistedd ar y llawr yn gosod papur ar gyfer y digwyddiad. Mae llun 2 yn dangos y murlun yn y clwb ieuenctid, gyda geiriau wedi'u tynnu mewn arddull graffiti.

4.10 Hanes a chenedlaethau Glascoed – dull grŵp ffocws

Cynhaliwyd y sesiwn yma yn Glascoed, sef cyfleuster byw gyda chymorth sy'n darparu llety a chymorth i breswylwyr ag ystod o anghenion. Cynhaliwyd y digwyddiad ar 11 Mai am 1pm. Gwahoddais Owain Llŷr, gwneuthurwr ffilmiau ac awdur lleol y mae ei waith yn archwilio hanes lleol a straeon cymunedol. Daeth Owain â llyfrau, DVDs, ffotograffau, a deunyddiau hanesyddol eraill, a helpodd i sbarduno sgwrs a myfyrdod. Cyflwynwyd y sesiwn yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, gan ganiatáu i'r cyfranogwyr ymgysylltu a chyfrannu yn eu dewis iaith. Ar gyfer y sesiwn yma, defnyddiais y ffurflenni arolwg, gan eu bod yn teimlo'n llai ymwthiol ac yn fwy addas i'r grŵp.

Cynhyrchodd y sesiwn lawer o sgwrsio ac ymgysylltu; ond roedd rhai heriau. Oherwydd natur y lleoliad, doedd pob cyfranogwr ddim yn dod yn wreiddiol o Landysul, er bod llawer yn byw yn yr ardal ar y pryd. At hynny, doedd rhai o'r cyfranogwyr ddim yn gallu neu'n anfodlon lenwi holiaduron oherwydd anawsterau dysgu, heriau llythrennedd, neu am eu bod yn teimlo'n anghyfforddus gyda'r fformat. Fe wnaethom gynnig cymorth lle roedd hynny'n briodol, gan gynnwys cymorth yn Gymraeg a Saesneg, ond roedd yn bwysig parchu dewisiadau a lefelau cysur y cyfranogwyr.

Er bod y sesiwn wedi cynhyrchu llai o holiaduron wedi'u llenwi na'r disgwyl, fe greodd gyfle gwerthfawr i'r cyfranogwyr fyfyrio ar y gorffennol, rhannu atgofion, ac ymgysylltu'n gymdeithasol. Dangosodd hefyd werth gweithgareddau anffurfiol wedi'u seilio ar hanes ac amlygodd y mathau o gyfleoedd ymgysylltu â'r gymuned y gellid eu datblygu ymhellach yn y dyfodol.

I ategu'r gwaith yma, fe wnaethon ni drefnu ail sesiwn gysylltiedig yn Ysgol Bro Teifi, gan greu digwyddiad cyfatebol a ddaeth â lleisiau a safbwyntiau iau i mewn i sgyrsiau am hanes lleol a dyfodol y dref.





Ffigur 22 a Ffigur 23: Mae Delwedd 1 yn dangos pobl yn eistedd mewn cadeiriau yng Nglascoed. Mae llun 2 yn dangos dwy fenyw yn eistedd mewn cadeiriau yn siarad ag Owain Llŷr, gwneuthurwr ffilmiau lleol.

4.11 Ieuenctid – Ysgol Bro Teifi – dull grŵp ffocws

Ar gyfer y sesiwn yma, gwahoddwyd aelodau o'r gymdeithas hanes leol, Lesley Parker a Jane Kerr, yr awdur a'r gwneuthurwr ffilmiau lleol Owain Llŷr, a chysylltwyd ag Ysgol Bro Teifi i ofyn a allai 12 o fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn TGAU Hanes gymryd rhan. Y nod oedd creu profiad dysgu rhwng cenedlaethau lle gallai'r bobl ifanc ymwneud yn uniongyrchol â chenedlaethau hŷn ac ystyried hanes lleol trwy sgwrsio ac adrodd straeon. Cynhaliwyd y digwyddiad yma ar 14 Mai rhwng 1pm a 3pm.

I baratoi'r myfyrwyr, fe lunies i sgriptiau cyfweliad cyn y digwyddiad, gan roi arweiniad ar sut i ofyn cwestiynau yn glir ac yn sensitif, gan eu hannog i siarad yn araf, oedi rhwng cwestiynau, a rhoi digon o amser i'r cyfranogwyr brosesu ac ymateb. Bwriad hyn oedd helpu i greu sgyrsiau mwy hygyrch ac ystyrlon.

Cynhaliwyd y sesiwn yn Gymraeg yn bennaf, gyda rhywfaint o Saesneg yn cael ei defnyddio lle roedd yn briodol i sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan yn gyfforddus. Roedd hyn yn adlewyrchu cymeriad ieithyddol y gymuned leol ac yn caniatáu i'r cyfranogwyr gymryd rhan yn eu dewis iaith.

Gofynnais i Owain Llŷr, gwneuthurwr ffilmiau ac awdur lleol, siarad â'r plant am dechnegau ffilmio a bod wrth law i roi unrhyw help roedd arnyn nhw ei angen. Yn ystod y digwyddiad, defnyddiwyd camerâu GoPro a ffonau symudol i recordio cyfweliadau, gyda'r myfyrwyr yn cymryd rhan weithredol wrth siarad â'r cyfranogwyr a recordio straeon a myfyrdodau. Gwahoddwyd trigolion hŷn ac aelodau o'r gymuned yn benodol ar gyfer y sesiwn, a dosbarthwyd gwahoddiadau'n eang trwy rwydweithiau lleol, codi posteri o amgylch y pentref, a thrwy ofyn i gysylltiadau lleol rannu gwybodaeth gyda rhieni, perthnasau ac aelodau hŷn o'r teulu.

Cyn y digwyddiad, rhoddwyd gwybod i'r cyfranogwyr am y broses ffilmio a rhoi sicrwydd eu bod yn cael cyfrannu ar sail hyblyg. Cynigiwyd holiaduron i'r rhai nad oedden nhw am gael eu ffilmio, gyda chymorth ar gael i'w helpu i'w llenwi os oedd ei angen. Nod y dull hyblyg yma oedd gwneud cyfranogiad yn hwylus a sicrhau bod pobl yn gallu cyfrannu yn y ffordd oedd yn teimlo'n fwyaf cyfforddus iddyn nhw.

Gan fod y digwyddiad yn anarferol o ran fformat, roedd yn anodd rhag-weld sut yn union y byddai'n gweithio ar y diwrnod. Wrth edrych yn ôl, gallai system docynnau fod wedi ein helpu i bwyso a mesur y niferoedd ymlaen llaw. Er hynny, bu'r digwyddiad yn llwyddiannus. Siaradais innau hefyd yn bersonol â rhai pobl yn Llandysul a'u gwahodd nhw yno, a bu hynny'n effeithiol iawn. Roedden ni'n rhag-weld y bydden ni'n rhedeg pedwar grŵp gyda thri myfyriwr ym mhob un, ond roedd hyn yn amrywio ychydig ar y diwrnod. Yn y diwedd, roedd gennyn ni ddeg myfyriwr a gafodd eu rhannu'n ddau grŵp o dri ac un grŵp o bedwar. Llifodd y cyfweliadau'n naturiol, a deliodd y myfyrwyr â'r broes yn llyfn ac yn broffesiynol iawn, gan hyd yn oed ychwanegu eu cwestiynau ychwanegol eu hunain. Yna daeth y sesiwn i ben er mwyn osgoi rhoi pwysau diangen ar y cyfranogwyr.
Bu aelodau'r Gymdeithas Hanes hefyd yn siarad â'r plant am hanes lleol a dangos eitemau iddyn nhw gan gynnwys hen wisgoedd ysgol a phêl fagnel a ganfuwyd ger Pont Llandysul. I orffen, rhannodd Owain Llŷr hefyd rywfaint o'i brofiad o wneud ffilmiau a rhoddodd DVD i bob myfyriwr fel cydnabyddiaeth ac anogaeth i barhau i archwilio hanes lleol.

Yn ogystal â gofyn i'r ysgol gymryd rhan yn y digwyddiad yma, gofynnais hefyd iddyn nhw ychwanegu cod QR yr arolwg at eu rhestr bostio ar gyfer rhieni ac annog y myfyrwyr i lenwi'r holiaduron. Dywedais hefyd hyd yn oed os nad oedd rhai o'r myfyrwyr yn byw yn Llandysul a

Phont-tyweli, eu bod yn debygol o fyw gerllaw neu'n defnyddio'r ardal yn gyson ac felly y byddai ganddyn nhw sylwadau gwerthfawr o hyd am y gwasanaethau lleol.









Ffigur 24: Mae Llun 1 yn dangos grŵp o blant ysgol yn cyf-weld â dwy fenyw.
Ffigur 25: Mae Llun 2 yn dangos Jane Kerr o'r Gymdeithas Hanes yn siarad â grŵp o blant a chyfranogwyr.
Ffigur 26: Mae Llun 3 yn dangos Owain Llŷr, gwneuthurwr ffilmiau lleol, yn siarad â grŵp o blant a chyfranogwyr.
Ffigur 27: Mae Llun 4 yn dangos un o'r sesiynau podlediad yn digwydd rhwng grŵp o blant a thri chyfranogwr benywaidd.

4.12 Dulliau'r arolygon

4.12.1 Arolwg Ymgysylltu Ar-lein

Er ein bod wedi gobeithio gweithio gyda Delineate yn wreiddiol ar ymgysylltu digidol a chasglu data, roedd yr amserlenni'n golygu bod angen rhoi trefniadau ymarferol ar waith yn gyflym cyn y sesiynau grŵp ffocws cyntaf. O ganlyniad, datblygodd fy nghydweithiwr Alex gyfres o holiaduron ar-lein drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chreu codau QR i ganiatáu mynediad hawdd i'r arolygon.

I helpu pobl i gymryd rhan, crëwyd tudalen Facebook ar gyfer Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen, lle roedd yr arolygon yn cael eu hyrwyddo a'u rhannu'n rheolaidd. Dosbarthwyd dolenni'r arolwg hefyd trwy'r ebost i unigolion oedd wedi dod i sesiynau ymgysylltu blaenorol, yn ogystal â'r rhai oedd wedi mynegi diddordeb yn y prosiect ond yn methu dod i ddigwyddiadau'n bersonol. Defnyddiwyd y dull yma trwy gydol y broses ymgynghori, ac eithrio'r Clwb Ieuenctid a'r sesiynau ymgysylltu ag ysgolion, oedd yn defnyddio dulliau amgen oedd yn fwy addas i'w cyfranogwyr.

4.12.2 Arolwg Ymgysylltu Personol

Ochr yn ochr â'r arolygon ar-lein, datblygwyd holiadur â phum cwestiwn cyffredinol a gynlluniwyd i archwilio'r themâu allweddol a fyddai'n cael eu harchwilio yn fanylach yn nes ymlaen trwy grwpiau ffocws. Roedd copïau printiedig ar gael mewn mannau cymunedol hygyrch, gan gynnwys y llyfrgell, Canolfan Hamdden Calon Tysul a'r feddygfa leol.

Cafodd posteri oedd yn cynnwys codau QR yn cysylltu'n uniongyrchol â'r arolwg ar-lein eu codi ledled y gymuned a'u hybu drwy Facebook a gwefan Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen. Cafodd staff ym mhob lleoliad eu briffio am y prosiect a gofynnwyd iddyn nhw annog ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaethau i gymryd rhan lle roedd hynny'n briodol.

Defnyddiwyd yr arolwg cyffredinol hefyd yn nigwyddiad Glascoed. Gan fod Glascoed yn lleoliad gofal integredig, roedd yn anodd rhag-weld y cymysgedd o bobl a fyddai'n bresennol a phenderfynu pa gwestiynau grŵp ffocws penodol fyddai'n fwyaf priodol. Yn ychwanegol, datblygodd fformat a chynllun y digwyddiad yn sylweddol yn ystod y cyfnod paratoi. Am y rhesymau yma, roedd yr arolwg cyffredinol yn ffordd hyblyg a chynhwysol o gasglu adborth gan y cyfranogwyr.

I gynyddu'r cyfranogiad ymhellach, aeth Alex a minnau i sawl lleoliad a digwyddiad cymunedol. Treuliwyd amser yn Calon Tysul cyn ac ar ôl rhai o'i sesiynau prysuraf, yn cyflwyno'n hunain, yn esbonio'r prosiect ac yn annog pobl i lenwi holiaduron. Roedd y dull anffurfiol yma yn ein helpu i ymgysylltu ag unigolion na fydden nhw wedi cymryd rhan fel arall o bosibl a hefyd yn gyfle i hybu digwyddiadau oedd ar y gweill.

Gan ein bod yn bryderus na fyddai'r arolwg o bosibl yn cyrraedd trawstoriad mor eang o'r gymuned ag y bwriadwyd, fe aethon ni hefyd i'r Ganolfan Deuluol ac ymgysylltu'n uniongyrchol â rhieni a gofalwyr. Buon ni'n esbonio'r prosiect, yn ateb cwestiynau ac yn gwahodd pobl i lenwi holiadur os oedden nhw'n dymuno. Peth cwbl wirfoddol oedd cymryd rhan, ac anogwyd unigolion i adael unrhyw gwestiynau heb eu hateb os nad oedden nhw'n teimlo eu bod yn berthnasol iddyn nhw.

Cynhaliwyd ymgysylltiad ychwanegol yn nigwyddiad Cysylltu Sir Gâr gan NACRO yn Neuadd Tysul, lle dosbarthwyd arolygon ac y cynhaliwyd trafodaethau gydag aelodau o'r gymuned. Gyda'i gilydd, helpodd y dulliau yma i ehangu'r cyfranogiad, lleihau rhwystrau i ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth o'r prosiect ar draws y gymuned.

4.13 Cofnodi a Dadansoddi Data

Ar ôl pob gweithgaredd ymgysylltu, cofnodwyd ymatebion y cyfranogwyr o dan bob cwestiwn yn yr arolwg i ganiatáu eu cyfieithu, eu trefnu a'u dadansoddi. Gweithiodd y dull yma yn effeithiol ar gyfer grwpiau bach. Er hynny, ar ôl ychwanegu ymatebion Ysgol Bro Teifi a setiau data ehangach eraill, daeth yn amlwg bod taenlenni'n ffordd fwy effeithlon o drefnu a rheoli'r wybodaeth.

Yn ystod y cam dadansoddi, roedd ymatebion pob grŵp ffocws yn cael eu cadw ar wahân i ddechrau er mwyn adlewyrchu eu gwahanol themâu, profiadau a chyd-destunau. Roedd y dadansoddi cychwynnol yn cynnwys adolygu'r data â llaw, nodi themâu ailadroddus a defnyddio diagramau corryn i fapio perthnasoedd a chysylltiadau rhwng syniadau cyn eu grwpio'n themâu ehangach.

Wrth i'r prosiect fynd rhagddo, cyfarfûm â James Stewart o Delineate, a roddodd gyngor ac awgrymiadau ymarferol ar ddulliau dadansoddi data. Fe wnaeth hyn fy helpu i weld bod Cwestiynau 1-5 yn gyson ar draws pob grŵp ffocws a'r arolwg cyffredinol. Trwy ddod â'r ymatebion yma at ei gilydd mewn un daenlen, roeddwn i'n gallu croes-ddadansoddi'r data a nodi patrymau a themâu ar draws gwahanol grwpiau o gyfranogwyr. Sylweddolais wedyn y gellid cymhwyso'r un dull hefyd at y cwestiynau terfynol lle roedd y rhain yn gyson rhwng y grwpiau.

Mae'r dull yma o gydgrynhoi data wedi gwella'r broses ddadansoddi gryn dipyn, gan ganiatáu i gymariaethau gael eu gwneud ar draws dulliau ymgysylltu a mathau o gyfranogwyr tra'n dal i gadw'r gallu i archwilio grwpiau unigol ar wahân lle bo'n briodol. Roedd y dull yma yn adlewyrchu canllawiau cynharach gan fy nhiwtor cymorth ym Mhrifysgol Aberystwyth, Wyn Morris, oedd wedi awgrymu o'r cychwyn cyntaf y byddai strwythuro'r data fel hyn yn gwneud y dadansoddiad yn fwy hydrin a chadarn.

Pan oedd ymatebion mewn llawysgrifen yn aneglur, ymgynghorwyd â chydweithwyr i sicrhau bod y deongliadau mor gywir â phosibl. Trosglwyddwyd y data wedyn i daenlenni strwythuredig, gan ganiatáu cymariaethau ar draws grwpiau a helpu i nodi themâu a phatrymau ailadroddus oedd yn dod i'r amlwg o'r gwahanol ddulliau ymgysylltu.

4.13.1 Ystyriaethau Moesegol

Roedd ystyriaethau moesegol yn ganolog trwy'r prosiect i gyd. Rhoddwyd gwybod i'r cyfranogwyr am bwrpas yr ymchwil, sut y câi eu gwybodaeth ei defnyddio a'i storio, ac mai mater cwbl wirfoddol oedd cymryd rhan. Roedd unigolion yn rhydd i wrthod cymryd rhan neu ddewis peidio ag ateb cwestiynau penodol.

Cymerwyd gofal wrth ymgysylltu â phobl iau a grwpiau rhwng cenedlaethau i sicrhau bod y dulliau'n briodol, yn barchus a heb fod yn ymwthiol. Er enghraifft, wrth weithio gyda'r Clwb Ffermwyr Ifanc, lle roedd y cyfranogwyr yn cynnwys unigolion o dan 18 oed, dosbarthwyd taflenni gwybodaeth a ffurflenni cydsynio i rieni a gwarcheidwaid ymlaen llaw trwy'r ebost a neges destun. Roedd hyn yn sicrhau tryloywder ynghylch pwrpas y prosiect a sut y byddai unrhyw wybodaeth a gesglid yn cael ei rheoli.

Cafodd yr holl ymatebion eu hanonymeiddio cyn eu dadansoddi, ac does dim enwau cyfranogwyr yn cael eu defnyddio yn y canfyddiadau. Cymerwyd gofal i storio'r holiaduron wedi'u llenwi yn ddiogel ac i ddefnyddio'r wybodaeth at ddibenion yr ymchwil yma yn unig. Roedd deunyddiau ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a chynigiwyd cymorth lle roedd ei angen er mwyn i'r gyfranogwyr gymryd rhan yn yr iaith a'r fformat mwyaf cyfforddus iddyn nhw. Rhoddwyd sylw i wneud yr ymgysylltu'n gynhwysol ac yn barchus i bobl ifanc, trigolion hŷn a chyfranogwyr a allai fod angen cymorth ychwanegol.

4.14 Cyfyngiadau

Roedd sawl cyfyngiad ymarferol yn effeithio ar sut y cyflawnwyd yr ymchwil. Y cynllun gwreiddiol oedd cynnal wyth grŵp ffocws wedi'u hwyluso, ond bu'n rhaid i'r amserlen newid i gyd-fynd ag argaeledd pobl a'r gyllideb gyffredinol.
Trefnwyd rhai sesiynau o fewn amserlenni cymharol fyr, oedd yn golygu bod lefelau presenoldeb weithiau'n ansicr. Ar gyfer y sesiwn rhwng cenedlaethau yn Ysgol Bro Teifi, roedd fformat y digwyddiad yn anarferol ac roedd yn anodd rhag-weld sut yn union y byddai'n gweithio ar y diwrnod. Wrth edrych yn ôl, gallai system docynnau fod wedi helpu i bwyso a mesur y niferoedd ymlaen llaw.

Bu'n rhaid addasu dulliau ymgysylltu hefyd ar gyfer gwahanol leoliadau. Doedd yr holiaduron a baratowyd ar gyfer y clwb ieuenctid ddim yn addas ar gyfer yr amgylchedd anffurfiol hwnnw ac yn teimlo'n rhy ffurfiol yn ymarferol. Tynnodd hyn sylw at yr angen i barhau i fod yn hyblyg ac addasu dulliau ar gyfer gwahanol grwpiau, yn enwedig wrth weithio gyda phobl ifanc mewn lleoliadau anffurfiol.

Ni allai'r ymchwil gyrraedd pob unigolyn, sefydliad neu fan ffydd yn yr ardal. Er bod y sesiynau ffydd wedi'u rhannu ar draws dau leoliad i ymgysylltu â chynifer o gynulleidfaoedd ac aelodau o'r gymuned â phosibl, ni ellid cynnwys pob man ffydd unigol.
Roedd yna rwystrau o ran mynediad a chyfranogiad mewn rhai lleoliadau hefyd. Yn Glascoed, doedd pob cyfranogwr ddim yn dod yn wreiddiol o Landysul, er bod llawer yn byw yn yr ardal ar y pryd. Roedd rhai cyfranogwyr yn methu neu'n anfodlon cwblhau holiaduron oherwydd anawsterau dysgu, heriau llythrennedd neu a, eu bod yn teimlo'n anghyfforddus gyda'r fformat. Er bod cymorth yn cael ei gynnig lle roedd hynny'n briodol, roedd yn bwysig parchu dewisiadau a lefelau cysur y cyfranogwyr.
Cafodd y cyfyngiadau yma effaith ar y cyflawni a'r cyfranogi, ond rhoeson nhw hefyd wersi defnyddiol ar sut y gellid cynllunio, hybu ac addasu gweithgareddau ymgynghori yn y dyfodol i weddu i wahanol grwpiau a lleoliadau.

5. Canfyddiadau – y canlyniadau

Cyn trafod y canfyddiadau, mae'n bwysig nodi bod yr holl gyfranogwyr wedi cael eu hanonymeiddio. I sicrhau cyfrinachedd a chaniatáu hefyd i ymatebion gael eu olrhain ar draws y dadansoddiad, rhoddwyd rhifau adnabod dienw i'r cyfranogwyr. Dechreuwyd rhifo gyda Chyfranogwr 1 o fewn y grŵp arolwg gan barhau mewn dilyniant ar draws pob grŵp ffocws dilynol. Defnyddir y rhifau cyfranogwr dienw yma trwy'r adroddiad yma i gyd wrth gyfeirio at ymatebion a dyfyniadau unigol.

Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd y cyfranogwyr ar gyfer yr arolwg a phob grŵp ffocws.
Tabl 5.1: Niferoedd cyfranogwyr yr arolwg a phob grŵp ffocws

Sesiwn	Nifer y bobl a fu'n bresennol yn y sesiwn	Nifer yr holiaduron a lenwyd yn Saesneg	Nifer yr holiaduron a lenwyd yn Gymraeg	Nifer a lenwyd ar-lein
Arolwg (cyfanswm)	**D/G**	**34**	**2**	**10**
Gwytnwch Bwyd		**12**	**1**	
Ynni Sir Gâr	**20**	**4**	**3**	**1**
Cerddoriaeth a Pherfformio	**17**	**11**	**4**	**0**
Busnes	**32**	**23**	**4**	**1**
Y Ffynnon (crefydd)	**15**	**7**	**8**	**0**
Eglwys Tysul (crefydd)	**13**	**1**	**9**	**0**
Ieuenctid (Ysgol)	**159**	**0**	**159**	**0**
Clwb Ffermwyr Ifanc (ieuenctid)	**10**	**5**	**5**	**0**

5.1 Grwpiau Cyfranogwyr ac Ystodau Oedran (bras)

Tabl 5.2: Grwpiau cyfranogwyr ac ystodau oedran (bras)

Enw'r Grŵp	Ystod Oedran
Arolwg	**16 +**
Gwytnwch Bwyd	**30 +**
Ynni Sir Gâr	**30 +**
Mannau Cerddoriaeth/ Adloniant	**8 +**
Busnes	**18+**
Y Ffynnon – Grŵp Crefydd 1	**16 +**
Tysul – Grŵp Crefydd 2	**30 +**
leuenctid – Ysgol	**10 +**
Sesiwn Podlediad Ysgol	**50 +**
Clwb Ffermwyr Ifanc	**16 +**

5.2 Dadansoddiad Thematig o bob grŵp ffocws unigol

5.2.1 Yr Ardd – Dadansoddiad thematig Gwytnwch Bwyd

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r grŵp ffocws Gwytnwch Bwyd. Mae'n dangos pa mor aml y cafodd pob thema ei hadlewyrchu yn ymatebion y cyfranogwyr, yn esbonio ystyr pob thema, ac yn cynnwys dyfyniadau ategol i ddangos sut y mynegwyd y materion yma gan y cyfranogwyr yn eu geiriau eu hunain.

Tabl 5.3: Themâu allweddol o'r Grŵp Ffocws Gwytnwch Bwyd

Thema	Nifer y cyfranogwyr yn ymwneud â'r thema yma	Disgrifiad o'r Thema	Dyfyniadau Ategol
Tyfu Bwyd a Chynhyrchu Bwyd Lleol	**13**	Mynegodd y cyfranogwyr awydd cryf am fwy o gyfleoedd i dyfu bwyd, mannau tyfu cymunedol, rhandiroedd, ehangu'r Ardd, mwy o gynhyrchu bwyd lleol a chyfleoedd i drosglwyddo sgiliau tyfu i genedlaethau'r dyfodol.	Dienw 45: 'Hybu rhagor o randai.' Dienw 44: 'Cynhyrchu bwyd ar raddfa fwy.' Dienw 37: 'Anogwch y plant o'n hysgol leol i ddysgu am dyfu.'

Gwerthiannau a Marchnadoedd Bwyd Lleol	**8**	Roedd y cyfranogwyr am weld economïau bwyd lleol cryfach, gan gynnwys marchnadoedd ffermwyr, siopau cynnyrch lleol, mannau gwerthu, siopau ffrwythau a llysiau a gwell cymorth i gynhyrchwyr lleol.	Dienw 46: ‘Angen lle gwerthu.’ Dienw 48: ‘Siop ffrwythau/llysiau er enghraifft.’ Dienw 43: ‘Marchnad Ffermwyr, Pick Your Own...’
Gwell Trafnidiaeth a Mynediad	**7**	Daeth trafnidiaeth i’r amlwg fel rhwystr sylweddol. Tynnodd y cyfranogwyr sylw at yr angen am well trafnidiaeth gyhoeddus, mwy o wasanaethau bysiau, gwell cysylltiadau â threfi mwy a mynediad haws i siopau, gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol.	Dienw 40: ‘Trafnidiaeth gyhoeddus.’ Dienw 43: ‘Gwella trafnidiaeth gyhoeddus wledig, gan gysylltu Llandysul â threfi mwy.’ Dienw 44: ‘Gwell trafnidiaeth gyhoeddus, dim buddsoddi mewn trafnidiaeth leol.’
Cyllid a Chymorth Hirdymor	**7**	Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod na all prosiectau ddibynnu ar ymdrech gwirfoddolwyr yn unig gan amlygu’r angen am gyllid, cymorth grant, cydlynwyr cyflogedig, staff cyflogedig a chynaliadwyedd hirdymor.	Dienw 44: ‘Cynaliadwy yn ariannol, methu dibynnu ar ewyllys da gwirfoddolwyr yn unig.’ Dienw 41: ‘Gyda rhai staff a chydlynydd cyflogedig.’ Dienw 38: ‘Angen codi arian/gwneud cais am grantiau.’
Pobl Ifanc ac Ysgolion	**6**	Roedd pryder ynglŷn â chynnwys y cenedlaethau iau, creu cyfleoedd i bobl ifanc a sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth leol yn cael eu trosglwyddo.	Dienw 44: ‘Angen cael y genhedlaeth iau i gymryd rhan.’ Dienw 44: ‘Pobl iau yn symud i ffwrdd dim swyddi.’ Dienw 37: ‘Anogwch y plant o’n hysgol leol i ddysgu am dyfu.’
Hyb Cymunedol / Man Canolog	**5**	Awgrymodd y cyfranogwyr greu hyb cymunedol gweladwy a allai fod yn ffocws ar gyfer prosiectau bwyd, dysgu, gweithgarwch cymdeithasol,	Dienw 41: ‘Hyb cymunedol mewn man canolog iawn.’ Dienw 40: ‘Angen rhywle canolog lle gall pobl weithio gyda’i gilydd.’ Dienw 44: ‘Rhywle canolog, hyb,

		gwasanaethau trwsio ac ymgysylltu â'r gymuned.	ar gyfer bwyd, siop drwsio, sgiliau fel y gallwn ni rannu sgiliau, llyfrgell o bethau a siop ail-lenwi.'
Rhannu Sgiliau a Dysgu	**5**	Roedd ar y cyfranogwyr eisiau mwy o gyfleoedd i ddysgu a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys sgiliau tyfu, cadw bwyd, coginio, hyfforddiant a dysgu rhwng cenedlaethau.	Dienw 38: 'Dysgu sgiliau i bobl a throsglwyddo gwybodaeth sy'n cael ei cholli.' Dienw 46: 'Mae angen gweithlu wedi'i hyfforddi sydd â'r sgiliau.'

5.2.2 Gwytnwch bwyd – diagram corryn

Mae'r diagram corryn isod yn rhoi crynodeb gweledol o'r prif themâu a nodwyd yn y grŵp ffocws Gwytnwch Bwyd. Mae'n dangos pa faterion a adlewyrchwyd fwyaf yn ymatebion y cyfranogwyr, gyda thyfu bwyd a chynhyrchu lleol yn dod i'r amlwg fel y thema gryfaf, ochr yn ochr â chysylltiadau pwysig â gwerthu bwyd lleol, trafnidiaeth, cyllid, pobl ifanc, mannau cymunedol a rhannu sgiliau.



Ffigur 18 – diagram corryn gwytnwch bwyd yn dangos themâu allweddol

5.2.3 Clwb ffermwyr ifanc – themâu allweddol

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb byr o'r prif themâu o ymatebion y Clwb Ffermwyr Ifanc, gan gynnwys pa mor aml y cawsant eu crybwyll a dyfyniadau enghreifftiol gan y cyfranogwyr.

Thema Allweddol	Beth ddywedodd y cyfranogwyr	Nifer fras o ymatebwyr	Dyfyniadau enghreifftiol (Rhif dienw)
Mwy o weithgareddau ac adloniant	Y thema gryfaf o bell ffordd. Roedd pobl ifanc yn gyson eisiau mwy o gyfleoedd hamdden gan gynnwys trampolinio, bowlio, cartio, parciau dŵr, arcedau gemau, gwyliau a gweithgareddau lle nad oes angen aelodaeth clwb.	16	"Mwy o bethau i'w gwneud... parc trampolinio, parc dŵr." (204)" Arcêd gemau." (210)" Bowlio... mwy o weithgareddau cymdeithasol i bobl ifanc yn eu harddegau." (219)" Cartio." (220)
Cyfleusterau dan do a phob tywydd	Galw am leoedd all gael eu defnyddio gydol y flwyddyn, yn enwedig gyda'r nos ac yn ystod tywydd gwael.	7	"Gweithgareddau dan do." (209)" Rhywle ar gyfer nosweithiau Ffermwyr Ifanc dan do." (213)" Chwarae meddal... yn agored i oedolion." (209)
Chwaraeon, iechyd a llesiant	Diddordeb mewn ehangu chwaraeon ac ymarfer corff trefnedig trwy Parkrun, pêl-rwyd, Pilates, twrnameintiau pêl-droed, dosbarthiadau campfa a ffitrwydd arbenigol.	9	"Clwb pêl-rwyd." (208) "Park run." (211, 215, 217) "Dosbarthiadau campfa i ddechreuwyr." (214)" Twrnameintiau pêl-droed." (207)
Economi gyda'r nos	Teimlai llawer nad oedd digon o leoedd i fynd gyda'r nos, gyda cheisiadau am fwytai, caffis a mannau cymdeithasol.	9	"Llefydd i fwyta gyda'r nos." (210) "Bariau coctel." (217) "Bwyty... ar gyfer cinio." (215)
Digwyddiadau a gwyliau cymunedol	Roedd pobl eisiau digwyddiadau tymhorol cyson a fyddai'n dod â'r dref at ei gilydd ac yn denu ymwelwyr.	8	"Ffeiriau Gwanwyn, Haf, Hydref a Gaeaf." (208) "Gŵyl haf gyda cherddoriaeth." (216) "Gŵyl fwyd." (213)

Cymorth i fusnesau lleol	Mae'r busnesau annibynnol presennol yn cael eu gwerthfawrogi, ond roedd ar y cyfranogwyr eisiau mwy o ddewis manwerthu a llai o adeiladau gwag.	10	"Mwy o siopau." (214,217) "Llenwch y siopau gwag." (212) "Siopau annibynnol." (213)
Balchder a hunaniaeth gymunedol	Balchder cryf yn ysbryd y gymuned, Calon Tysul, Afon Teifi, cefn gwlad a busnesau lleol fel Ffab.	13	"Ysbryd cymunedol." (206) "Afon a chefn gwlad." (208) "Calon Tysul yn cael ei redeg yn llwyddiannus gan y gymuned." (211) "Caffi Ffab." (214)
Pobl ifanc yn llunio'r dref	Roedd y ymatebwyr am i'r Ffermwyr Ifanc gymryd mwy o ran mewn trefnu gweithgareddau a dylanwadu ar benderfyniadau lleol.	10	"Cynnal gweithgareddau yn y gymuned." (206)" Dylai aelod fod yn rhan o'r cyngor cymuned." (212) "Trefnu digwyddiadau." (209)
Cyllid a chyflenwi	Roedd y bobl ifanc yn cydnabod bod cost, gwirfoddolwyr a chyfranogiad yn rhwystrau ond awgrymwyd codi arian a grantiau.	8	"Mae'n costio lot." (204,205) "Codi arian." (204,205) "Gallen nhw gael grantiau." (212) "Dim digon o bobl yn barod i gyfrannu." (208)
Amgylchedd diogel a deniadol	Eisiau llwybrau cerdded wedi'u cynnal, lleoedd diogel i bobl ifanc a gwelliannau amgylcheddol.	6	"Llwybrau cerdded wedi'u cynnal." (206) "Mannau diogel i bobl ifanc." (206) "Plannu blodau." (205)
Rhesymau dros aros yn lleol	Er bod llawer yn disgwyl byw mewn mannau eraill, roedden nhw eisiau digon o gyfleoedd, swyddi a thai i annog pobl ifanc i aros.	8	"Angen mwy o weithgareddau." (215) "Does dim digon o bethau'n digwydd." (208) "Yn agos at gartre." (206)

5.2.4 Diagram corryn C.Ff.I.

Mae'r diagram corryn isod yn rhoi crynodeb gweledol o'r prif themâu a nodwyd o ymatebion y Clwb Ffermwyr Ifanc. Mae'n dangos bod pobl ifanc yn rhoi pwyslais cryf ar fwy o weithgareddau, cyfleoedd hamdden, chwaraeon a ffitrwydd, digwyddiadau cymunedol, lleoedd i gymdeithasu, a'r asedau lleol y maen nhw'n eu gwerthfawrogi, gan gynnwys Calon Tysul, Afon Teifi a busnesau annibynnol.



Ffigur 29 – yn dangos Diagram Corryn y Ffermwyr Ifanc

5.2.5 Digwyddiad Ynni Sir Gâr yn y Pwerdy – dadansoddiad thematig

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o sesiwn ynni Ynni Sir Gâr. Mae'n dangos y prif faterion a godwyd gan y cyfranogwyr ynghylch ynni dan arweiniad y gymuned, rheolaeth leol, gwytnwch, cyllid, rhwystrau polisi ac ymgysylltu â'r gymuned, a hefyd yn cynnwys sylwadau ategol sy'n adlewyrchu barn y cyfranogwyr yn eu geiriau eu hunain.

Tabl 5.4: Ynni Sir Gâr – Tabl Dadansoddi Thema

Thema	Dehongliad manwl	Ymatebwyr	Tystiolaeth / dyfyniadau
Adfywio canol y dref	Mae'r ymatebydd yn credu bod canol y dref wedi dirywio yn sgil y ffordd osgoi a cholli cyfleusterau bancio. Mae adfywio'r stryd fawr yn cael ei ystyried yn rhan bwysig o greu tref fwy bywiog a chynaliadwy.	1	"Ers y ffordd osgoi, a cholli'r banciau, mae'r stryd fawr yn llawer mwy tawel."
Gwasanaethau hanfodol	Mae parcio fforddiadwy a dychwelyd gwasanaethau allweddol, yn enwedig bancio, yn cael eu hystyried fel gwelliannau ymarferol a fyddai'n annog mwy o bobl i ganol y dref.	1	"Byddai banc yn wych. Parcio rhatach!"
Digwyddiadau cymunedol a diwylliant	Mae'r ymateb yn tynnu sylw at gerddoriaeth a digwyddiadau cymunedol fel ffordd o ddod â phobl at ei gilydd, gwella llesiant a chryfhau hunaniaeth gymunedol.	1	"Rhyw fath o ddigwyddiadau cerddorol... cynulliad cymunedol sy'n adeiladu'r cysylltiadau cymdeithasol."

Gwneud gwell defnydd o asedau naturiol	Mae Afon Teifi yn cael ei nodi fel ased sydd wedi'i danddefnyddio ac a allai gefnogi twristiaeth, hamdden, addysg amgylcheddol ac adfywio.	1	"Mae angen inni ddefnyddio'r afon!"
Ynni a sgiliau adnewyddadwy	Mae'r cyfranogwr yn gweld ynni adnewyddadwy fel cyfle amgylcheddol a llwybr i gyflogaeth leol trwy ddatblygu sgiliau i bobl ifanc.	1	"Hyfforddi cenhedlaeth o weithwyr ifanc yn y sector ynni adnewyddadwy."
Rhwystrau i arloesi	Mae'r ymatebydd yn teimlo bod biwrocratiaeth a rhwystrau sefydliadol yn atal prosiectau gwerthfawr rhag symud ymlaen mor gyflym ag y dylen nhw.	1	"Rhwystrau diangen yn atal prosiectau mawr."
Parodrwydd cymunedol	Mae yna argraff bod y bobl leol yn gyffredinol yn barod i gofleidio mentrau cynaliadwy, er bod cefnogaeth sefydliadol yn cael ei hystyried yn arafach.	1	"Mae pobl yn ymddangos yn agored i'r syniad ond nid y cyngor a'r corfforaethau gymaint."
Optimistiaeth ar gyfer y dyfodol	Er bod sawl her wedi'u nodi, mae'r dôn gyffredinol yn gadarnhaol. Mae'r cyfranogwr yn credu bod gan y dref botensial sylweddol os yw asedau lleol a brwdfrydedd cymunedol yn cael eu harneisio.	1	"Yr awydd am newid a photensial pendant."

5.2.6 Ynni Sir Gâr – diagram corryn

Mae'r diagram corryn isod yn rhoi trosolwg gweledol o'r prif themâu a nodwyd o dabl Ynni Sir Gâr uchod. Mae'n dangos bod ynni dan arweiniad y gymuned, rheolaeth leol ac adeiladu gwytnwch yn flaenoriaethau allweddol, ochr yn ochr â phryderon am rwystrau polisi, cyllid, prosesau penderfynu a'r angen am well ymgysylltu a dysgu cymunedol.



Ffigur 30 *yn dangos diagram Corryn Ynni Sir Gar*

5.2.7 Ymatebion Tysul (Ffydd rhan 1) – dadansoddiad thematig

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o ymatebion grŵp ffydd Tysul. Mae'n dangos y materion a godwyd amlaf gan y cyfranogwyr, gan gynnwys cydweithio ar draws mannau ffydd, diogelu'r iaith a'r diwylliant, cynnwys pobl ifanc, defnyddio adeiladau ffydd fel asedau cymunedol, gwella hygyrchedd, a chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu, cynhwysiant a chysylltiad cymdeithasol.

Tabl 5.5: Dadansoddiad o themâu grŵp ffydd Tysul

Thema	Nifer y bobl yn adlewyrchu'r thema yma	Manylion y Thema	Dyfyniadau Ategol
Cydweithio ar draws eglwysi, capeli a chymunedau	7	Cydweithio rhwng eglwysi, capeli, sefydliadau a thrigolion waeth beth fo'u henwad.	Dienw 116: 'Dylen ni weithio gyda'n gilydd waeth beth fo'n credoau.' Dienw 122: 'Dylai capeli ac eglwysi weithio gyda'i gilydd.' Dienw 120: 'Dylai gwahanol gapeli ac eglwysi weithio gyda'i gilydd i roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc.' Dienw 125: 'Mae cymuned yn cyfri; drwy gydweithio, gall pethau da ddigwydd.' Dienw 118: 'Pwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd lle bo modd.'
Cadw Iaith, Diwylliant a Thraddodiadau Cymru	6	Pryder ynglŷn â dirywiad y Gymraeg, treftadaeth ddiwylliannol ac arferion traddodiadol.	Dienw 116: 'Mae llawer o bobl wedi symud i'r ardal, ac mae'r Gymraeg yn cael ei cholli.' Dienw 120: 'Diolch am allu cadw addysg cyfrwng Cymraeg yn Llandysul a'r cylch.' Dienw 122: 'Mae Calennig wedi diflannu; roedd e'n arfer bod yn gyffredin ond dim mwyach.' Dienw 123: 'Dyw pobl newydd ddim yn ymwybodol o'r hen draddodiadau.' Dienw 124: 'Mae'r ffyrdd

			traddodiadol yn mynd yn llai amlwg ac mae cymdeithas Cymru'n llai cryf.'
Denu a chynnwys pobl iau	6	Angen ennyn diddordeb cenedlaethau iau mewn gweithgareddau, arweinyddiaeth a bywyd cymunedol.	Dienw 123: 'Mae'n anodd cael pobl ifanc i gymryd rhan.' Dienw 125: 'Mae angen pobl iau mewn rolau arwain.' Dienw 123: 'Mae angen gwahanol brosiectau i ddenu pobl ifanc.' Dienw 122: 'Denu pobl ifanc fel y gallan nhw gario ymlaen â gweithgareddau a sefydliadau.'
Adeiladau Ffydd fel Asedau Cymunedol	7	Eglwysi a chapeli'n cael eu gweld fel canolfannau cymunedol sy'n cefnogi diwylliant, llesiant a gweithgarwch cymdeithasol.	Dienw 121: 'Mae capeli ac eglwysi wedi bod yn ganolfannau diwylliannol ers canrifoedd.' Dienw 119: 'Gallai Seion, y Graig a Phenybont gynnal crefydd, perfformiadau, cerddoriaeth, drama a chorau.' Dienw 121: 'Mae gan yr adeiladau organau ardderchog a mannau ymarfer ar gyfer corau.' Dienw 125: 'Dylai adeiladau'r eglwysi a'r capeli fod ar agor ar gyfer gweithgareddau cymunedol ehangach.' Dienw 116: 'Mae yna ddigon o adeiladau gwag ar gael i gynnal gweithgareddau.'
Trafnidiaeth, Parcio a Hygyrchedd	6	Mae trafnidiaeth, costau parcio a mynediad yn rhwystro pobl rhag cyfranogi.	Dienw 121: 'Bu'n rhaid i ni symud yn bennaf oherwydd diffygion yn y gwasanaethau bws.' Dienw 124: 'Gwell trafnidiaeth, parcio haws a rhatach.' Dienw 116: 'Mae parcio yn broblem fawr ac mae ffioedd parcio ceir yn ddrud iawn.' Dienw 117: 'Mae trafnidiaeth yn

			anodd.’ Dienw 121: ‘Byddai gwasanaeth bws lleol ar gyfer digwyddiadau arbennig yn helpu.’
Mwy o weithgareddau, dysgu a chyfleoedd cymdeithasol	6	Angen cyrsiau, darlithoedd, cyngherddau, gwyliau a dysgu anffurfiol.	Dienw 122: ‘Llawer o bethau i’w gwneud a llawer o gyrsiau.’ Dienw 123: ‘Llawer o gyrsiau gwahanol.’ Dienw 124: ‘Cyngherddau, grwpiau trafod a darlithoedd anffurfiol ar hanes, diwylliant neu gerddoriaeth.’ Dienw 121: ‘Trefnu gŵyl leol sy’n defnyddio’r adeiladau.’ Dienw 119: ‘Gallai gŵyl gerddoriaeth ledled y pentref ddenu ymwelwyr.’
Cynhwysiant, Perthyn a Chysylltiad Cymunedol	5	Adeiladu cysylltiadau cymdeithasol, lleihau ynysu a chreu mannau croesawgar.	Dienw 117: ‘Dyw pobl ddim yn cymdeithasu gystal ers COVID-19.’ Dienw 122: ‘Roedd pobl yn arfer ymweld â chartrefi ei gilydd ar gyfer gweithgareddau ac i ddysgu.’ Dienw 125: ‘Mae angen mwy o integreiddio, gwrando a chynhwysiant.’ Dienw 122: ‘Dylai gweithgareddau fod yn agored i bobl o wahanol grefyddau a chefndiroedd.’ Dienw 116: ‘Gweld pawb yn byw gyda’i gilydd yn hapus.’

5.2.8 Grŵp Ffydd Tysul – diagram corryn

Mae'r diagram corryn isod yn rhoi crynodeb gweledol o'r prif themâu a nodwyd o dabl grŵp ffydd Tysul uchod. Mae'n dangos bod cydweithio ar draws mannau ffydd, defnyddio eglwysi a chapeli fel asedau cymunedol, gwarchod y Gymraeg a'i diwylliant, cynnwys pobl ifanc, gwella hygyrchedd, a chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu a chysylltiad cymdeithasol i gyd yn flaenoriaethau pwysig i'r cyfranogwyr.



Mae Ffigur 31 yn dangos Diagram Corryn crefydd Tysul

5.2.9 Y Ffynnon – rhan 2 Mannau ffydd – themâu allweddol

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o sesiwn mannau ffydd y Ffynnon. Mae'n dangos sut roedd y cyfranogwyr yn gweld mannau ffydd fel hybiau cymunedol pwysig, gan dynnu sylw at themâu ynglŷn â pherthyn, cydweithredu, trafnidiaeth, hygyrchedd, cefnogaeth i bobl hŷn ac iau, gwell cyfathrebu, cynaliadwyedd, y Gymraeg, cynhwysiant a chroesawu cymunedau newydd.

Tabl 5.6: Prif themâu mannau ffydd y Ffynnon

Thema	Ystyr y Thema	Dyfyniadau Ategol	Nifer y Cyfranogwyr yn Cyfeirio at y Thema
Cysylltiad Cymunedol, Perthyn a Mynd i'r Afael ag Ynysu	Mae pobl yn gwerthfawrogi mannau sy'n lleihau unigrwydd, yn magu cyfeillgarwch, yn gwella llesiant ac yn creu perthynas.	Dienw 101: 'Dwi wedi dod o hyd i gartref yma.' Dienw 102: 'Ynysu ac iselder.' Dienw 114: 'Yr unig gyfle i weld pobl eraill.'	5
Cydweithio a Chydweithredu	Rhannu cynlluniau, adnoddau a chydweithredu rhwng eglwysi a grwpiau cymunedol.	Dienw 101: 'Undod a gweithio ar y cyd.' Dienw 103: 'Gweithio gyda'n gilydd a chreu cynllun hirdymor.'	6
Trafnidiaeth a Hygyrchedd	Mae trafnidiaeth yn rhwystr mawr i gyfranogiad a mynediad at weithgareddau.	Dienw 107: 'Byddai trafnidiaeth gyhoeddus well yn ddefnyddiol.' Dienw 108: 'Anodd cyrraedd Llandysul heb gar.'	11
Mannau Ffydd fel Hybiau Cymunedol	Mae mannau ffydd yn cael eu hystyried fel asedau cymunedol sy'n cefnogi lles a gweithgareddau.	Dienw 102: 'Sefydlwyd y Ffynnon fel canolfan gymunedol.' Dienw 110: 'Hyb i bawb yn y gymuned.'	10
Cefnogi pobl hŷn a phoblogaeth sy'n heneiddio	Angen mannau hygyrch a chyfleoedd cymdeithasol i drigolion hŷn.	Dienw 105: 'Mae pobl hŷn yn mwynhau cyfarfod a chymdeithasu.' Dienw 113: 'Meddyliwch am bobl hŷn.'	6
Cefnogi Pobl Ifanc a Theuluoedd	Darparu cyfleoedd, mentora a mannau	Dienw 101: 'Mentora nhw ar fod yn oedolyn.'	6

	diogel i genedlaethau iau.	Dienw 108: ‘Lle diogel a chyfeillgar.’	
Gwell Cyfathrebu a Hyrwyddo	Byddai gwell hysbysebu a rhannu gwybodaeth yn cynyddu cyfranogiad.	Dienw 101: ‘Un lle canolog ar gyfer hysbysiadau.’ Dienw 110: ‘Hysbysebu yn glir beth sy’n digwydd.’	8
Cyllid, Gwirfoddolwyr a Chynaliadwyedd	Angen cyllid, gwirfoddolwyr a staff i gynnal gweithgareddau.	Dienw 114: ‘Mae angen mwy o grantiau.’ Dienw 115: ‘Angen digon o bobl a gwirfoddolwyr.’	8
Y Gymraeg, Cynhwysiant a Chroesawu Cymunedau Newydd	Creu mannau cynhwysol a chefnogi’r Gymraeg a newydd-ddyfodiaid.	Dienw 101: ‘Defnyddio fy Nghymraeg ac adeiladu cymuned.’ Dienw 111: ‘Mae angen apiau cyfieithu ar fewnfudwyr.’	5

5.2.10 Y Ffynnon – diagram corryn

Mae'r diagram corryn isod yn crynhoi prif themâu'r Ffynnon, gan dynnu sylw at drafnidiaeth a hygyrchedd, mannau ffydd fel canolfannau cymunedol, cyfathrebu, cyllid, cynaliadwyedd, cefnogaeth i wahanol grwpiau oedran, perthyn, cydweithio, y Gymraeg, cynhwysiant a chroesawu cymunedau newydd.



Mae Ffigur 32 yn dangos diagram corryn crefydd y Ffynnon

5.2.11 Mannau Adloniant a Pherfformio – dadansoddiad thematig

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriad ar fannau Adloniant a Pherfformio. Mae'n dangos bod y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi cerddoriaeth, celfyddydau, diwylliant Cymru, cysylltiad cymunedol a llesiant, a hefyd yn tynnu sylw at yr angen am well trafnidiaeth, hyrwyddo cryfach, digwyddiadau mwy cynhwysol, cefnogaeth i bobl ifanc, a buddsoddiad parhaus mewn cyfleusterau lleol a gweithgareddau diwylliannol.

Tabl 5.7: Dadansoddiad themâu mannau adloniant a pherfformio

Thema	Ystyr y Thema	Dyfyniadau Ategol	Nifer y Cyfranogwyr yn Cyfeirio at y Thema
Cymuned, Perthyn a Chysylltiad Cymdeithasol	Disgrifiodd y cyfranogwyr Landysul dro ar ôl tro fel cymuned gyfeillgar, groesawgar, gan amlygu rôl cerddoriaeth, diwylliant a digwyddiadau wrth ddod â phobl at ei gilydd.	Dienw 61: 'Y bobl mor gyfeillgar!' Dienw 66: 'Ymdeimlad cryf iawn o gymuned.' Dienw 68: 'Cryfder cefnogaeth y gymuned gyfan.' Dienw 63: 'Pwysigrwydd dod at eich gilydd gyda cherddoriaeth dda, sgwrs dda a gwledd dda o gymuned.'	10
Cerddoriaeth, Celfyddydau a Digwyddiadau Diwylliannol	Y thema gryfaf. Roedd ar y cyfranogwyr eisiau mwy o gerddoriaeth, gwyliau, perfformiadau, gweithdai, corau, gweithgareddau drama a chelfyddydol i bob oed.	Dienw 64: 'Mwy o gerddoriaeth os gwelwch yn dda!' Dienw 60: 'Allen ni sefydlu gŵyl Geltaidd?' Dienw 72: 'Sefydlu côr, cwmni drama, band.' Dienw 63: 'Gwyliau blynyddol o gerddoriaeth a chelf.'	13
Diwylliant, Iaith a Threftadaeth Cymru	Roedd ar lawer o'r cyfranogwyr eisiau cadw traddodiadau, cerddoriaeth, iaith a hanes lleol Cymru a'u gwneud yn fwy hygyrch i newydd-ddyfodiaid hefyd.	Dienw 61: 'Cerddoriaeth Werin Cymru ac Eisteddfodau i fod yn fwy hygyrch i bobl sy'n siarad Saesneg.' Dienw 62: 'Integreiddio mewnfudwyr yn y	11

		traddodiadau.' Dienw 73: 'Mae cerddoriaeth draddodiadol yn bwysig i ddiwylliant a hunaniaeth.' Dienw 71: 'Dewch â hanes yr ardal yn ôl.'	
Cynhwysiant a Chroesawu Pobl Newydd	Tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen i gynnwys pobl ddi-Gymraeg, pobl sy'n dod i mewn a gwahanol genedlaethau ym mywyd y gymuned.	Dienw 62: 'Nid dwy gymuned ochr yn ochr.' Dienw 69: 'Cymraeg i gael ei wneud mewn ffordd gefnogol fel bod pobl ddi-Gymraeg yn cael eu cynnwys.' Dienw 59: 'Digwyddiadau dwyieithog sy'n annog dysgwyr.'	8
Trafnidiaeth, Parcio a Hygyrchedd	Nodwyd trafnidiaeth a pharcio fel rhwystrau mawr i gymryd rhan mewn digwyddiadau a bywyd y dref.	Dienw 60: 'Dylai bysiau fynd a dod a trwy Landysul.' Dienw 64: 'Byddai gwell cysylltiadau trafnidiaeth yn gwella mynediad.' Dienw 70: 'Dim trafnidiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus na gwasanaethau cyfyngedig.' Dienw 67: 'Parcio am ddim.'	9
Pobl Ifanc a Gweithgareddau rhwng y Cenedlaethau	Roedd ar y cyfranogwyr eisiau mwy o gyfleoedd i bobl ifanc a gweithgareddau sy'n dod â'r cenedlaethau at ei gilydd.	Dienw 66: 'Does dim llawer i'w wneud i bobl ifanc yn eu harddegau.' Dienw 69: 'Digwyddiadau i'r teulu cyfan.' Dienw 60: 'Dylai disgyblion ysgol fod ar flaen y gad o ran	7

		trefnu digwyddiadau.’	
Adfywio’r Dref a Chyfleusterau Lleol	Codwyd pryderon am gau siopau, banciau, toiledau cyhoeddus, darpariaeth pwll nofio a chynnal canol tref bywiog.	Dienw 62: ‘Roedd yna 4 banc a swyddfa bost ar y stryd fawr.’ Dienw 69: ‘Agorwch y toiledau wrth y parc.’ Dienw 66: ‘Mae’r pwll nofio yn dechrau cael ei redeg lawr.’	10
Cyllid, Hyrwyddo ac Arweinyddiaeth	Roedd llawer yn teimlo bod angen cyllid, hyrwyddo cryfach ac arweinyddiaeth gymunedol i helpu syniadau i ddod yn realiti.	Dienw 62: ‘Cyhoeddusrwydd da.’ Dienw 67: ‘Ariannu.’ Dienw 72: ‘Sefydlu pwyllgor/grŵp gweithredu i drefnu digwyddiadau.’ Dienw 73: ‘Angen cydlynu’r gwaith marchnata a chreu naratif a hunaniaeth.’	9
Buddion Llesiant ac Iechyd Meddwl	Roedd cytundeb bron yn unfrydol bod cerddoriaeth, diwylliant a gweithgareddau creadigol yn gwella llesiant ac iechyd meddwl.	Dienw 59: ‘Yn hollol!’ Dienw 68: ‘Bwyd i enaid unrhyw genedl.’ Dienw 73: ‘Yn bendant yn cefnogi lles meddyliol.’ Dienw 72: ‘Yn dangos effaith gadarnhaol dawnsio ar bobl.’	14

5.2.12 Diagram corryn mannau cerddoriaeth ac adloniant

Mae'r diagram corryn isod yn rhoi crynodeb gweledol o'r prif themâu a nodwyd o'r tabl mannau Cerddoriaeth ac Adloniant uchod. Mae'n dangos bod llesiant, cerddoriaeth, digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol yn themâu arbennig o gryf, ochr yn ochr â phwysigrwydd iaith a threftadaeth Cymru, cysylltiad cymunedol, cynhwysiant, hygyrchedd, pobl ifanc, cyfleusterau lleol, hyrwyddo, cyllid ac arweinyddiaeth.



Mae Ffigur 33 yn dangos Diagram corryn Cerddoriaeth, Diwylliant a chrefydd y gymuned

5.2.13 Ymgynghoriad busnes – dadansoddiad thematig

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriad Busnes. Mae'n dangos y materion a gododd busnesau lleol a chyfranogwyr amlaf, gan gynnwys parcio a mynediad, bywiogrwydd canol y dref, digwyddiadau, trafnidiaeth, cymorth i fusnes, cyfathrebu, sgiliau, amwynderau cyhoeddus a seilwaith digidol, ynghyd â dyfyniadau ategol sy'n dangos y blaenoriaethau yma yng ngeiriau'r cyfranogwyr eu hunain.


Tabl 5.8: Dadansoddiad thema ymgynghori busnes

Thema	Ystyr y Thema	Dyfyniadau Ategol	Nifer y Cyfranogwyr yn fras
Parcio a Mynediad	Pryderon bod costau, argaeledd, gorfodi a hygyrchedd parcio yn effeithio ar ymwelwyr a defnydd canol y dref.	Dienw 74: "Dull mwy synhwyrol o barcio." Dienw 80: "Parcio am ddim i annog siopwyr." Dienw 99: "Parcio am ddim i weithwyr a chwsmeriaid."	12+
Digwyddiadau a Gweithgareddau Cymunedol	Awydd am fwy o wyliau, carnifalau, cerddoriaeth fyw, gweithgareddau teuluol a digwyddiadau cymunedol.	Dienw 75: "mae ar y carnifal lleol angen mwy o gefnogaeth." Dienw 79: "Mwy o garnifalau, gwyliau i blant, cyfarfodydd cŵn." Dienw 76: "Roedd y ffair aeaf yn arfer bod yn ddigwyddiad gwych."	10+
Trafnidiaeth a Chysylltedd	Angen gwell gwasanaethau bysiau, cysylltiadau trafnidiaeth a mynediad at wasanaethau i'r rhai heb geir.	Dienw 83: "Cysylltedd, trên, bws, parcio am ddim." Dienw 87: "Gwella trafnidiaeth i'r pentref." Dienw 96: "Mwy o wasanaethau teithio/trafnidiaeth."	7+
Bywiogrwydd a Siopau Canol y Dref	Angen denu busnesau, llenwi unedau gwag a chynyddu gweithgarwch ar y stryd fawr.	Dienw 85: "Busnesau lleol ar y stryd fawr." Dienw 100: "Ceisiwch gael mwy o fusnesau yn ôl i'r pentref." Dienw 94: "Mae siopau newydd yn symud i mewn."	7+
Cymorth i Fusnes a Rhwydweithio	Ceisiadau am rwydweithio, mentora, grwpiau busnes, marchnata a hyrwyddo ar y cyd.	Dienw 77: "Mwy o ddigwyddiadau rhwydwaith busnes." Dienw 86: "Rhwydweithio busnes." Dienw 88:	7+

		“Help gyda marchnata.”	
Sgiliau, Hyfforddiant a Phobl Ifanc	Cyfleoedd hyfforddi, datblygu’r gweithlu a chadw pobl ifanc yn lleol.	Dienw 91: “Rhannu arferion mewn gweithdai ar grantiau.” Dienw 89: “Hyfforddiant.” Dienw 98: “Helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau gwaith a sgiliau busnes.”	6+
Cyfathrebu Cymunedol	Angen rhannu gwybodaeth yn well, gwefannau, cyfeirlyfrau a hybu digwyddiadau yn ganolog.	Dienw 82: “Angen gwneud gwaith gwell wrth roi gwybod i bobl.” Dienw 86: “Gwefan newydd ar gyfer digwyddiadau a busnes.” Dienw 95: “Lle gwybodaeth cysylltiedig.”	5+
Iechyd, Lles ac Asedau Awyr Agored	Cymorth ar gyfer gweithgareddau llesiant, rasys parc, llwybrau cerdded, chwaraeon a chyfleusterau awyr agored.	Dienw 83: “Cefnogi iechyd a ffitrwydd.” Dienw 92: “Park run!” Dienw 85: “Mwy o opsiynau ar gyfer ymarfer corff mewn grŵp.”	5+
Maes Cyhoeddus ac Amwynderau	Toiledau cyhoeddus, palmentydd, tyllau, arwyddion a chynnal a chadw cyffredinol yn y dref.	Dienw 87: “Toiledau ar gau.” Dienw 74: “Cyflwr y palmentydd.” Dienw 82: “Ansawdd y ffyrdd – tyllau.”	6+
Seilwaith Digidol	Pryderon bod gyflymder band eang a rhyngrwyd yn effeithio ar weithrediadau busnes.	Dienw 93: “Mae cyflymder y rhyngrwyd yn ddiffygiol iawn.” Dienw 93: “Cyflymder rhyngrwyd gwael.”	2-3

5.2.14 Ymgynghoriad busnes – diagram corryn

Mae'r diagram corryn isod yn rhoi crynodeb gweledol o'r prif themâu a nodwyd o'r tabl ymgynghori busnes uchod. Mae'n dangos bod parcio a mynediad, bywiogrwydd canol y dref, digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, trafnidiaeth, cymorth busnes, cyfathrebu, sgiliau a hyfforddiant, amwynderau cyhoeddus a seilwaith digidol yn faterion allweddol i fusnesau lleol a chyfranogwyr, gyda pharcio, niferoedd ymwelwyr a chymorth i'r stryd fawr yn dod i'r amlwg fel blaenoriaethau arbennig o bwysig.



Mae Ffigur 34 yn dangos diagram corryn yr ymgynghoriad busnes

5.2.15 Ysgol Bro Teifi – dadansoddiad thematig sesiwn podlediad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o sesiwn podlediad Ysgol Bro Teifi. Mae'n dangos sut y myfyriodd y cyfranogwyr ar ysbryd cymunedol, colli gwasanaethau lleol, trafnidiaeth, iaith a diwylliant Cymru, cyfranogiad cymdeithasol, hanes lleol, twristiaeth, buddsoddi, parcio a hygyrchedd, gan ddefnyddio dyfyniadau ategol i ddangos sut y mynegwyd y safbwyntiau yma yn ystod y sesiwn.

Tabl 5.9: Dadansoddiad o themâu sesiwn podlediad Ysgol Bro Teifi

Teitl y Thema	Esboniad o'r Thema	Dyfyniadau Ategol (Enwau'r Cyfranogwyr)	Nifer y Cyfranogwyr
Ysbryd Cymunedol a Pherthyn	Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi mor gyfeillgar yw'r ardal, y rhwydweithiau cymunedol cryf a phwysigrwydd pobl yn teimlo'n gysylltiedig.	Menyw 4: 'Mae'r gymuned mor gynnes ac eisiau dod i'ch nabod chi.' Menyw 1: 'Mae'n bwysig bod pobl yn perthyn i rywbeth.' Menyw 4: 'Mae'r bobl yn wych unwaith maen nhw'n dod i nabod ei gilydd.'	6
Colli Gwasanaethau a Dirywiad Canol y Dref	Mynegodd y cyfranogwyr bryder ynghylch cau banciau, y mart a'r siopau, a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar niferoedd yr ymwelwyr a'r economi leol.	Dyn 1: 'Fe wnaeth hi wahaniaeth mawr yn y pentref pan gaeodd y banciau.' Menyw 4: 'Mae'r farchnad yn cau, y banciau'n mynd – digwyddodd y cyfan yr un pryd.' Menyw 1: 'Mae popeth wedi mynd.'	8
Angen Gwell Trafnidiaeth Gyhoeddus	Roedd trafnidiaeth yn cael ei hystyried yn hanfodol ar gyfer cyflogaeth, prentisiaethau, hygyrchedd a dod â phobl i'r dref.	Menyw 4: 'Os nad oes trafnidiaeth gyhoeddus, does dim prentisiaeth.' Menyw 4: 'Dŷn ni ddim yn dod â phobl mewn.'	Daeth y cymhelliant ar gyfer y prosiect o awydd cyffredin i gryfhau cysylltiadau cymunedol, gwella llesiant, cefnogi twf economaidd lleol a chreu cyfleoedd sy'n annog pobl i fyw, gweithio ac ymgysylltu yn y dref. Bwriad yr ymchwil yma yw gweithredu fel catalydd ar gyfer newid cadarnhaol a chefnogi prosiectau a phartneriaethau yn y dyfodol.
Gwarchod y Gymraeg a'r Diwylliant	Teimlai'r cyfranogwyr fod y Gymraeg yn ganolog i hunaniaeth leol ac y gallai traddodiadau gael	Menyw 2: 'Os yw'r iaith yn mynd, mae'r traddodiadau'n mynd hefyd.' Menyw 1: 'Mae'n bwysig cadw'r Gymraeg.'	5

	eu colli os bydd yr iaith yn dirywio.		
Pwysigrwydd Grwpiau a Gweithgareddau Cymunedol	Roedd sefydliadau, clybiau a chymdeithasau lleol yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer llesiant, cysylltiad cymdeithasol a lleihau ynysu.	Menyw 1: 'Mae boreau coffi yn bwysig iawn.' Menyw 1: 'Dylen ni gefnogi grwpiau fel Merched y Wawr.' Menyw 1: 'Mae'n rhoi pwrpas i bobl mewn bywyd.'	7
Cadw Traddodiadau a Hanes Lleol	Roedd yr ymatebwyr eisiau i ddigwyddiadau, straeon ac arferion traddodiadol gael eu dathlu a'u trosglwyddo I'r cenedlaethau iau.	Menyw 1: 'Calennig.' Menyw 2: 'Roedd y ffair yn digwydd bob blwyddyn.' Menyw 4: 'Roedd lot o syrcasau'n arfer dod i Landysul.'	8
Angen Mwy o Ryngweithio Cymdeithasol a Chyfranogi	Roedd llawer yn teimlo bod pobl yn llai cymdeithasol nag yn y gorffennol ac y byddai mwy o gyfranogi mewn digwyddiadau yn cryfhau'r gymuned.	Menyw 1: 'Mae angen i bobl gymdeithasu mwy.' Menyw 2: 'Mae pobl yn barod i gymryd rhan ond dŷn nhw ddim cefnogi unrhyw beth.' Menyw 1: 'Dyw pobl ddim hyd yn oed yn dweud helo nawr.'	7
Denu Ymwelwyr a Buddsoddiad	Tynnodd y cyfranogwyr sylw at dwristiaeth, Afon Teifi, digwyddiadau a buddsoddi fel cyfleoedd i gryfhau'r economi leol.	Menyw 4: 'Twristiaeth yw'r peth.' Menyw 4: 'Byddai'n wych cael mwy o fuddsoddiad gan y llywodraeth.' Menyw 1: 'Mae angen mwy o resymau arnon ni i bobl stopio yma.'	6
Pryderon Parcio a Hygyrchedd	Nodwyd dro ar ôl tro fod ffioedd parcio yn atal ymwelwyr ac yn ei gwneud hi'n anos cael mynediad at wasanaethau a siopau lleol.	Menyw 1: 'Dyw pobl ddim yn mynd i stopio os oes rhaid talu pedair punt am ddwy awr.' Menyw 2: 'Maen nhw'n cadw pobl draw.'	5

5.2.16 Ysgol Bro Teifi – diagram corryn sesiwn podlediad

Mae'r diagram corryn isod yn rhoi crynodeb gweledol o'r prif themâu a nodwyd o dabl sesiwn podlediad Ysgol Bro Teifi uchod. Mae'n dangos bod y cyfranogwyr wedi rhoi pwyslais cryf ar ysbryd cymunedol, perthyn, yr iaith a'r diwylliant, hanes a thraddodiadau lleol, a hefyd yn amlygu pryderon am golli gwasanaethau, trafnidiaeth, parcio, cyfranogiad cymdeithasol, twristiaeth a'r angen am fuddsoddiad yn y dyfodol.



Ffigur 35 – Diagram corryn Ysgol Bro Teifi


5.2.17 Dadansoddiad thematig o'r Arolwg

Tabl 5.10: Dadansoddiad thematig o'r arolwg
Mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r arolwg. Mae'n dangos y materion a godwyd amlaf gan y cyfranogwyr, gan gynnwys parcio, adfywio'r stryd fawr, gweithgareddau i blant a phobl ifanc, cyfleusterau cymunedol, cyfathrebu, trafnidiaeth, cynhwysiant, llesiant, parciau, chwaraeon a hamdden, ochr yn ochr â dyfyniadau ategol sy'n dangos y blaenoriaethau yma yng ngeiriau'r ymatebwyr eu hunain.

Teitl y Thema	Ystyr y Thema	Dyfyniadau Ategol	Nifer y Cyfranogwyr yn fras
Parcio a Mynediad i Ganol y Dref	Pryder cryf bod ffioedd parcio yn atal pobl rhag ymweld â chanol y dref, defnyddio gwasanaethau lleol a chefnogi busnesau.	Dienw 5: "Dros y parcio dwi'n pleidleisio!" Dienw 7: "Parcio'n rhad ac am ddim." Dienw 27: "Sgrapio'r taliadau am barcio neu eu gostwng nhw gryn dipyn."	15+
Adfywio'r Stryd Fawr a Siopau	Awydd am fwy o siopau, gwasanaethau, banciau a buddsoddiadau i ddod â bywyd yn ôl i ganol y dref.	Dienw 2: "Gwnewch y stryd fawr yn fwy bywiog gyda mwy o siopau gwahanol." Dienw 33: "Mae angen adfywio'r dref." Dienw 26: "Byddai'n braf gweld siopau newydd yn agor."	18+
Gweithgareddau i Blant a Phobl Ifanc	Angen mwy o gyfleoedd, chwaraeon, darpariaeth ieuenctid a gweithgareddau cymdeithasol i blant a phobl ifanc yn eu harddegau.	Dienw 11: "Mwy o weithgareddau i blant a phobl ifanc yn eu harddegau." Dienw 15: "Mwy o grwpiau I blant sy'n cael addysg gartref neu bobl ifanc 16+." Dienw 16: "Mwy o grwpiau i'r genhedlaeth iau."	16+
Cyfleusterau Cymunedol a Hybiau Cymunedol	Cefnogaeth i Calon Tysul, Neuadd Tysul, gwasanaethau'r llyfrgell a mannau cymunedol sy'n dod â phobl at ei gilydd.	Dienw 1: "Mwy o weithgareddau cymunedol mewn mannau cymunedol fel Calon Tysul." Dienw 14: "Adnewyddu neu ailadeiladu Neuadd Tysul." Dienw 3: "Cadwch Calon Tysul ar agor."	14+

Gwell Cyfathrebu a Hysbysebu	Mae llawer o bobl yn teimlo bod digwyddiadau a chyfleoedd yn bodoli ond yn cael eu hyrwyddo'n wael.	Dienw 4: "Heb eu hysbysebu'n dda." Dienw 29: "Gwell hysbysebion am yr hyn sy'n digwydd." Dienw 30: "Mae digwyddiadau lleol yn cael eu hysbysebu'n wael iawn."	12+
Trafnidiaeth Gyhoeddus a Chysylltedd	Ceisiadau am well gwasanaethau bysiau a chysylltiadau trafnidiaeth i leihau ynysu.	Dienw 4: "Angen gwasanaeth bws." Dienw 20: "Byddai trafnidiaeth gyhoeddus well yn ddefnyddiol." Dienw 24: "Gwasanaethau bws."	10+
Ysbryd Cymunedol a Chynhwysiant	Mae pobl yn gwerthfawrogi ysbryd cymunedol ond eisiau i newydd-ddyfodiaid a thrigolion ynysig deimlo bod mwy o groeso a chysylltiadau iddyn nhw.	Dienw 28: "Ysbryd cymunedol hyfryd." Dienw 27: "Noson groesawu i deuluoedd newydd." Dienw 33: "Awyrgylch mwy agored a chroesawgar."	10+
Iechyd, Llesiant a Chymorth Cymdeithasol	Angen gweithgareddau llesiant, grwpiau cymorth, grwpiau rhieni a chyfleoedd i leihau ynysu.	Dienw 1: "Grwpiau i famau a phlant bach." Dienw 17: "Mwy o grwpiau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed." Dienw 16: "Rydyn ni wrth ein bodd â digwyddiadau Arts4Wellbeing."	9+
Parciau, Chwaraeon a Hamdden	Soniwyd yn aml am well parciau, cyfleusterau chwaraeon, offer chwarae a chyfleoedd hamdden.	Dienw 21: "Gwell cyfleusterau parc." Dienw 31: "Cadw meysydd chwaraeon." Dienw 20: "Mae angen cyllid ar y parc."	9+

5.2.18 Diagram corryn yr arolwg



Mae Ffigur 36 yn dangos diagram corryn o themâu allweddol yr Arolwg

5.2.19 Ieuenctid – Ysgol Bro Teifi – Dadansoddiad Thematig o'r holiaduron a lenwyd gyda'r myfyrwyr

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o holiaduron myfyrwyr Ysgol Bro Teifi. Mae'n dangos yr hyn mae pobl ifanc yn ei werthfawrogi fwyaf am Landysul a Phont-tyweli, gan gynnwys y parc, Afon Teifi, chwaraeon, clybiau, y Gymraeg, yr ysgol, y gymuned leol ac asedau naturiol, a hefyd yn amlygu eu syniadau ar gyfer mwy o weithgareddau ieuenctid, mannau i gymdeithasu, opsiynau bwyd, cyfleusterau a chyfleoedd i leisio barn yn nyfodol yr ardal.

Tabl 5.11: Dadansoddiad thematig o'r holiaduron ieuenctid

Thema	Disgrifiad o'r thema	Nifer y cyfranogwyr yn cefnogi'r thema	Dyfyniadau ategol
Parc, Afon Teifi, Padlwyr ac asedau naturiol	Dro ar ôl tro nododd y cyfranogwyr y parc, Afon Teifi, Paddlers, llwybrau cerdded a mannau awyr agored fel yr asedau lleol cryfaf. Yn aml, dyma'r lleoedd y bydden nhw'n eu dangos i ymwelwyr yn gyntaf.	**60**	**Dienw 94:** parc, afon, paddlers **Dienw 105:** paddlers ar afon neu'r parc y caeau ger y parc i chwarae rownders neu pel droed *(* **Dienw 120:** paddlers ac i'r parc i dangos afon teifi **Dienw 146:** mynd am dro i'r parc ar afon ar bwys y parc
Chwaraeon, clybiau a ffyrdd o fyw egnïol	Disgrifiodd llawer o bobl ifanc chwaraeon a chlybiau fel rhan ganolog o'u bywydau, gan gynnwys pêl-droed, rygbi, hoci, criced, nofio, Sgowtiaid, CFfI, gymnasteg, carate a theatr.	**61**	**Dienw 96:** Rygbi gyda castell newydd emlyn, pel droed gyda crannog **Dienw 105:** gweithgareddau karate a scouts yn Llandysul . **Dienw 126:** rygbi, hoci a marchogaeth ceffyl **Dienw 143:** hoci, pel droed, cricket
Mwy o weithgareddau a chyfleusterau ieuenctid	Un thema gref oedd yr awydd am fwy o weithgareddau, clybiau a chyfleusterau wedi'u hanelu'n benodol at blant a phobl ifanc, gan gynnwys parciau sglefrio, traciau beicio, caeau 4G, sinema, parciau trampolinio a chlybiau creadigol.	**46**	**Dienw 112:** falle cael skate park, neu ice cream parlour, neu chip shop **Dienw 120:** Beic parc, rhywle yn Llandysul/cinema **Dienw 137:** mae eisiau 4g pitch, mwy o siopau a greggs **Dienw 146:** mwy o clybiau dawnsio a mwy o clybiau canu
Bwyd, siopau a mannau i gymdeithasu	Roedd y cyfranogwyr yn aml yn gofyn am fwy o siopau bwyd, caffis, bwytai a siopau. Roedd y rhain yn cael eu hystyried fel mannau cymdeithasol yn ogystal â gwasanaethau ymarferol i bobl ifanc a theuluoedd.	**35**	**Dienw 95:** fwy o llefydd bwyta **Dienw 109:** fwy o llefydd bwyta **Dienw 146:** mae eisiau mwy o siopau ac mae eisiau mwy o pethau bwyta yno **Dienw 149:** mwy o siopau bwyd, zipline, waterpark, trampoline, park, roller coaster, mcdonalds

Thema	Disgrifiad o'r thema	Nifer y cyfranogwyr yn cefnogi'r thema	Dyfyniadau ategol
Y Gymraeg, diwylliant, ysgol a balchder cymunedol	Disgrifiwyd y Gymraeg, Cymreictod, ysgol, clybiau, pobl leol ac ymdeimlad o gymuned dro ar ôl tro fel pethau sy'n gwneud yr ardal yn arbennig.	**43**	**Dienw 94:** cymreictod **Dienw 105:** yr iaith cymraeg ni, ar afon hyfryd, hefyd y cymuned cymreig **Dienw 110:** bod iaith yn cymraeg yn gryf yma, y hanes **Dienw 122:** mae ysgol da, bro teifi, a'r pobol, a'r parc
Costau, cyllid, gofod a rhwystrau ymarferol	Pan ofynnwyd iddyn nhw ddweud beth sy'n atal pethau rhag digwydd, roedd y bobl ifanc yn aml yn nodi diffyg arian, diffyg lle addas, costau a'r angen i godi arian.	**20**	**Dienw 96:** dim digon o arian, dim ffordd hawdd i cyrraedd **Dienw 105:** mae hyn yn anodd, achos prinder arian, dod at ei gilydd i codi arian **Dienw 117:** water fountain, dim arian a dim lle **Dienw 158:** codi arian
Llais, arweinyddiaeth a hyrwyddo ieuenctid	Awgrymodd sawl ymateb y dylai pobl ifanc helpu i redeg clybiau, cymryd cyfrifoldeb, hyrwyddo gweithgareddau a defnyddio posteri neu hysbysebion i hybu cyfranogiad.	**24**	**Dienw 94:** pobol ifanc yn rhedeg y clybiau, ac yn cymryd cyfrifoldeb **Dienw 110:** pobol ifanc yn rhedeg clwbiau **Dienw 118:** rhoi mwy o posteri, lan o amgylch y lle a neud mwy o pethau ty fas ar diwrnodau sych **Dienw 159:** hysbyseb
Ymlyniad at le a hunaniaeth wledig yn y dyfodol	Cymysg oedd yr ymatebion ynghylch aros yn Llandysul a Phont-tyweli. Roedd rhai eisiau aros oherwydd teulu, ffrindiau a chymuned, tra oedd eraill yn ffafrio cefn gwlad neu'n disgwyl symud i ffwrdd am waith neu resymau eraill.	**42**	**Dienw 100:** bydd y gwaith rhywle arall **Dienw 117:** byddaf yn aros yn yr ardal gyda teulu a ffrindiau **Dienw 132:** na oherwydd rwy moen aros yn cefn gwlad **Dienw 155:** ydw achos teulu

6. Canfyddiadau a mewnwelediadau allweddol

Rhoddwyd ymatebion i Gwestiynau 1 i 5 o'r arolwg a phob grŵp ffocws mewn taenlen Excel fel y gellid eu croesddadansoddi. Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r themâu cyffredin a welwyd ar draws yr ymatebion yma.

6.1 Dadansoddiad Thematig o'r ymatebion i gwestiynau 1-5 ar draws pob grŵp a'r arolwg

Mae'r tabl isod yn dwyn ynghyd yr ymatebion i Gwestiynau 1 i 5 ar draws yr holl grwpiau ffocws a'r arolwg cyffredinol. Mae'n dangos y themâu cryfaf a rannwyd ar draws yr ymgynghoriad cyfan, gan gynnwys digwyddiadau cymunedol, dirywiad canol y dref, trafnidiaeth, pobl ifanc, adfywio, adeiladau cymunedol, cynhwysiant, parcio, y Gymraeg a llesiant, a hefyd yn dangos faint o gyfranogwyr unigol oedd yn adlewyrchu pob thema.

Tabl 6.1: Dadansoddiad thematig o'r ymatebion i Gwestiynau 1–5 ar draws pob grŵp a'r arolwg

Teitl y Thema	Disgrifiad o'r Thema	Dyfyniadau Ategol	Nifer y Cyfranogwyr Unigol
Digwyddiadau, gweithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol cymunedol	Gofynnodd yr ymatebwyr dro ar ôl tro am fwy o gyfleoedd i gyfarfod, cymryd rhan, mynychu digwyddiadau a chefnogi bywyd cymunedol. Roedd rhai yn teimlo bod gweithgareddau eisoes yn digwydd, ond bod angen gwella cyhoeddusrwydd a hyrwyddo ar y cyd.	Dienw 1: "Mwy o weithgareddau cymunedol mewn mannau cymunedol fel Calon Tysul." Dienw 4: "Mae yna ddigon o bethau i'w gwneud ond heb eu hysbysebu'n dda." Dienw 9: "Mae llawer yn digwydd yn Neuadd Tysul – dyw'r hysbysebu ddim yn dda iawn." Dienw 67: "Dod â phobl at ei gilydd, mwy o ddigwyddiadau... a Neuadd Tysul."	**50**
Dirywiad yng nghanol y dref, siopau, banciau a gwasanaethau lleol	Disgrifiodd llawer o'r ymatebwyr fod Llandysul wedi colli gwasanaethau pwysig a niferoedd ymwelwyr, yn enwedig trwy gau banciau, siopau, y mart a chyfleusterau eraill yng nghanol y dref. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r dref yn teimlo'n llai hunangynhaliol ac yn llai egnïol nag yn y gorffennol.	Dienw 1: "Y gwahaniaeth mwyaf dros y blynyddoedd yw nifer y siopau!" Dienw 5: "Banciau wedi mynd! Mae'r rhan fwyaf wedi mynd! Ysbryd wedi mynd! Siopau wedi mynd!" Dienw 6: "Colli'r mart a'r banciau, diffyg siopau... yn golygu nad yw pobl yn dod i ganol y dref mwyach." Dienw 72: "Mae llawer o'r siopau a'r banciau i gyd wedi cau."	**42**

Teitl y Thema	Disgrifiad o'r Thema	Dyfyniadau Ategol	Nifer y Cyfranogwyr Unigol
Trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltedd	Roedd trafnidiaeth yn thema gref ar draws yr ymatebion. Soniodd pobl am wasanaethau bysiau cyfyngedig, anhawster cyrchu'r dref, yr angen am well cysylltiadau, a phwysigrwydd trafnidiaeth i drigolion ac ymwelwyr.	Dienw 8: "Gwell cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus." Dienw 18: "Gwell trafnidiaeth gyhoeddus... gwell gwybodaeth am ddigwyddiadau a grwpiau cyhoeddus a chymunedol." Dienw 23: "Mae hi ychydig yn ynysig oherwydd y diffyg trafnidiaeth gyhoeddus." Dienw 60: "Heriol oherwydd diffyg bysiau cyhoeddus yn mynd trwy Landysul."	**37**
Pobl ifanc, plant a theuluoedd	Roedd nifer fawr o'r sylwadau yn canolbwyntio ar yr angen am fwy o weithgareddau, cymorth a mannau diogel i blant, pobl ifanc yn eu harddegau, pobl ifanc, plant a theuluoedd oed dyn cael eu haddysg gartref.	Dienw 1: "Grwpiau I famau a babanod/plant bach. Mae bod yn fam mewn cymuned wledig yn gallu bod yn unig iawn." Dienw 8: "Mwy i'r arddegwyr wneud, yn ddiogel, dan oruchwyliaeth." Dienw 13: "Grwpiau i gefnogi pobl ifanc gyda'u llesiant emosiynol a'u cysylltiadau." Dienw 69: "Mwy i bobl ifanc."	**35**
Adfywio, buddsoddi, twristiaeth a golwg y dref	Roedd yr ymatebwyr eisiau adfywio ymarferol sy'n cefnogi busnesau lleol, yn gwella golwg a theimlad y dref, yn gwneud gwell defnydd o asedau lleol fel yr afon, ac yn denu pobl i Landysul yn hytrach na gadael iddyn nhw fynd drwyddo.	Dienw 2: "Gwneud y stryd fawr yn fwy bywiog gyda mwy o siopau gwahanol." Dienw 61: "Cymorth ariannol i Calon Tysul – ar gyfer glanhau strydoedd yn wirfoddol NEU YN WELL glanhawyr strydoedd gan y cyngor." Dienw 64: "Byddai gwell cysylltiadau trafnidiaeth yn gwella mynediad." Dienw 73: "Mae angen hybu a chefnogi busnesau, sefydliadau a diwylliant lleol."	**33**
Calon Tysul, hamdden, llyfrgell ac adeiladau cymunedol	Roedd cyfleusterau fel Calon Tysul, Neuadd Tysul, y llyfrgell, y pwll nofio ac adeiladau cymunedol eraill yn cael eu hystyried yn asedau hanfodol sydd angen cefnogaeth, buddsoddiad, oriau agor gwell neu adfywio.	Dienw 3: "Helpu i gadw Calon Tysul ar agor." Dienw 10: "Llyfrgell – oriau agor gwell." Dienw 12: "Adfywio Neuadd Tysul, dyw hi ddim yn lle gwych ar hyn o bryd." Dienw 62: "Cymorth ariannol i Calon Tysul a'r holl weithgareddau sy'n mynd ymlaen yno."	**31**

Teitl y Thema	Disgrifiad o'r Thema	Dyfyniadau Ategol	Nifer y Cyfranogwyr Unigol
Ysbryd cymunedol, perthyn a chynhwysiant	Roedd llawer o bobl yn siarad yn gadarnhaol am gyfeillgarwch, cynhesrwydd, gwirfoddoli ac ymdeimlad cryf o gymuned, a hefyd yn nodi'r angen i gynnwys newydd-ddyfodiaid, siaradwyr Cymraeg, siaradwyr di-Gymraeg a gwahanol grwpiau oedran.	Dienw 3: "Lle cyfeillgar da i fyw." Dienw 10: "Mae yna naws gymunedol a llawer o ddigwyddiadau bach yn digwydd." Dienw 66: "Wedi cael y teimlad bod yma groeso inni ac wedi dod o hyd i ymdeimlad cryf iawn o gymuned." Dienw 69: "'Cymraeg i gael ei wneud mewn ffordd gefnogol fel bod pobl nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg yn cael eu cynnwys."	**31**
Parcio a mynediad i'r dref	Cafodd ffioedd parcio, mynediad am gyfnod byr, toiledau cyhoeddus a rhwyddineb mynediad eu codi dro ar ôl tro. Teimlai'r cyfranogwyr fod costau parcio yn atal pobl rhag stopio, siopa, dod i weithgareddau a defnyddio gwasanaethau.	Dienw 4: "Dyw pobl ddim yn aros i fwyta neu edrych am fod parcio'n ddrud." Dienw 7: "Y prif broblem ar hyn o bryd yw parcio, ffioedd afrealistig am barcio mewn maes parcio cyhoeddus." Dienw 15: "Prisiau parcio, mae cleientiaid wedi gwrthod y cynnig o gwrdd yn y dref achos y cost parcio." Dienw 70: "Mae prisiau'r maes parcio yn atal pobl rhag dod i mewn i'r dref."	**29**
Y Gymraeg, diwylliant, traddodiadau a threftadaeth	Roedd diddordeb mawr mewn gwarchod a dathlu'r Gymraeg, diwylliant, hanes lleol, cerddoriaeth a thraddodiadau, a hefyd mewn gwneud gweithgareddau diwylliannol yn hygyrch ac yn groesawgar i ddysgwyr a newydd-ddyfodiaid.	Dienw 59: "Digwyddiadau dwyieithog sy'n annog dysgwyr... byddai mwy o gyfleoedd i sgwrsio a rhannu yn dda." Dienw 60: "Mae nifer o draddodiadau wedi dod i ben neu ar fin dod i ben." Dienw 62: "Gallai mwy gael ei wneud i integreiddio mewnfudwyr... gyda pharch at draddodiadau Cymreig." Dienw 73: "Cymuned fywiog... yn falch o'i hanes a'i diwylliant a'i hunaniaeth Gymreig."	**28**
Iechyd, lles a lleihau ynysu	Roedd thema lai ond eto pwysig yn ymwneud â llesiant, unigrwydd, cefnogaeth emosiynol, mynediad at wasanaethau a chreu mannau diogel lle gall pobl gysylltu a chymryd rhan.	Dienw 1: " Mae bod yn fam mewn cymuned wledig yn gallu bod yn unig iawn." Dienw 13: "Grwpiau i gefnogi pobl ifanc gyda'u llesiant emosiynol a'u cysylltiadau." Dienw 17: "Byddai mwy o grwpiau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed yn ddefnyddiol." Dienw 26: "Lle diogel sy'n canolbwyntio ar lesiant."	**14**

6.2 Crynodeb o'r Themâu Allweddol o gwestiynau 1-5 ar draws pob grŵp a'r arolwg

Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn amlygu ymdeimlad cryf o falchder yn Llandysul a Phont-tyweli, gydag ysbryd cymunedol yn dod i'r amlwg fel y thema fwyaf cyffredin. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi grwpiau, digwyddiadau a chyfleusterau lleol sy'n dod â phobl ynghyd ac yn helpu i greu ymdeimlad o berthyn.

Cododd llawer o'r ymatebwyr bryderon hefyd am fynediad a chysylltedd, yn enwedig o ran parcio, trafnidiaeth a mynediad at wasanaethau lleol. Roedd awydd amlwg i wneud y dref yn haws i ymweld â hi a'i defnyddio.

Roedd cefnogi pobl ifanc a chreu cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol yn thema arall a godwyd dro ar ôl tro, ochr yn ochr â'r angen i gefnogi busnesau lleol a chynnal canol tref bywiog.

Yn olaf, pwysleisiodd y cyfranogwyr warchod y Gymraeg, treftadaeth leol a chymeriad unigryw'r ardal. Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n awgrymu y dylai adfywio yn y dyfodol ganolbwyntio ar gryfhau cysylltiadau cymunedol, gwella mynediad at wasanaethau a gweithgareddau lleol, cefnogi pobl ifanc a busnesau, a diogelu'r hunaniaeth ddiwylliannol sy'n gwneud Llandysul a Phont-tyweli yn unigryw.

6.3 Dadansoddiad o'r Cwestiwn Terfynol

Wedyn dadansoddais y cwestiwn olaf o'r grwpiau "Gwytnwch Bwyd", "Ynni", "Cerddoriaeth", "Busnes", "y Ffynnon", "Eglwys Tysul", a "Chlwb Ffermwyr Ifanc". Dewiswyd y grwpiau yma am eu bod i gyd yn cynnwys cwestiwn olaf a oedd naill ai'n union yr un fath neu'n debyg iawn, fel arfer yn gofyn i'r cyfranogwyr ddweud "Beth yw'r syniad pwysicaf i'w gymryd o heddiw?" Roedd y cysondeb yma yn caniatáu croesgymharu ystyrlon rhwng y grwpiau ac yn fodd inni nodi themâu, blaenoriaethau a safbwyntiau cyffredin ar draws y gwahanol sesiynau ymgysylltu.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r cwestiynau terfynol ar draws sawl grŵp ffocws. Mae'n dangos bod y cyfranogwyr yn aml yn pwysleisio gweithio gyda'i gilydd, cryfhau canolfannau cymunedol a mannau a rennir, cefnogi pobl ifanc, gwella cyfathrebu, sicrhau cyllid ac adnoddau, a chreu mwy o weithgareddau, digwyddiadau a chyfleoedd adfywio i'r
dref.

Tabl 6.2: Dadansoddiad o'r cwestiynau terfynol ar draws y grwpiau ffocws

Teitl y Thema	Disgrifiad o'r Thema	Dyfyniadau Ategol	Nifer y Cyfranogwyr Unigol
Cydweithio a chydweithredu	Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd pobl, sefydliadau a chymunedau yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau cyffredin a chryfhau'r ardal.	Dienw 48: 'Yr angen i weithio gyda'n gilydd (waeth beth fo'r ffiniau/gwahaniaethau posibl)' Dienw 55: 'Mae angen inni weithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth' Dienw 103: 'Gweithio gyda'n gilydd ac adeiladu ar lwyddiant sesiynau'r Ffynnon' Dienw 118: 'Pwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd lle bynnag y bo modd.'	18
Hybiau Cymunedol a Mannau a Rennir	Roedd llawer o'r ymatebwyr eisiau canolbwynt cymunedol canolog lle gallai pobl gyfarfod, rhannu sgiliau, cael mynediad at wasanaethau, a datblygu prosiectau.	Dienw 38: 'Hyb canol cymunedol i hwyluso bwyd a gwytnwch lleol' Dienw 40: 'Angen rhywle canolog lle gall pobl weithio gyda'i gilydd' Dienw 41: 'Hyb cymunedol wedi'i leoli'n ganolog gyda chaffi' Dienw 44: 'Rhywle canolog... ar gyfer bwyd, siop drwsio, rhannu sgiliau'	9
Ysbryd Cymunedol a Chysylltiad Cymdeithasol	Tynnodd yr ymatebwyr sylw at werth ysbryd cymunedol, rhyngweithio cymdeithasol, cynhwysiant a dod â phobl at ei gilydd.	Dienw 50: 'Ysbryd cymunedol' Dienw 101: 'Dathlu'n gwahaniaethau ac annog ein gilydd' Dienw 116: 'Gweld pawb yn byw gyda'i gilydd yn hapus'	15

		Dienw 117: ‘Cymdeithasu a byw gyda’n gilydd yn gytûn’	
Cymorth i Bobl Ifanc	Pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen i ddarparu cyfleoedd, gweithgareddau a mannau diogel i genedlaethau iau.	Dienw 120: ‘Gweithio gyda’n gilydd i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc’ Dienw 122: ‘Denu pobl ifanc er mwyn iddyn nhw allu cario gweithgareddau ymlaen’ Dienw 206: ‘Creu lleoedd i bobl ifanc fwynhau a mannau diogel’ Dienw 211: ‘Gwyliau newydd i ddenu pobl ifanc i Landysul’	10
Cyllid, Adnoddau a Chymorth	Nododd llawer o’r ymatebion yr angen am gyllid, arbenigedd, staffio ac adnoddau i droi syniadau yn realiti.	Dienw 38: ‘Mae arnon ni angen cymorth ariannol, sgiliau, gwybodaeth’ Dienw 46: ‘Angen rheolwr/cydlynydd sydd wedi’i hyfforddi’n dda’ Dienw 113: ‘Cydweithio; cyfleoedd ariannu’ Dienw 124: ‘Mwy o gyllid, mwy o hyblygrwydd a gwell trafnidiaeth’	11
Trafnidiaeth a Hygyrchedd	Roedd trafnidiaeth yn cael ei hystyried yn hanfodol ar gyfer cyflogaeth, cynhwysiant a mynediad at gyfleoedd.	Dienw 38: ‘Trafnidiaeth/seilwaith’ Dienw 42: ‘Mae arna i angen gwaith achos does gen i ddim cerbyd’ Dienw 44: ‘Trafnidiaeth fforddiadwy, cludiant rheolaidd’ Dienw 115: ‘Mae angen mynd i’r afael â	8

		mynediad hefyd drwy drafnidiaeth’	
Cyfathrebu a Chydlynu	Roedd gwell cyfathrebu, rhannu gwybodaeth a chydlynu yn bwysig ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.	Dienw 44: ‘Cyfathrebu fel bod pawb yn gwybod beth sy’n digwydd’ Dienw 102: ‘Gwell cyfathrebu a meithrin ymddiriedaeth’ Dienw 110: ‘Cydlynu a rhannu gwybodaeth’	7
Gweithgareddau, Digwyddiadau ac Adfywio	Roedd ar y cyfranogwyr eisiau mwy o ddigwyddiadau, gwyliau a gweithgareddau i wneud y dref yn fywiog a denu pobl.	Dienw 121: ‘Trefnu gŵyl leol’ Dienw 210: ‘Park Run’ Dienw 213: ‘MWY O WEITHGAREDDAU YN Y GYMUNED’ Dienw 123: ‘Gobeithio gweld rhywbeth newydd sy’n denu pobl newydd’	9

6.4 Crynodeb o’r Themâu Allweddol o’r cwestiynau terfynol

Mae’r ymatebion i’r cwestiwn olaf yn amlygu sawl blaenoriaeth a rennir ar draws y gwahanol grwpiau. Y thema gryfaf oedd pwysigrwydd **cymuned a phobl**, gyda’r cyfranogwyr yn gwerthfawrogi cysylltiadau cymdeithasol cryf ac ymdeimlad o berthyn.

Pwysleisiodd llawer o’r ymatebwyr hefyd fod angen **diogelu diwylliant a threftadaeth leol a’r iaith Gymraeg**, gan gydnabod y rhain fel rhannau allweddol o hunaniaeth yr ardal. Roedd awydd cryf i sicrhau bod traddodiadau a straeon lleol yn cael eu cadw ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Trafododd y cyfranogwyr bwysigrwydd **cefnogi pobl ifanc** yn aml, a chreu cyfleoedd iddyn nhw gymryd rhan mewn bywyd cymunedol a helpu i sicrhau dyfodol hirdymor yr ardal.

Yn olaf, roedd llawer o’r ymatebion yn adlewyrchu’r angen am **arweinyddiaeth gadarnhaol, cydweithredu cymunedol a diogelu cyfleusterau a gwasanaethau lleol**. Yn gyffredinol, mae’r canfyddiadau’n awgrymu y dylai adfywio yn y dyfodol ganolbwyntio nid yn unig ar welliannau corfforol ond hefyd ar gryfhau cysylltiadau cymunedol, dathlu hunaniaeth leol a buddsoddi yng nghenedlaethau’r dyfodol.

7. Canfyddiadau allweddol ar draws pob grŵp

Ysbryd cymunedol oedd un o'r themâu cryfaf.
Roedd y trigolion yn disgrifio Llandysul a Phont-tyweli yn gyson fel mannau cyfeillgar, croesawgar a diogel, gydag ymdeimlad cryf o berthyn y maen nhw am ei amddiffyn.
Mae awydd cryf i weld canol y dref yn dod yn fwy bywiog eto.
Colli siopau, banciau a niferoedd yr ymwelwyr oedd un o'r pryderon mwyaf cyffredin. Roedd ar lawer o'r ymatebwyr eisiau mwy o fusnesau annibynnol, caffis a rhesymau i bobl dreulio amser yn y dref.
Mae parcio yn cael ei ystyried yn rhwystr mawr.
Codwyd ffioedd parcio, mannau parcio cyfyngedig i aros am gyfnod byr a gorfodaeth dro ar ôl tro gan drigolion, busnesau a grwpiau cymunedol fel pethau sy'n atal pobl rhag ymweld a siopa'n lleol.
Roedd ar y cyfranogwyr eisiau mwy o weithgareddau ar gyfer pob oedran, yn enwedig pobl ifanc.
Roedd galw amlwg am fwy o weithgareddau gyda'r nos, chwaraeon, hamdden dan do, gwyliau, digwyddiadau teuluol a mannau lle gall pobl ifanc gwrdd heb orfod teithio i rywle arall.
Mae treftadaeth y dref yn cael ei hystyried yn ased sydd heb ei ddefnyddio.
Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y melinau, hanes trydan dŵr, Afon Teifi, murluniau, llwybrau cerdded, y diwylliant Cymraeg a straeon lleol fel atyniadau y dylid eu hybu'n llawer mwy effeithiol.
Mae angen gwella cyfathrebu.
Mae llawer o bobl yn teimlo eu bod yn colli digwyddiadau am fod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn bennaf trwy Facebook. Awgrymodd ymatebwyr ddefnyddio hysbysfyrddau, posteri, ysgolion, mannau cymunedol a sawl sianel gyfathrebu.
Roedd ar y cyfranogwyr eisiau gwelliannau gweladwy i'r dref.
Soniwyd yn aml am strydoedd glanach, gwell cynnal a chadw, mwy o flodau, llai o chwyn, gwell arwyddion a dod ag adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd fel gwelliannau syml a fyddai'n cynyddu balchder dinesig.
Mae yna gefnogaeth gref i ddod â phobl at ei gilydd ar draws gwahanol gymunedau.
Roedd llawer o'r ymatebion yn galw am fwy o gydweithio rhwng siaradwyr Cymraeg a Saesneg, gwahanol grwpiau oedran, grwpiau ffydd, sefydliadau a newydd-ddyfodiaid i helpu i gryfhau cydlyniant cymunedol.
Mae ar bobl ifanc eisiau rhesymau i aros.
Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryder am y diffyg cyfleoedd gyrfa, gweithgareddau a chyfleusterau, gan arwain pobl ifanc i adael yr ardal. Mae yna gefnogaeth i greu cyfleoedd sy'n eu hannog i aros neu ddychwelyd yn nes ymlaen yn eu bywyd.
Dylai adfywio adeiladu ar gryfderau cymunedol presennol.
Tynnodd yr ymatebwyr sylw dro ar ôl tro at sefydliadau cymunedol llwyddiannus, Calon Tysul, busnesau lleol, gwyliau, gwirfoddolwyr, clybiau chwaraeon, Afon Teifi a mentrau dan arweiniad y gymuned fel y sylfeini ar gyfer adfywio yn y dyfodol.

8. Argymhellion Allweddol

Mae'r prif argymhellion o'r ymchwil dan arweiniad gan y gymuned wedi'u nodi isod.
Un o'r cyfleoedd mwyaf yw gwella cyfathrebu. Trwy gydol yr ymgynghoriad daeth yn amlwg bod llawer o weithgareddau, clybiau a gwasanaethau eisoes yn bodoli, ond nad oes llawer o bobl yn gwybod amdanyn nhw. Yn hytrach na chanolbwyntio'r hysbysebu yn Llandysul ei hun yn unig, mae'r ymchwil yn amlygu'r angen am ddull cydgysylltiedig sy'n cyrraedd y gymuned gyfan, gan gynnwys Pont-tyweli a'r ardaloedd cyfagos.

Un syniad fyddai sefydlu system syml lle mae sefydliadau yn cyflwyno manylion eu digwyddiadau sydd ar ddod i bwynt canolog bob mis. Yna gellid dod â'r wybodaeth yma at ei gilydd mewn un amserlen gymunedol, sydd ar gael mewn print ac ar-lein. Gallai'r amserlen gael ei harddangos ar

hysbysfyrddau cymunedol, ei rhannu trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'i dosbarthu i sefydliadau lleol, a allai ei chylchredeg ymhlith eu haelodau eu hunain. Nid tynnu pobl i ffwrdd o'r grwpiau presennol yw'r bwriad, ond harneisio cryfder y gymuned trwy helpu pobl i ganfod popeth sydd eisoes yn digwydd yn lleol.

Tynnodd yr ymgynghoriad sylw hefyd at bwysigrwydd cefnogi'r Gymraeg. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod cyfle i ddatblygu menter gymunedol sy'n annog pobl i ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg mewn lleoliadau bob dydd. Gellid gwahodd busnesau lleol i gymryd rhan mewn cynllun cydnabyddedig "Cyfeillgar i'r Gymraeg", gan roi hyder i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith mewn siopau, caffis a mannau cyhoeddus eraill. Gallai busnesau sy'n cymryd rhan gael cydnabyddiaeth gyhoeddus am eu cefnogaeth, a gallai cymhellion fel gwobrau neu ddyfarniadau cymunedol helpu i hybu cyfranogiad ehangach.

Mae rhai o'r materion ehangach a nodwyd drwy'r ymgynghoriad eisoes yn cael eu datrys. Mae ffioedd parcio yn dal yn bryder i lawer o drigolion, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar atebion posibl. Codwyd mater toiledau cyhoeddus dro ar ôl tro yn ystod yr ymgynghoriad, ac mae'n galonogol bod y rhain eisoes wedi'u hailagor ers i'r ymchwil gael ei gwneud, gan ddangos y gall newid cadarnhaol ddigwydd.

Rydyn ni yn Llandysul a Phont Tyweli Ymlaen hefyd yn mynd ar drywydd cyllid i ailddatblygu a moderneiddio ardal chwarae'r parc. Y nod yw creu cyfleuster diogel, cynhwysol a chyfoes tra'n cadw'r cymeriad naturiol a'r lleoliad y mae pobl yn eu gwerthfawrogi mor fawr.

Yn olaf, mae'r ymchwil dan arweiniad y gymuned yn dangos bod yna fudd sylweddol mewn ystyried creu lle i hyb cymunedol pwrpasol. Trwy gydol yr ymgynghoriad yma cafwyd awydd amlwg am fwy o gydweithredu rhwng sefydliadau, gwell cyfathrebu a mwy o gyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd. Gallai hyb cymunedol roi canolbwynt ar gyfer gwybodaeth, gweithgareddau, gwirfoddoli a chefnogaeth, gan helpu i gryfhau'r cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer y dyfodol.

9. Y Camau Nesaf

Rydyn ni wrthi'n cynllunio digwyddiad ym mis Medi i wahodd pawb yn ôl fel ffordd o ddweud diolch am eu cyfraniad a'u cefnogaeth. Bydd y digwyddiad yn gyfle i'r cyfranogwyr weld sut mae eu cyfraniadau wedi helpu i lunio'r prosiect, edrych ar yr adroddiad rydyn ni wedi'i gynhyrchu, a dysgu am y broses ymchwilio, y canfyddiadau, a'r canlyniadau.
Rydyn ni'n gobeithio cyflwyno'r wybodaeth yma mewn ffordd hygyrch, anffurfiol a diddorol sy'n hybu cyfranogiad parhaus. Bydd y digwyddiad hefyd yn gyfle i gryfhau cysylltiadau cymunedol, dod â phobl at ei gilydd, a meithrin ymgysylltiad parhaus â'r prosiect ac a'n gilydd.

At hynny, rydyn ni'n cynllunio digwyddiad sy'n canolbwyntio ar fusnes mewn partneriaeth â Delineate, yr arbenigwyr AI sydd wedi'u lleoli yn Llandysul. Bydd y sesiwn yma yn cefnogi busnesau lleol trwy ddangos pum ffordd ymarferol y gall deallusrwydd artiffisial helpu i symleiddio gweithrediadau o ddydd i ddydd, gwella effeithlonrwydd, a gwneud prosesau busnes yn haws i'w rheoli. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i ddatblygu mwy o gyfleoedd rhwydweithio a chymorth busnes, yn sgil llwyddiant ein digwyddiad busnes blaenorol a'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan y rhai oedd yno.
Rydyn ni hefyd yn awyddus i adeiladu ar lwyddiant y sesiynau podlediad a gafwyd yn Ysgol Bro Teifi. Rydyn ni'n gobeithio sefydlu rhagor o brosiectau podlediad yn yr ardal, unwaith eto yn cynnwys yr ysgol a dod â phobl o wahanol genedlaethau at ei gilydd. Cafodd y dull rhwng cenedlaethau yn y sesiynau blaenorol dderbyniad arbennig o dda gan ddangos awydd clir am weithgareddau sy'n hybu dysgu, cydweithredu, a rhannu profiadau ar draws grwpiau oedran.

Ar hyn o bryd rydyn ni wrthi'n archwilio ystod o fentrau adeiladu cymuned, gan gynnwys cynllun a fyddai'n annog busnesau lleol i gefnogi dysgwyr Cymraeg drwy greu amgylchedd croesawgar lle gall pobl ymarfer yr iaith mewn sefyllfaoedd bob dydd. Gallai'r busnesau sy'n cymryd rhan ddangos logo neu achrediad adnabyddadwy i ddangos eu cefnogaeth, gan helpu i fagu hyder ymhlith dysgwyr, hybu mwy o ddefnydd ar y Gymraeg yn y gymuned, a chryfhau hunaniaeth leol. Mae gennyn ni ddiddordeb hefyd mewn archwilio cymhellion i fusnesau sy'n cymryd rhan, gan gydnabod eu cyfraniad at hybu'r iaith a datblygiad cymunedol.

10. Gwerthuso a myfyrdodau

Roedden ni wedi bwriadu gweithio gyda Delineate, cwmni mewnwelediadau data AI sydd wedi'i leoli yn y dref, i ystyried a allai offer digidol gryfhau ymgysylltu â'r gymuned a chasglu data. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar lwyfannau meddalwedd, codau QR ac offer arolwg cyflym a allai ei gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan a rhannu adborth. Gan fod Delineate eisoes yn cefnogi ystod eang o brosiectau a digwyddiadau cymunedol, roedden nhw hefyd yn hapus i helpu gyda'r agwedd yma ar y gwaith.
Yn gyffredinol, dangosodd y prosiect bwysigrwydd hyblygrwydd, adeiladu perthynas ac addasu dulliau ymgysylltu wrth i'r gwaith ddatblygu. Mae cyfuno holiaduron ar-lein ag ymgynghori wyneb yn wyneb wedi helpu i sicrhau cymaint â phosibl o gyfranogiad a sicrhau bod ystod eang o leisiau cymunedol yn cyfrannu'n gynhwysol ac yn barchus.

Amser oedd yr her fwyaf trwy gydol y prosiect. Ochr yn ochr â gwneud yr ymchwil ei hun, roeddwn i'n gyfrifol am drefnu wyth grŵp ffocws a digwyddiadau ymgysylltu, eu hyrwyddo, ysgrifennu'r cwestiynau ymchwil, paratoi ffurflenni cydsynio a sicrhau bod pawb dan sylw yn bodloni'r gofynion a'r gweithdrefnau angenrheidiol. Gan mai dim ond 15 awr yr wythnos rwy'n gweithio, roedd cydbwyso'r cyfrifoldebau yma yn gryn dipyn o her.

Rhoddodd fy nghydweithiwr Alex gymorth amhrisiadwy trwy sefydlu'r holiaduron ar-lein, creu'r codau QR a helpu i drefnu a chyflwyno'r digwyddiadau ymgysylltu. Er hynny, dim ond saith awr yr wythnos y mae Alex hefyd yn gweithio, sy'n golygu mai cyfyngedig yw ein capasiti cyfun. Er ein bod ni wedi llwyddo i gyflawni'r prosiect, roedd rheoli'r llwyth gwaith o fewn yr oriau oedd ar gael yn anodd.

Roedd pwysau amser hefyd yn dylanwadu ar y broses benderfynu. Roedd llawer o'r sefydliadau a'r unigolion roedden ni'n awyddus i'w cynnwys eisoes yn hynod o brysur, sy'n gwbl ddealladwy. Wrth i'r dyddiadau cau agosáu, bu'n rhaid weithiau inni addasu'n cynlluniau gwreiddiol yn hytrach nag aros am gadarnhad. Un enghraifft oedd ein hymgysylltiad â'r Clwb Ffermwyr Ifanc (CFfI). Buon ni'n ffodus i sicrhau sesiwn o gwbl, gan fod eu rhaglen yn aml yn cael ei threfnu hyd at flwyddyn ymlaen llaw. Roedd hyn yn amlygu mor bwysig yw caniatáu amser arweiniol sylweddol wrth weithio gyda sefydliadau cymunedol sefydledig.

Enghraifft arall oedd digwyddiad Glascoed – Hanes a Chenedlaethau gydag Ysgol Bro Teifi. Y weledigaeth yn wreiddiol oedd dod â myfyrwyr, trigolion lleol a'r gymdeithas hanes leol at ei gilydd, gyda'r myfyrwyr yn recordio cyfweliadau ac yn cofnodi atgofion o sut mae'r dref wedi newid dros amser. Ystyriwyd cynnwys Arts4Wellbeing hefyd ond roedd anawsterau ymarferol cydlynu sawl sefydliad o fewn amserlen y prosiect, ynghyd â chyfyngiadau cyllideb, yn golygu nad oedd y dull yma'n gyraeddadwy. Yn lle rhoi'r gorau i'r syniad, fe wnaethom ei rannu'n ddau weithgaredd ymgysylltu ar wahân. Wrth edrych yn ôl, profodd hyn yn ddull mwy effeithiol, gan atgyfnerthu pwysigrwydd caniatáu digon o amser cynllunio pan fydd nifer o bartneriaid yn rhan o'r peth.

Wrth fyfyrio ar y prosiect, fe fyddwn i'n gofyn am gyfnod cyflawni hirach petawn i'n ymgymryd â gwaith tebyg eto. Fe wnes i danamcangyfrif nid yn unig yr amser sydd ei angen i drefnu a chyflawni'r gwaith ymgysylltu, ond hefyd y cryn dipyn o amser sydd ei angen i ddadansoddi'r canfyddiadau ac ysgrifennu'r adroddiad terfynol. Yr un mor bwysig oedd y gwaith adeiladu perthynas oedd yn ofynnol trwy'r broses i gyd: cwrdd â phobl, ymateb i negeseuon ebost, trefnu logisteg, ateb cwestiynau a delio â'r tasgau bach di-ri sy'n rhan o bob digwyddiad. Mae'r gweithgareddau yma yn sylfaenol ar gyfer ymgysylltu cymunedol llwyddiannus ond mae'n hawdd eu tanamcangyfrif wrth gynllunio prosiectau. Wrth edrych yn ôl, rwy'n cydnabod hefyd fod nifer y grwpiau roedden ni'n bwriadu ymgysylltu â nhw yn uchelgeisiol o fewn yr amserlen oedd ar gael.

Byddai amser ychwanegol hefyd wedi fy ngalluogi i dreulio mwy o amser gyda hwyluswyr a chyfranwyr gwadd cyn pob digwyddiad. Er imi gyfarfod â llawer o bobl ymlaen llaw i esbonio'r prosiect a'u rôl nhw, byddai cyfnod arweiniol hirach wedi cryfhau cysondeb ar draws y gweithgareddau ymgysylltu ac wedi creu hyd yn oed mwy o gyfleoedd i adeiladu perthnasoedd.

Rhoddodd y prosiect wersi gwerthfawr hefyd am ddulliau ymgysylltu. Roedd holiaduron papur yn ddull cywir ar gyfer llawer o weithgareddau, yn enwedig lle roedd y cyfranogwyr yn llai hyderus gyda thechnoleg neu lle roedd amgylchedd mwy anffurfiol yn hybu trafodaeth well. Er y byddai ap adborth digidol pwrpasol wedi lleihau'r defnydd o bapur ac wedi cwtogi cryn dipyn ar yr amser angenrheidiol ar gyfer mewnbynnu a dadansoddi data, roedd amserlenni'r prosiect yn golygu bod holiaduron papur yn caniatáu i'r ymgynghori ddechrau ar unwaith. Pe bawn i'n ailadrodd y prosiect, byddwn yn buddsoddi mewn llwyfan adborth digidol ochr yn ochr â chyfrifiaduron llechen fel y gallai cyfranogwyr heb fynediad at dechnoleg lenwi arolygon yn electronig. Byddwn i hefyd yn cynnwys blwch ticio oedran syml i roi proffil demograffig cliriach o'r ymatebwyr.

Yn yr un modd, doedd holiaduron strwythuredig ddim yr un mor effeithiol gyda phob cynulleidfa. Mewn sawl lleoliad ieuenctid, roedd sgyrsiau agored yn cynhyrchu ymatebion cyfoethocach a mwy ystyrlon nag arolygon ffurfiol. Atgyfnerthodd y prosiect hefyd bwysigrwydd hygyrchedd. Drwy ddarparu deunyddiau dwyieithog, cynnig cymorth yn ôl yr angen a chaniatáu i'r cyfranogwyr gyfrannu ar lafar neu'n greadigol sicrhawyd bod pobl yn gallu cymryd rhan waeth beth fo'u lefelau llythrennedd, eu dewis iaith neu eu hyder gyda ffurflenni ysgrifenedig.

Un o gryfderau'r prosiect oedd ei fod yn cael ei arwain gan rywun lleol. Gan fod llawer o'r cyfranogwyr yn fy adnabod i'n barod, roedd pobl yn ymddangos yn fwy hamddenol ac yn barod i rannu eu barn yn agored. Roedd fy ngallu i gyfathrebu yn Gymraeg hefyd yn helpu'r cyfranogwyr i deimlo'n gyfforddus yn ymateb yn naturiol yn eu dewis iaith. Roedd ymchwil o'r raddfa yma yn rhoi gwersi sylweddol ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd bod yn agored a gonest a meithrin perthynas. Mae'r profiad yma wedi atgyfnerthu fy nghred bod ymchwil dan arweiniad lleol yn cynhyrchu ymgysylltiad cyfoethocach am ei bod wedi'i seilio ar berthnasoedd gwirioneddol a dealltwriaeth wirioneddol o'r gymuned.

Efallai mai'r canfyddiad cryfaf drwy gydol yr ymgynghoriad oedd y balchder sydd gan bobl yn Llandysul a Phont-tyweli. Roedd y cyfranogwyr yn siarad yn gadarnhaol am eu cymuned yn gyson ac yn tynnu sylw dro ar ôl tro at sefydliadau a chyfleusterau gwerthfawr fel Calon Tysul, Paddlers, Ffab a llawer o rai eraill. Roedd yna werthfawrogiad ysgubol o'r ystod eang o glybiau, gweithgareddau a digwyddiadau sydd eisoes ar gael.

Er hynny, daeth un mater i'r amlwg yn gyson ar draws bron pob ymgynghoriad: cyfathrebu. Roedd y cyfranogwyr yn aml yn awgrymu cyfleusterau neu weithgareddau oedd eisoes yn bodoli'n lleol. Roedd sylwadau fel *"Mae'n drueni nad oes dim cyrtiau tenis"* er bod cyrtiau tenis eisoes ar gael yn dangos nad diffyg darpariaeth oedd y broblem, ond yn hytrach diffyg ymwybyddiaeth.

Mae hyn yn fy arwain i gredu y gallai gwella'r cyfathrebu a gâi un o'r effeithiau mwyaf ar gyfranogiad cymunedol. Un syniad sy'n werth edrych arno fyddai creu un amserlen gymunedol fisol sy'n dod â'r holl glybiau, sefydliadau a digwyddiadau lleol at ei gilydd. O'i ddosbarthu ar-lein ac mewn print, byddai'n ei gwneud hi'n llawer haws i'r trigolion weld popeth sy'n digwydd ar draws y gymuned heb ddibynnu ar sawl ffynhonnell wybodaeth.

Tynnodd yr ymgynghoriad sylw hefyd at y ffaith bod llawer o hysbysfyrddau cymunedol wedi mynd yn anniben, gyda phosteri yn gorchuddio'i gilydd yn gyson. Gallai cynhyrchu poster cymunedol misol wedi'i gynllunio'n broffesiynol ac yn cyfuno nifer o ddigwyddiadau leihau'r annibendod yma a gwneud yr wybodaeth yn llawer mwy hygyrch a deniadol yn weledol. Gallai ymgorffori'r amserlen mewn cylchlythyrau ysgol gryfhau'r cyfathrebu ymhellach trwy gyrraedd aelwydydd yn uniongyrchol trwy ysgolion, sy'n dal yn ganolog i fywyd y gymuned. Trwy weithio gyda'i gilydd fel hyn, mae yna gyfle gwirioneddol i gynyddu cyfranogiad a chryfhau'r cysylltiadau sydd eisoes yn gwneud Llandysul a Phont-tyweli yn gymunedau mor fywiog.
Yn olaf, roedd un ymateb i'r ymgynghoriad yn arbennig o drawiadol: Dienw 205: *"Bwyd cyflym (McDonald's), mwy o bethau i'w gwneud ond peidio ag ymuno â chlwb. Gallech chi ddefnyddio'r caeau wrth ymyl y parc ar gyfer parc trampolinio, parc dŵr, cwrt tenis neu gwrt badminton."*

O'i ystyried ochr yn ochr â'r ceisiadau niferus am gaffis a mannau cyfarfod anffurfiol i aros ar agor ar ôl yr ysgol a gyda'r nos, mae'r sylw yma yn amlygu gwahaniaeth pwysig. Doedd y bobl ifanc ddim o reidrwydd yn gofyn am ragor o glybiau wedi'u trefnu neu weithgareddau strwythuredig. Trwy'r ymgynghoriad i gyd roedd yna werthfawrogiad clir o'r clybiau a'r sefydliadau sy'n bodoli eisoes. Yn hytrach, mynegodd llawer o'r bobl ifanc awydd am fannau diogel, anffurfiol lle gallen nhw dreulio amser gyda'i ffrindiau heb ymrwymo i fynd i sesiynau wedi'u trefnu ar adegau penodol. Mae hyn yn awgrymu y dylai cynllunio cymunedol yn y dyfodol ganolbwyntio nid yn unig ar ehangu gweithgareddau wedi'u trefnu ond hefyd ar greu mannau cymdeithasol croesawgar, hyblyg sy'n ategu'r cyfleoedd rhagorol sydd eisoes ar gael.

11. Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i'r holl unigolion a gymerodd yr amser i lenwi'r holiaduron a chyfrannu ymatebion mor bwyllog a manwl. Mae eu parodrwydd i rannu eu profiadau, eu syniadau a'u gobeithion ar gyfer dyfodol Llandysul a Phont-tyweli wedi bod yn ganolog i'r ymchwil yma. Mae eu hymrwymiad cyffredin i gryfhau'r ardal wedi bod yn ysgogiad clir trwy gydol y prosiect.
Hoffwn hefyd gydnabod y grwpiau a'r unigolion canlynol am eu cyfranogiad, eu harweiniad a'u cefnogaeth drwy gydol y broses ymchwilio:
Rwy'n arbennig o ddiolchgar i Rod Bowen ac Anne Edwards am eu gwaith mentora, eu harweiniad a'u cefnogaeth barhaus drwy'r broses i gyd, ac i Alex Norval am ei gefnogaeth ymarferol wrth drefnu a chyflawni'r ymchwil.
Hoffwn hefyd ddiolch i Brifysgol Aberystwyth, Amy Nicholass a Dr Wyn Morris am eu cyngor, eu harweiniad academaidd a'u cefnogaeth drwy'r prosiect i gyd, yn enwedig o ran datblygu'r cwestiynau ymchwil, llunio'r fethodoleg ac adolygu'r adroddiad wrth iddo fynd rhagddo.

- Amy Nicholass, hwylusydd ymchwil LPIP Cymru Wledig
- Staff Llandysul a Phont Tyweli Ymlaen (Alex Norval, Rod Bowen, Anne Edwards)
- Dr Wyn Morris – Uwch-ddarlithydd, Prifysgol Aberystwyth
- Louise Cartwright (hwylusydd y digwyddiad yn yr Ardd)
- Suzanne Hughes Owen a Paul Shadbolt
- Yr Ardd
- Y Pwerdy
- Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni
- Lleucu Meinir
- Y Ffynnon
- Eglwys Tysul – Gareth Reid
- Ieuenctid Tysul – Steve Parkin a'r plant a'r staff cymorth
- Ysgol Bro Teifi, Gareth Evans, Llion Williams, yr Adran Hanes a'r myfyrwyr a fu'n cymryd rhan
- Ynni Sir Gâr – Dr Sioned Haf
- Y Porth
- Ceri Mathews
- Julie Murphy
- Lesley Parker a Jane Kerr o Gymdeithas Hanes Lleol Llandysul a'r Fro
- Glascoed – Ursula Coote
- Calon Tysul
- Meddygfa Llyn y Frân
- Llyfrgell Llandysul
- Antur Cymru
- Lowri Siôn, yn enwedig am gamu i mewn ar fyr rybudd

12. Cyfeiriadau

T5. Cyngor Sir Ceredigion. (2021). Proffiliau Ardal Cyfrifiad 2021 – Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) W0100533 – Tref Llandysul. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/census-2021/ [Cyrchwyd 2 Mehefin 2026].
Cyngor Sir Ceredigion b. (2021). Proffiliau Ardal Cyfrifiad 2021 – Ceredigion W06000008 – Ceredigion. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/census-2021/ [Cyrchwyd 2 Mehefin 2026].
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2022). Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cymru: Bwletin ystadegol Cyfrifiad 2021. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimateswales/census2021? [Cyrchwyd 2 Mehefin 2026].
Ffigur 2, OpenStreetMap 2026, map o Landysul 52.041656, -4.309126, graddfa 10 milltir / 10 km, ar gael yn Llandysul, Ceredigion – Mapiau Bing.

Tabl 12.1: Cyfeiriadau ymgynghori ar gyfer T6

Blwyddyn	Ymgynghoriad	Cyfeirnod	Ffynhonnell
2019	Argyfwng Hinsawdd	Tudalennau gwe Newid Hinsawdd CCC	www.ceredigion.gov.uk/resident/climate-change
2020–21	Adferiad COVID	Cynlluniau Adfer Corfforaethol CCC	www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-and-policies
2021–22	Cynllun Trafnidiaeth Leol	Cynlluniau Trafnidiaeth CCC	www.ceredigion.gov.uk/resident/travel-roads-and-parking/transport-plans
2022	Teithio Llesol	Ymgynghoriad Teithio Llesol CCC	www.ceredigion.gov.uk/resident/travel-roads-and-parking/active-travel
2022	Perygl Llifogydd	Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd CNC	cyfoethnaturiol.cymru/.../cynlluniau-rheoli-perygl-llifogydd
2023	Map Rhwydwaith Teithio Llesol	Archif Ymgynghori CCC	www.ceredigion.gov.uk/your-council/consultations
2023–24	Cynllun Lle Llandysul	Cynllun Lle Llandysul (PDF)	www.ceredigion.llyw.cymru/.../2024-llandysul-place-plan.pdf
2024	Adfer Natur	Archif Ymgynghori CCC	www.ceredigion.gov.uk/your-council/consultations
2024–26	Adfywio'r Dref	Adroddiadau ymgynghori LPY a	Dogfennau prosiect mewnol

		Phrifysgol Aberystwyth	
2026	Ymgynghoriad Dau Safle Allweddol	Ymgynghoriad Cyhoeddus CCC	www.ceredigion.gov.uk/your-council/consultations/future-plans-for-two-key-sites-in-llandysul

13. Atodiadau

Helpodd y gefnogaeth a'r arweiniad a roddwyd gan Amy Nicholass a Dr Wyn Morris i lunio camau cynnar yr ymchwil, yn enwedig datblygu'r cwestiynau craidd a'r setiau cwestiynau ar gyfer y grwpiau ffocws.

13.1 Y setiau o gwestiynau

Y set o 5 cwestiwn oedd wrth wraidd pob grŵp a'r arolwg:

1.Sut byddech yn disgrifio eich profiad o fyw yn Llandysul a Phont-Tyweli? Sut ydych chi'n teimlo bod Llandysul a Phont-Tyweli wedi newid?

2. A oes traddodiadau diwylliannol nad ydych yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi na'u cydnabod yn llawn yn Llandysul a Phont-Tyweli?

3. Pa newidiadau, os o gwbl, a fyddai'n gwella'r dref fwyaf i chi ac i eraill sy'n ei defnyddio?

4. Pa fathau o weithgareddau neu gyfleoedd fyddai'n gwneud gwahaniaeth?
• Pa gefnogaeth fyddai'n gwneud syniadau'n haws eu rhoi ar waith?
• Beth fyddai'n helpu pobl i deimlo'n fwy hyderus i gymryd rhan?

5.Beth yw'r syniad pwysicaf i symud ymlaen ag ef?

Wedyn ar gyfer pob grŵp ffocws, ychwanegais amrywiadau oedd yn addas i'w ffocws nhw, er enghraifft,

Cwestiynau ffocws Gwytnwch Bwyd:

6. Sut y gallai pobl neu grwpiau yn Llandysul a Phont-Tyweli gymryd mwy o ran mewn tyfu, rhannu neu ddysgu am fwyd?

7. In your opinion, which spaces in Llandysul and Pont-Tyweli support food resilience now? Are there challenges that exist with these spaces we've identified?

8. Pa fathau o weithgareddau neu gyfleoedd fyddai'n gwneud gwahaniaeth?
• Pa gefnogaeth fyddai'n gwneud syniadau'n haws eu rhoi ar waith?

• Beth fyddai'n helpu pobl i deimlo'n fwy hyderus i gymryd rhan?

9. Sut y gallai gwydnwch a dyfalbarhad ym maes bwyd gefnogi llesiant cyffredinol pobl, y gymuned, neu helpu busnesau lleol?

Cwestiynau ffocws Ynni

6. Gan feddwl am ddefnydd ynni'r dref, ei gwasanaethau a'i pholisïau amgylcheddol, pa mor dda ydych chi'n meddwl bod pethau'n gweithio ar hyn o bryd?

7. Sut ydych chi'n teimlo bod mentrau cynaliadwyedd ac ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu cydnabod a'u cefnogi yn Llandysul a Phont-Tyweli?

8. A oes sgiliau, gwybodaeth neu fentrau lleol sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd yr ydych yn teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi na'u cydnabod yn llawn?

9. Beth yw'r syniad pwysicaf i'w gymryd o heddiw?

Cerddoriaeth ac adloniant – cwestiynau ffocws

6. Beth ydych chi'n teimlo a allai helpu i gryfhau a datblygu bywyd diwylliannol Llandysul a Phont-Tyweli?

7. Beth ydych chi'n meddwl a fyddai'n ei gwneud hi'n haws i bobl Llandysul a Phont-Tyweli roi cynnig ar weithgareddau diwylliannol newydd?

8. Ydych chi'n teimlo bod cerddoriaeth a gweithgareddau diwylliannol yn cefnogi llesiant?

Cwestiynau Terfynol

9. Pa syniad yw'r pwysicaf i'w gymryd o heddiw?

Busnes – cwestiynau ffocws

6. Pa agweddau ar ganol y dref sy'n gweithio'n dda i'ch busnes?

7. A oes rhannau o'r amgylchedd, y seilwaith neu'r gwasanaethau sy'n peri heriau?

8. Sut gall busnes neu fusnesau yn yr ardal gefnogi llesiant, yr amgylchedd a'r cenedlaethau gwahanol?

9. A oes cyfleoedd, anghenion neu fylchau nad ydynt, yn eich barn chi, yn cael sylw ar hyn o bryd ac sy'n effeithio ar fusnesau lleol?

10. Pa syniad yw'r pwysicaf i'w gymryd o heddiw?

Y Ffynnon – cwestiynau sy'n canolbwyntio ar grefydd

6. Sut gall y Ffynnon a mannau tebyg gefnogi llesiant, busnesau lleol ac ymgysylltiad cymunedol?

7. Beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws i bobl Llandysul a Phont-tyweli gymryd rhan mewn gweithgareddau a gynhelir mewn mannau fel y Ffynnon?

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau?

8. Beth yw'r syniad pwysicaf i'w gymryd o heddiw?

Eglwys Tysul – crefydd

6. Sut gall mannau ffydd fel y Ffynnon ac Eglwys Tysul gefnogi llesiant, busnesau lleol ac ymgysylltiad cymunedol?

7. Beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws i bobl Llandysul a Phont-tyweli gymryd rhan mewn gweithgareddau a gynhelir mewn mannau ffydd fel y Ffynnon ac Eglwys Tysul?

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau?

8. Beth yw'r syniad pwysicaf i'w gymryd o heddiw?

Ieuenctid – ysgol

6. Beth sy'n gwneud i chi deimlo'n falch o Landysul a Phont-tyweli?

Clwb Ffermwyr Ifanc – ieuenctid

6. Beth sy'n gwneud i chi deimlo'n falch o Landysul a Phont-tyweli?

7. Pe baech chi'n mynd â ffrind i rywle yn Llandysul a Phont-tyweli, ble fyddech chi'n mynd? Beth fyddech chi'n ei ddangos iddyn nhw?


8. Beth yw'r syniad pwysicaf a hawsaf ei roi ar waith i'w gymryd o heddiw?

13.2 Detholiad o'r posteri a ddefnyddiwyd gennym i hysbysebu'r digwyddiadau:



13.3 – Sampl o'r ffurflen gydsynio a'r holiadur a ddefnyddiwyd

Dyma sgrinlun o un o'r ffurflenni cydsyniad cyfranogwyr a ddefnyddiwyd



Ffurflen Gwybodaeth i Gyfranogwyr a Chaniatâd

Arolwg Adfywio Trefol

Diolch i chi am ystyried cymryd rhan yn yr arolwg hwn. Mae'r prosiect hwn yn rhan o Bartneriaeth Arloesi Polisi Lleol (LPIP) Cymru Wledig ac fe'i harweinir gan Brifysgol Aberystwyth. Ewch i https://www.lpip.cymru am ragor o wybodaeth.

Bydd yr holl ddata yn cael ei storio'n ddiogel a'i archifo at ddibenion ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn Archif Data'r DU (UKDA), yn unol â deddfau diogelu data.

Darperir y sail gyfreithiol ar gyfer casglu data gan LPIP Cymru Wledig o dan Erthygl 89(1) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), ac mae'r sail gyfreithiol ar gyfer cadw a phrosesu'r data hefyd fel "tasg er budd y cyhoedd" o dan GDPR. Rydych yn cadw'r holl hawliau a ddarperir gan y ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol.

Gwybodaeth i Gyfranogwyr

- Mae cymryd rhan yn yr arolwg hwn yn gwbl wirfoddol.
- Rydych yn rhydd i wrthod ateb unrhyw gwestiwn a gallwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg cyn cyflwyno eich ymatebion. Unwaith y bydd ymatebion wedi'u cyflwyno, efallai na fydd modd eu tynnu'n ôl os ydynt wedi'u hanonymeiddio.
- Pwrpas yr arolwg hwn yw casglu barn y gymuned er mwyn llywio penderfyniadau a datblygiadau yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r cynllun adfywio trefol.
- Gallwch gwblhau'r arolwg yn ddienw. Fel arall, gallwch ddewis darparu eich enw a'ch manylion cyswllt.
- Os byddwch yn darparu eich hunaniaeth, gofynnir i chi nodi a ydych yn cydsynio i'ch enw gael ei briodoli i'ch ymatebion mewn adroddiadau, cyhoeddiadau neu gyfathrebiadau'r prosiect.
- Dim ond aelodau awdurdodedig o dîm y prosiect fydd yn cael mynediad at ddata adnabyddadwy.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg hwn neu ynghylch sut y bydd eich data'n cael ei ddefnyddio, cysylltwch â:
Gemma Jones, Cydlynydd y Prosiect
gemma.jones@dolenteifi.org.uk

Caniatâd

Drwy ddewis "Rwy'n cytuno" a chyflwyno'r arolwg hwn, rydych yn cadarnhau:

• Eich bod yn 18 oed neu'n hŷn.
• Rwy'n cytuno y gall fy ymatebion dienw gael eu defnyddio mewn cyhoeddiadau a digwyddiadau ymchwil.
• Eich bod wedi darllen a deall y wybodaeth uchod.
• Eich bod yn cytuno'n wirfoddol i gymryd rhan.
• Eich bod yn cydsynio i'ch ymatebion gael eu defnyddio at y dibenion a nodir.

☐ Rwy'n cytuno ac yn rhoi caniatâd i gymryd rhan yn yr arolwg hwn.

Dewisol: Hunaniaeth a Phriodoli

Os byddwch yn dewis darparu eich enw a'ch manylion cyswllt, nodwch eich dewis os gwelwch yn dda:

☐ Rwy'n cydsynio i'm henw gael ei briodoli i'm sylwadau mewn adroddiadau neu gyhoeddiadau.
☐ Hoffwn i'm hymatebion aros yn ddienw ym mhob adroddiad a chyhoeddiad.

Enw (dewisol): _____

Cyfeiriad e-bost (dewisol): _____

Dyma ail dudalen y sampl o'r ffurflen gydsynio.



Llandysul a Phont-Tyweli
Cyfeiriad ***NEWYDD*** i Landysul a Phont-Tyweli Ymlaen.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi rhoi'r cyfle i ni gynnal ymchwil gymunedol — cyfle i gysylltu â lleisiau lleol a gwrando'n **ofalus** ar eich barn a'ch syniadau ynghylch sut y gallwn gefnogi ein cymuned yn y ffordd orau bosibl. Nid oes atebion cywir nac anghywir; hoffem glywed cymaint o safbwyntiau â phosibl er mwyn ein helpu i helpu'r gymuned. Diolch yn fawr.

1.Sut byddech yn disgrifio eich profiad o fyw yn Llandysul a Phont-Tyweli? Sut ydych chi'n teimlo bod Llandysul a Phont-Tyweli wedi newid?

_____

_____

_____

2. A oes traddodiadau diwylliannol nad ydych yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi na'u cydnabod yn llawn yn Llandysul a Phont-Tyweli?

_____

_____

_____

3. Pa newidiadau, os o gwbl, a fyddai'n gwella'r dref fwyaf i chi ac i eraill sy'n ei defnyddio?

_____

_____

Dyma sampl o un o'r taflenni holiadur a ddefnyddiwyd.

4. Pa fathau o weithgareddau neu gyfleoedd fyddai'n gwneud gwahaniaeth?
• Pa gefnogaeth fyddai'n gwneud syniadau'n haws eu rhoi ar waith?
• Beth fyddai'n helpu pobl i deimlo'n fwy hyderus i gymryd rhan?

_____

_____

_____

Cwestiynau Terfynol

5.Beth yw'r syniad pwysicaf i symud ymlaen ag ef?

_____

_____

_____

6.A hoffech aros yn rhan o ddatblygu hyn ymhellach?
Ie / Na

Cyfeiriad e-bost: _____

Dyma sampl o ail dudalen taflenni holiadur yr arolwg a ddefnyddiwyd.

13.4 Sampl o ffurflen ar-lein y cysylltid â hi drwy God QR



Ffurflen Gwybodaeth i Gyfranogwyr a Chaniatâd

Arolwg Adfywio Trefol

Diolch i chi am ystyried cymryd rhan yn yr arolwg hwn. Mae'r prosiect hwn yn rhan o Bartneriaeth Arloesi Polisi Lleol (LPIP) Cymru Wledig ac fe'i harweinir gan Brifysgol Aberystwyth. Ewch i https://www.lpip.cymru am ragor o wybodaeth. Bydd yr holl ddata yn cael ei storio'n ddiogel a'i archifo at ddibenion ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn Archif Data'r DU (UKDA), yn unol â deddfau diogelu data. Darperir y sail gyfreithiol ar gyfer casglu data gan LPIP Cymru Wledig o dan Erthygl 89(1) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), ac mae'r sail gyfreithiol ar gyfer cadw a phrosesu'r data hefyd fel "tasg er budd y cyhoedd" o dan GDPR. Rydych yn cadw'r holl hawliau a ddarperir gan y ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol.

Gwybodaeth i Gyfranogwyr

- Mae cymryd rhan yn yr arolwg hwn yn gwbl wirfoddol.
- Rydych yn rhydd i wrthod ateb unrhyw gwestiwn a gallwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg cyn cyflwyno eich ymatebion. Unwaith y bydd ymatebion wedi'u cyflwyno, efallai na fydd modd eu tynnu'n ôl os ydynt wedi'u hanonymeiddio.
- Pwrpas yr arolwg hwn yw casglu barn y gymuned er mwyn llywio penderfyniadau a datblygiadau yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r cynllun adfywio trefol.
- Gallwch gwblhau'r arolwg yn ddienw. Fel arall, gallwch ddewis darparu eich enw a'ch manylion cyswllt.
- Os byddwch yn darparu eich hunaniaeth, gofynnir i chi nodi a ydych yn cydsynio i'ch enw gael ei briodoli i'ch ymatebion mewn adroddiadau, cyhoeddiadau neu gyfathrebiadau'r prosiect.
- Dim ond aelodau awdurdodedig o dîm y prosiect fydd yn cael mynediad at ddata adnabyddadwy. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg hwn neu ynghylch sut y bydd eich data'n cael ei ddefnyddio, cysylltwch â:

Gemma Jones, Cydlynydd y Prosiect
gemma.jones@dolenteifi.org.uk

1. **Caniatâd**

Drwy ddewis "Rwy'n cytuno" a chyflwyno'r arolwg hwn, rydych yn cadarnhau: • Eich bod yn 18 oed neu'n hŷn.

- Rwy'n cytuno y gall fy ymatebion dienw gael eu defnyddio mewn cyhoeddiadau a digwyddiadau ymchwil.
- Eich bod wedi darllen a deall y wybodaeth uchod.
- Eich bod yn cytuno'n wirfoddol i gymryd rhan.
- Eich bod yn cydsynio i'ch ymatebion gael eu defnyddio at y dibenion a nodir. *

Sampl o'r ffurflen ar-lein ar Microsoft teams, yr âi'r dolenni QR â chi ati.

Atodiad - Digwyddiad Diolch - Lleisiau Llandysul

Ar 18 Medi, (ar ôl cwblhau'r ymchwil a chasglu data) cynhaliwyd digwyddiad diolch o 6.00pm ymlaen yng Ngwesty'r Porth yn Llandysul. Daeth y digwyddiad â phawb a oedd wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau a gyfrannodd at ein hadroddiad "Lleisiau Llandysul" at ei gilydd, gan roi cyfle iddynt weld yr adroddiad gorffenedig a dysgu'r hyn yr oeddem wedi'i gyflawni hyd yn hyn. Wedi'i hyrwyddo dan y thema "Destination Llandysul", cynlluniwyd y noson i gynnig profiad o wyliau byr yn y dref i'r gwesteion. Anfonwyd gwahoddiadau at bawb a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gydol y prosiect, a gwahoddwyd gwesteion i fwynhau diodydd am ddim a bwyd ar thema Gymreig wedi'u gwneud o gynhwysion lleol. Symudodd y digwyddiad oddi wrth holiaduron ffurfiol yn fwriadol, gan greu cyfle hamddenol a phleserus i ddiolch i'r cyfranogwyr, cydnabod yr amser a'r egni a gyfrannwyd ganddynt, ac yn anad dim, rhoi cyfle iddyn nhw weld yr adroddiad gorffenedig—rhywbeth nad yw bob amser yn digwydd yn dilyn ymarferion ymgynghori. Perfformiodd y canwr Emrys Dafydd "Dyrchefir Fi", fersiwn Gymraeg o "You Raise Me Up", tra bod y delynores Malen Jenkins hefyd wedi perfformio, gan roi noson gofiadwy o adloniant i'r gwesteion.

Crëwyd cardiau post wedi'u dylunio'n arbennig i hysbysebu'r digwyddiad, wedi'u hysbrydoli gan yr hen gardiau post a rannwyd gan y Gymdeithas Hanes leol yn y digwyddiad hanes yn Ysgol Bro Teifi, a ddangosodd Llandysul fel cyrchfan gwyliau ffyniannus. Cafodd y cardiau post eu dylunio i gysylltu'r gorffennol hwn â'r presennol drwy greu fersiwn gyfoes yn arddangos rhai o'r pethau gwych sydd ar gael yn y dref. Roeddent yn tynnu sylw at apêl hirhoedlog Llandysul fel lle i ymweld a lle i'w ddathlu, ac yn cynnig cipolwg ar y potensial ar gyfer ei ddyfodol. Cafodd y cardiau post eu dylunio hefyd i'w defnyddio fel rhan o'r ymarfer mapio.

Mae ffigurau 1 a 2 yn dangos cardiau post a gafodd eu harddangos gan y Gymdeithas Hanes yn y digwyddiad a gynhaliwyd yn Ysgol Bro Teifi.









Mae Ffigur 3 yn dangos blaen y cerdyn post, sy'n cynnwys pedair prif ddelwedd. Mae'r un ar y chwith uchaf yn dangos paentiad yr artist lleol Sue Dewhurst o'r pentref o'r bryn gyferbyn, ac mae'r un ar y dde uchaf yn dangos golygfa o'r Parc Coffa. Mae'r un ar y chwith isaf yn cynnwys hysbysfwrdd yn enwi rhai o'r bwytai lleol, tra bod y delweddau sy'n weddill yn dangos canŵs ar yr afon a phobl ar badlfyrddau ar lyn y Padlwyr. Mae'r cerdyn post hefyd yn cynnwys y geiriau: "Llandysul", “Heart of the Teifi Valley”, "Calon Dyffryn Teifi", “Warm Welsh Community”, “Stunning Park & Riverside”, “Adventure on Your Doorstep” a “Memories That Last”.

Mae Ffigur 4 yn dangos cefn y cerdyn post, sy'n cynnwys y testun canlynol: “Image and prints © Sue Dewhurst – Available from www.suedewhurst.co.uk”.

Llandysul CALON DYFFRYN TEIFI
Yn swatio ynghanol harddwch Dyffryn Teifi, mae Llandysul yn cynnig croeso cynnes Cymreig, teithiau glan afon trawiadol, caffis a bwytai annibynnol, parciau i deuluoedd a rhai o gyfleoedd chwaraeon padlo gorau Cymru.

P'un ai ydych chi yma am antur, i ymlacio neu am fwyd gwych, byddwch yn darganfod yn fuan pam mae Llandysul wrth galon Dyffryn Teifi." CYMUNED GYMREIG GYNNES","PARC A GLAN YR AFON HARDD","BWYTAI ANNIBYNNOL","CHWARAEON CANŴIO A PHADLO", "ATGOFION SY'N PARA". Mae ganddo hefyd logo Prifysgol Aberystwyth a logo Ymlaen Llandysul a Phont-tyweli"

Mae Ffigur 5 yn cynnwys pedwar ffotograff o'r digwyddiad. Mae delweddau 1 a 2 yn dangos pobl yn cymysgu, delwedd



3 yn dangos y delynores Malen Jenkins, a delwedd 4 yn dangos y canwr Emrys Dafydd.

Dulliau Mapio Gwres

Defnyddiwyd y cardiau post fel rhan o'r adborth mapio gwres. Cafodd pobl gyfle i ennill taleb rhodd gwerth £100 ar gyfer y Porth. Y syniad oedd bod pobl yn cael un magned gwyrdd i nodi'r hyn sy'n dda yn Llandysul a Phont-tyweli, ac un magned coch i nodi'r hyn sy'n ddrwg yn Llandysul a Phont-tyweli; yna, roeddent yn cymryd cerdyn post i nodi'r rhesymau dros eu dewis.








Mae Ffigur 6 yn cynnwys tri ffotograff o'r ymarfer mapio gwres. Mae delwedd 1 yn dangos cyfranogwyr yn gosod eu magnedau, delwedd 2 yn dangos cyfranogwr yn gosod ei magned gwyrdd ar y llyfrgell ar y map, a delwedd 3 yn dangos grŵp o blant yn gosod eu magnedau ar y map gwres.

Ymatebion Mapio Gwres



Ymateb Mapio Gwres 1

Mae'r ymateb mapio cyntaf hwn yn dangos 6 magned wedi'u gosod, 3 x coch, un ar Lyn y Fran (y Feddygfa), un ger y llyfrgell ac un ar Afon Teifi.
3 x ymateb gwyrdd, un ar y caeau chwarae/parc, un ar yr afon ac un ar Ffynnon (grŵp yr eglwys)



Ymateb Mapio Gwres 2

Mae'r ymateb mapio hwn yn dangos 19 magned wedi'u gosod
8 magned coch 1 wedi'i osod ar feddygfa Llyn y fran, 4 ar y maes parcio, 3 ar yr afon.
11 magned gwyrdd – 3 ar y llyfrgell, 3 ar y parc, 3 ar y padlwyr, 1 ar y Pwerdy (canolfan gymunedol a'r celfyddydau), ac 1 ar Calon Tysul (y ganolfan hamdden)



Ymateb Mapio Gwres 3

Mae'r trydydd ymateb mapio yn dangos 7 ymateb coch, 5 ar y maes parcio, 1 ar Calon Tysul ac 1 ar y llwybr i'r parc.
Mae yna hefyd 7x o ymatebion gwyrdd, 3 ar Ysgol Bro Teifi (yr ysgol), un ar y llyfrgell, 3 ar Calon Tysul (Canolfan Hamdden).

Dadansoddiad o adborth y mapio gwres o gardiau post

Cymerodd cyfanswm o 22 o bobl ran. Rhoddodd pob un o'r 22 cyfranogwr ymateb gwyrdd, tra bod 21 hefyd wedi rhoi ymateb coch. Dim ond ymateb gwyrdd a roddodd un cyfranogwr.

Soniodd rhai cyfranogwyr am fwy nag un lle neu fater. Felly, mae'r ffigurau isod yn cynrychioli sawl gwaith y soniwyd am bob thema, yn hytrach na nifer yr ymatebwyr unigol.

Materion coch / negyddol a grybwyllir amlaf

1. **Trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltiadau bysiau — 8 cyfranogwr**
   Roedd sylwadau'n canolbwyntio ar wasanaethau bws cyfyngedig neu annibynadwy, cysylltiadau gwael â llefydd fel Caerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan, Aberystwyth ac ysbytai, a chapasiti annigonol ar fws Caerdydd.
2. **Parciau, meysydd chwarae a chaeau chwarae — 6 cyfranogwr**
   Soniodd y cyfranogwyr am offer chwarae rhydlyd neu anniogel, cyfleusterau sy'n dirywio a'r angen i amddiffyn neu fuddsoddi mewn caeau chwarae a mannau gwyrdd.
3. **Toiledau cyhoeddus — 5 cyfranogwr**
   Roedd y pryderon yn cynnwys toiledau ar gau, cyfleusterau budr, tapiau wedi torri, a'r angen am lanhau a chynnal a chadw gwell.

Roedd materion negyddol eraill a oedd yn codi dro ar ôl tro yn cynnwys **costau ac argaeledd parcio** a **llygredd yn Afon Teifi**; soniwyd am bob un ohonynt gan tua thri o'r cyfranogwyr.

- Siopau gwag a gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr yn crwydro canol y dref — **2 wedi sôn amdano**

Nodweddion gwyrdd / cadarnhaol a grybwyllir amlaf

1. **Calon Tysul a'r cyfleusterau hamdden — 8 cyfranogwr**
   Gwerthfawrogwyd y cyfleusterau hyn am eu hamrywiaeth o weithgareddau, glendid, fforddiadwyedd a'r cyfraniad a wnaed gan wirfoddolwyr. Disgrifiodd ymatebwyr nhw fel asedau cymunedol pwysig.
2. **Y llyfrgell — 5 cyfranogwr**
   Cafodd y llyfrgell ei chydnabod fel adnodd cymunedol a dysgu pwysig, yn enwedig oherwydd y cyfraniad a wnaed gan wirfoddolwyr lleol, ac fel enghraifft o wirfoddolwyr ac awdurdod lleol yn cydweithio'n effeithiol.

   3.Yn gydradd drydydd: Y Pwerdy / Padlwyr Llandysul — 4 cyfranogwr yr un
   Gwerthfawrogwyd y Pwerdy am ei ddigwyddiadau a'i rôl fel lleoliad cymunedol. Roedd Padlwyr Llandysul yn cael ei werthfawrogi fel canolfan gymunedol, atyniad ymwelwyr a busnes lleol sy'n dod â manteision ehangach i'r pentref.

Canfyddiad cyffredinol

Mae'r ymatebion yn dangos gwerthfawrogiad cryf o **gyfleusterau sy'n cael eu harwain gan y gymuned, darpariaeth hamdden a sefydliadau lleol**, yn enwedig **Calon Tysul, y llyfrgell, y Pwerdy a Phadlwyr Llandysul**.

Mae'r pryderon cliriaf yn ymwneud â'r seilwaith sylfaenol sydd ei angen i gael mynediad i'r ardal a mwynhau'r ardal: **hygyrchedd trafnidiaeth, cyflwr parciau ac ardaloedd chwarae, a darpariaeth toiledau cyhoeddus.**

Mae'r ymatebion yn dangos bod pobl yn rhoi gwerth sylweddol ar gyfleusterau Llandysul a Phont-tyweli sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Mae'r sylwadau'n awgrymu y dylai diogelu'r asedau cymunedol hyn, gan wella trafnidiaeth a chyfleusterau cyhoeddus hefyd, fod yn flaenoriaethau canolog ar gyfer cynllunio yn y dyfodol.

Gan fod rhai cyfranogwyr wedi nodi nifer o leoedd neu faterion mewn un ymateb, mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli nifer y cyfranogwyr a soniodd am bob thema, yn hytrach na nifer y magnedau a osodwyd.

Diagram pry cop sy'n dangos prif themâu'r ymgynghoriad hwn

